



Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Strategaeth Digwyddiadau Abertawe

Alpha 1 Event Management ar ran Cyngor Dinas Abertawe

Cynnwys

	Page
Cyflwyniad	3
Cyd-destun Strategol	5
Y Ffordd Ymlaen i Abertawe – Adeiladu ar ein Cryfderau	6
Gweledigaeth	9
Blaenoriaethau Strategol:	
Blaenoriaeth Un – Darparu’r Digwyddiadau Cywir... i Ddinas a Sir Abertawe	10
Blaenoriaeth Dau – Cyrchfan sy’n Gyfeillgar i Bartneriaid... hawdd trefnu digwyddiadau	21
Blaenoriaeth Tri – Cynaliadwyedd Nawr... etifeddiaeth ar gyfer yfory	25
Digwyddiadau Cysyniadol ac Enghreifftiau	33
Performance Management Framework	38
Atodiadau	
Atodiad A – Ymchwil ac Ymgynghori	39
Atodiad B – Fframwaith Buddsoddi	107
Atodiad C – Fframwaith Rheoli Perfformiad	112
Atodiad D – Sleidiau Adborth Gweithdy	123

Cyflwyniad

Mae Abertawe yn ddinas sydd wedi'i hamgylchynu gan harddwch naturiol eithriadol, gyda dyfnder diwylliannol ac uchelgais greadigol sy'n tyfu. O'i bae ysblennydd sy'n ymestyn yn eang a thirweddau eiconig Gŵyr i'w chymdogaethau bywiog, ei pharciau a'i harfordir, mae Abertawe yn cynnig lleoliad unigryw yn y DU. Gan adeiladu ar y cefndir unigryw hwn, mae Abertawe bellach yn barod i wireddu ei huchelgais i sefydlu ei hun fel cyrchfan digwyddiadau blaenllaw ar gyfer ymwelwyr a thrigolion.

Mae Abertawe eisoes yn cynnal portffolio blynyddol o ddigwyddiadau llwyddiannus sy'n dod ag egni, lliw a gwerth economaidd i'r ddinas a'r sir. Mae digwyddiadau a fel Sioe Awyr Cymru, ynghyd ag IRONMAN 70.3 Abertawe, Penwythnos Celfyddydau Abertawe, Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe, Gorymdaith y Nadolig Abertawe a Gwledd y Gaeaf ar y Glannau, cyngherddau Parc Singleton, Croeso, a rhaglen ffyniannus o ddigwyddiadau diwylliannol a chymunedol gan gynnwys Gŵyl Tawe, Pride Abertawe, Gŵyl Ymylol Abertawe a Sioe Gŵyr – oll yn cyfrannu at hunaniaeth yr ardal a'i henw da cynyddol, ac yn dangos yr hyn y gall Abertawe ei gyflawni pan ddaw uchelgais, creadigrwydd a chymuned ynghyd.

Yn gynyddol, caiff Abertawe ei chydabod fel dinas groesawgar, hyderus a chymwys sy'n cofleidio arloesedd, yn gwerthfawrogi ei phartneriaethau, ac yn deall sut i ddarparu profiadau cofiadwy i drigolion ac ymwelwyr ynghyd. Mae adfywiad canol y ddinas, yr ardal arfordirol a glannau'r afon, ynghyd ag asedau naturiol eiconig megis Penrhyn Gŵyr, yn darparu llwyfan cryf i arddangos diwylliant, chwaraeon, cerddoriaeth, treftadaeth a bywyd cymunedol.



Mae'r Strategaeth Ddigwyddiadau hon, sy'n rhan o Strategaeth Ddiwylliant ehangach, yn nodi uchelgais glir ar gyfer y degawd nesaf: trawsnewid Abertawe yn gyrchfan digwyddiadau genedlaethol fawr, gyda phortffolio sy'n ysgogi twf economaidd, yn cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol, ac yn sicrhau bod manteision digwyddiadau yn cael eu teimlo'n eang ac yn gyfartal ledled y ddinas a'r sir.

Mae hefyd yn hanfodol bod cynllunio a chyflwyno pob digwyddiad, boed yn fawr neu'n fach, yn blaenoriaethu diogelu'r arfordir, yr amgylchedd naturiol, a Gŵyr fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Rhaid hefyd reoli digwyddiadau mewn ffordd sy'n lleihau'r effeithiau ar gymunedau lleol a thrigolion, ac sy'n cyd-fynd ag ymrwymïadau ehangach Abertawe ar newid hinsawdd, iechyd, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.


Dros y deng mlynedd nesaf, bydd digwyddiadau yn chwarae rhan ganolog wrth adrodd stori Abertawe: dathlu ei dawn greadigol, ei hiaith Gymraeg, ei cherddoriaeth a'i diwylliant, ei threftadaeth forol a diwydiannol, a bywyd bob dydd ei chymdogaethau a'i chymunedau amrywiol. Ond rhaid i'r digwyddiadau cywir wneud llawer mwy na dim ond difyrru. Yn ogystal â helpu i dyfu'r economi ymwelwyr, ymestyn y tymor a chefnogi swyddi a busnesau lleol, rhaid iddynt hefyd gryfhau cydlyniant cymunedol a llesiant, gan gynnig cyfleoedd cynhwysol i bobl o bob oedran a chefnidir i gymryd rhan, perfformio, gwirfoddoli ac arwain. Mae digwyddiad yn brofiad cyflawn.

Bydd cyflawni'r weledigaeth hon yn gofyn am weithio mewn partneriaeth gryf, ar draws gwasanaethau'r Cyngor, sefydliadau diwylliannol a chymunedol, busnes ac addysg, partneriaid cenedlaethol a hyrwyddwyr digwyddiadau. Mae'r Strategaeth Ddigwyddiadau hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cydweithio hwn. Mae'r weledigaeth, y cyfeiriad a'r blaenoriaethau strategol yn y Strategaeth yn seiliedig ar themâu a ddaeth i'r amlwg o ymchwil helaeth ac ymgynghoriad. Mae'n blaenoriaethu digwyddiadau cyrchfan sy'n gallu cystadlu ar lwyfan y DU, yn cefnogi ar lawr gwlad sy'n mynegi hunaniaeth leol, ac yn nodi sut y bydd Abertawe yn defnyddio tystiolaeth a gwerthuso i lywio ei benderfyniadau a buddsoddi lle bydd yr effaith fwyaf.

Bydd gwneud hyn yn iawn i drigolion, hefyd yn gwneud Abertawe'n fwy deniadol i ymwelwyr, gan atgyfnerthu cylch cadarnhaol lle mae bywiogrwydd diwylliannol yn cefnogi twf economaidd, llesiant cymunedol a hunaniaeth seiliedig ar le.

Mae'r Strategaeth Ddigwyddiadau hon yn nodi moment arwyddocaol i Abertawe. Mae'n amlinellu dull hyderus, cydgysylltiedig ac edrych tua'r dyfodol a fydd yn llywio penderfyniadau, buddsoddi a phartneriaethau hyd at 2035. Gyda'r uchelgais a'r cydweithio cywir, gall Abertawe gyflwyno digwyddiadau sy'n cyfateb i raddfa ei thirwedd, cyfoeth ei ddiwylliant a'i threftadaeth, a dyheadau ei phobl – gan greu cymynrodd y gall y ddinas a'r sir gyfan ymfalchio ynddi.

Cyd-destun Strategol



Mae 6 maes yn cyfrannu at y Strategaeth Ddiwylliant, pob un â'i Gynllun Strategol ei hun.

Mae'r Strategaeth Ddigwyddiadau yn sbardun allweddol i gyflawni'r maes Digwyddiadau a Gwyliau.

Y Ffordd Ymlaen i Abertawe - Adeiladu ar ein Cryfderau

Fel rhan annatod o Strategaeth Ddiwylliant Abertawe, mae digwyddiadau a gwyliau yn cyfoethogi ac yn hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog Cymru drwy ddatblygu profiadau twristiaeth cynaliadwy, cynhwysol ac arloesol. I lunio'r ffordd ymlaen ar gyfer digwyddiadau a gwyliau Abertawe, gwnaethom adolygu'r polisiau, y cynlluniau, y data a'r dystiolaeth sy'n dylanwadu ar Abertawe yn lleol ac yn genedlaethol.

Gwnaethom archwilio gwerth economaidd a chymdeithasol presennol a phosibl digwyddiadau, hunaniaeth a asedau diwylliannol y ddinas, a'r tueddiadau sy'n siapio cyfranogiad ac ymddygiad cynulleidfaoedd. Drwy arolygon o drigolion a rhanddeiliaid, gweithdai, cyfarfodydd un-i-un ac ymgysylltu cymunedol, ynghyd ag ymchwil ddesg, rydym wedi nodi cryfderau, cyfleoedd a heriau allweddol Abertawe. *(Gellir gweld dadansoddiad manwl o'r canfyddiadau yn Atodiad A)*

Mae'r gwaith hwn wedi ein helpu i lunio strategaethau ymarferol ac i ddeall sut y gall digwyddiadau adlewyrchu'n well gymeriad unigryw Abertawe, cefnogi twristiaeth, gwella mynediad a chynhwysiant, a darparu manteision ehangach i gymunedau a'r economi leol. Mae hefyd wedi llywio'r blaenoriaethau, y camau gweithredu a'r rhaglenni a nodir yn y Strategaeth hon - gan egluro beth sydd angen ei wneud, gan bwy, a sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso.



O'r strategaethau ymarferol a grewyd, nodwyd y pedwar thema ganlynol:

Harneisio cryfderau naturiol, diwylliannol a chymunedol Abertawe i greu Rhaglen Digwyddiadau nodedig ac uchelgeisiol

Bydd Abertawe yn adeiladu rhaglen digwyddiadau nodedig ac uchelgeisiol drwy greu sy'n diffinio'r gyrchfan ac yn dathlu ei harfordir, ei threftadaeth forol a'i hunaniaeth ddiwylliannol. Drwy wneud y mwyaf o'i lleoliad naturiol prydferth a'i chymunedau gweithgar, gall Abertawe ehangu ei digwyddiadau awyr agored, dygnwch a rhai seiliedig ar ddŵr. Gellir datblygu rhaglen amrywiol i gynnig rhywbeth i bawb, o deuluoedd a myfyrwyr i gynulleidfaoedd lleol ehangach ac ymwelwyr.

Drwy ddatblygu partneriaethau cryf gyda phrifysgolion, busnesau a rhwydweithiau creadigol, gall Abertawe ysgogi arloesedd a chyfluoedd newydd, gan ddefnyddio cefnogaeth cronfa fywiog o dawn leol, cynhyrchwyr a gwneuthurwyr sy'n arddangos hunaniaeth unigryw'r ddinas. Bydd ymrwymiad cryf gan y Cyngor yn sail i'r dull hwn, gan alluogi'r ddinas i sicrhau cyllid allanol ar gyfer adfywio a arweinir gan ddiwylliant, datblygu digidol a gwella seilwaith.



Cyflwyno twf drwy arloesedd sy'n cael ei yrru gan ddata, cynhwysiant a chreu lleoedd

Bydd Abertawe yn ysgogi twf drwy ddefnyddio data, arloesedd a dull cynhwysol o greu lleoedd i gryfhau ei rhaglen digwyddiadau. Bydd datblygu digwyddiadau newydd yn y tymhorau pontio a digwyddiadau sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol yn helpu i lenwi unrhyw fylchau yn y rhaglen, tra bydd cynnwys digwyddiadau digidol a hybrid yn helpu Abertawe i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach. Bydd angen gwella casglu data a gwerthuso i ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o gynulleidfaoedd ac effaith, a bydd hyn yn sicrhau penderfyniadau a chyflwyno mwy effeithiol.

Bydd ffocws ar gynhwysiant yn sicrhau bod digwyddiadau'n adlewyrchu diwylliant Cymreig, hunaniaethau cymdogaethau, ac anghenion cymunedau LHDTQ+, trigolion hŷn, pobl anabl a grwpiau lleiafrifol eraill. Bydd y dull hwn yn helpu i adeiladu hunaniaethau digwyddiadau unigryw "Abertawe" sydd wedi'u gwreiddio yn nhreftadaeth forol a etifeddiaeth greadigol y ddinas, gan wahaniaethu Abertawe oddi wrth ei chystadleuwyr.

Cryfhau mantais gystadleuol a gwynnwch Abertawe drwy hunaniaeth gryf, cymuned a chynaliadwyedd

Bydd Abertawe yn cryfhau ei safle cystadleuol drwy hyrwyddo ei lleoliad arfordirol nodedig, ei threftadaeth gyfoethog a'i chynnig chwaraeon sefydledig, gan sicrhau bod digwyddiadau'n adlewyrchu hunaniaeth unigryw'r ddinas yn glir. Drwy arweiniad, cefnogaeth a seilwaith datblygedig, bydd y Cyngor yn cefnogi trefnwyr a chynhyrchwyr i reoli'r gofynion rheoleiddiol cynyddol, gan gynnal safonau uchel o ddiogelwch a chynaliadwyedd.

Drwy gynnwys cymunedau lleol a ddawn yn weithredol, bydd Abertawe yn adeiladu cefnogaeth gryfach gan y cyhoedd ar gyfer digwyddiadau newydd ac yn lleihau pryderon ynghylch sŵn, tagfeydd neu effaith fasnachol. Bydd ymrwymiad parhaus i gynaliadwyedd yn lleihau effeithiau amgylcheddol a phwysau, ac yn helpu i fynd i'r afael â heriau hinsawdd a thrafnidiaeth.

Ar y cyd â chynnig twristiaeth gwydn drwy gydol y flwyddyn, bydd y mesurau hyn yn cynorthwyo presenoldeb sefydlog ac yn helpu i ddiogelu sector digwyddiadau Abertawe yn ystod dirywiadau economaidd.

Sicrhau sefydlogrwydd hirdymor drwy well cynllunio, gwerthuso, cydweithio ac aliniad cymunedol

Bydd Abertawe yn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor yn ei rhaglen digwyddiadau drwy gryfhau gwydnwch ariannol drwy flaenoriaethu gofalus, buddsoddi ar y cyd a dulliau cyllido amlflwyddyn sy'n gallu gwrthsefyll pwysau economaidd. Bydd fframwaith gwerthuso cliriach a mwy cyson yn helpu i ddangos gwerth digwyddiadau, cefnogi penderfyniadau gwybodus a lleihau gwrthwynebiad cymunedol. Bydd gwell cynllunio trafndiaeth a mynediad yn helpu i leddfu tagfeydd ac amddiffyn amgylcheddau sensitif, yn enwedig mewn ardaloedd fel Gŵyr.

Bydd rhaglenni'n cael eu rheoli'n ofalus i osgoi gorbwysleisio cymunedau neu greu pwysau tymhorol, tra bydd ymgynghori cymunedol gwell yn sicrhau bod lleisiau lleol yn dylanwadu ar ddatblygu digwyddiadau o'r cychwyn cyntaf. Bydd cynnwys fformatau dan do neu hybrid yn helpu i leihau effeithiau newid hinsawdd ac yn cefnogi cyflwyno dibynadwy drwy gydol y flwyddyn.

Gweledigaeth

“Ein nod yw creu momentau sy’n bwysig ac sy’n dathlu pwy ydym ni a ble rydym yn byw.

Digwyddiadau sy’n goleuo Abertawe, yn dod â phobl ynghyd, yn cefnogi ein cymunedau ac yn tyfu ein heconomi.”

Mae ein gweledigaeth wedi’i gwreiddio yn yr hyn sy’n bwysicaf i’n pobl. Mae’n dathlu unigrywiaeth Gŵyr, y Bae, ein cefn gwlad, a’n dinas fywiog – yr holl llefydd sy’n gwneud Abertawe yn gartref.

Mae digwyddiadau yn Abertawe yn fwy na phethau sy’n digwydd yn unig - maent yn creu eiliadau sy’n bwysig, yn tanio ysbrydoliaeth, yn dod â phobl ynghyd, ac yn dod yn rhan o’r stori ynghylch pwy ydym ni. Maent yn anadlu bywyd i’n strydoedd, lle y caiff cysylltiadau newydd eu creu a lle mae ysbryd Abertawe yn disgleirio drwy ein cymunedau, ein heconomi, ein diwylliant a’n treftadaeth.

Rydym yn credu mewn gwrandio, cydweithio a chyd-greu digwyddiadau sy’n teimlo’n wirioneddol “ni,” nid yn mewnforio syniadau cyffredinol ond yn plethu ein hunaniaeth a’n pobl i bopeth a wnawn.

Rydym am i Abertawe fod yn lle ble mae pawb yn teimlo’n groesawgar drwy gydol y flwyddyn – lle caiff profiadau bythgofiadwy eu creu, y bydd ymwelwyr bob amser yn eu cofio, a bod pobl leol wastad yn teimlo’n falch ohonynt.

Oherwydd, pan wnawn hyn yn iawn, mae Abertawe yn dod yn lle hyd yn oed gwell i fyw ynddo: mae pobl yn teimlo’n fwy cysylltiedig ac yn fwy cyfranogol, ac mae Abertawe yn dod yn gyrchfan hyd yn oed fwy deniadol i ymweld â hi – mae digwyddiadau yn creu bwrlwm, yn denu ymwelwyr ac yn rhoi hwb i’n heconomi.

Mae ein busnesau lleol, ein diwylliant a’n cymunedau i gyd yn elwa: mae arian yn aros yn lleol, mae talent yn datblygu, ac mae cyfleoedd newydd yn codi. Mae hunaniaeth Abertawe yn cryfhau: stori gyfoethocach, fwy cynhwysol a mwy bywiog y gall pawb fod yn rhan ohoni.

I gyflawni’r weledigaeth hon, nodwyd tri blaenoriaeth strategol sy’n adeiladu ar gryfderau presennol Abertawe ac yn diwallu anghenion y dyfodol. Dyma nhw:

1. Darparu’r digwyddiadau cywir... i Abertawe

2. Cyrchfan sy’n gyfeillgar i bartneriaid... yn hawdd trefnu digwyddiadau yma

3. Cynaliadwyedd nawr... etifeddiaeth ar gyfer yfory

Blaenoriaethau Strategol

Blaenoriaeth Un – Darparu'r Digwyddiadau Cywir... i Abertawe

Mae digwyddiadau a gwyliau Abertawe yn ganolog i'w huchelgais i fod yn lle ffyniannus, cynhwysol, creadigol ac economaidd wydn. Mae digwyddiadau yn cefnogi twristiaeth, yn adfywio mannau, yn cryfhau cymunedau, yn hyrwyddo llesiant ac yn gwella hunaniaeth ddiwylliannol y ddinas.

Mae'r flaenoriaeth hon yn nodi dull unedig o ddarparu'r digwyddiadau cywir ar gyfer Abertawe, gan ddod â thair prif yrwir newid rhyng-gysylltiedig ynghyd:

1. Mwyafu effaith economaidd digwyddiadau a gwyliau
2. Gwella proffil diwylliannol, hunaniaeth a chreu lleoedd Abertawe
3. Cefnogi cymunedau, llesiant a chynhwysiant

1. Ysgogydd Newid: Mwyafu Effaith Economaidd Digwyddiadau a Gwyliau

Beth mae hyn yn ei olygu...

Mae mwyafu effaith economaidd digwyddiadau a gwyliau Abertawe yn golygu datblygu a hyrwyddo rhaglen uchelgeisiol drwy gydol y flwyddyn sy'n denu ymwelwyr gwerth uchel, yn cynyddu hyd arhosiad a gwariant, ac yn gwella enw da Abertawe fel un o brif gyrchfannau digwyddiadau'r DU. Mae gan ddigwyddiadau'r potensial i gynyddu gweithgarwch economaidd yn sylweddol ar draws lletygarwch, llety, trafndiaeth, manwerthu, hamdden a'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cydnabod:

- Cyfuniad unigryw'r ddinas o amgylchedd trefol, arfordirol a chefn gwlad, gan ddarparu cefndir heb ei ail ar gyfer digwyddiadau diwylliannol, cerddoriaeth, chwaraeon a dygnwch.
- Yr angen i gystadlu â chyrchfannau tebyg yn y DU (megis Caerdydd a Bryste) am ddigwyddiadau diwylliannol, cerddoriaeth a dygnwch mawr, tra'n cefnogi gwyliau sydd wedi'u gwreiddio'n lleol sy'n mynegi hunaniaeth Abertawe.

- Rôl digwyddiadau wrth ddod â bywyd i ofodau cyhoeddus newydd ac ysgogi buddsoddi mewn cymunedau.
- Pwysigrwydd cydbwysu nodau economaidd gyda gyrwyr strategol cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach, gan sicrhau twf cynaliadwy a chyfrifol.

Dros y degawd nesaf, bydd y ffocws ar ddatblygu portffolio o Ddigiwyddiadau Cyrchfan / Llofnod – digwyddiadau nodedig sy'n denu cynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol, yn cynhyrchu gwariant twristiaeth sylweddol, ac na ellir eu hailadrodd yn hawdd mewn mannau eraill. Mae'r digwyddiadau hyn yn galluogi darparwyr llety i godi cyfraddau uwch, ymestyn tymor yr ymwelwyr, a darparu gwerth drwy gydol y flwyddyn ar draws y sectorau twristiaeth a lletygarwch.

Bydd y Cyngor – yn enwedig drwy ei Dîm Digwyddiadau Arbennig – yn parhau i fod yn ddatblygwr allweddol, comisiynydd ac hwylusydd digwyddiadau sy'n cyflawni canlyniadau economaidd cryf, gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid, hyrwyddwyr, sefydliadau diwylliannol a chymunedau.

Byddwn yn gwneud hyn drwy...

1. Adeiladu Cynnwys o Amgylch Sioe Awyr Abertawe

Mae Sioe Awyr Abertawe yn parhau'n unig Ddigwyddiad Cyrchfan sefydledig y ddinas, gan ddenu tua 250,000 o fynychwyr, y mae 59% ohonynt yn ymwelwyr ffyddlon sy'n dychwelyd, ac yn cynhyrchu dros £10 miliwn i'r economi leol (2018). Mewn cyfnod prysur ar galendr digwyddiadau'r flwyddyn, bydd y dull yn canolbwyntio ar ehangu apêl y digwyddiad a rhoi mwy o ymdeimlad o berchnogaeth i drigolion lleol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Ehangu'r rhaglen gyda harddangosfeydd gyda'r nos, sioeau pyrotechneg neu dronau, adloniant byw ac oriau masnachu estynedig i gynyddu hyd arhosiad a gwariant.
- Ehangu apêl y gynulleidfa drwy ddatblygu digwyddiadau cysylltiedig megis teithiau gwyllo sêr, gŵyl barcutiaid a llwybrau arfordirol neu weithdai i deuluoedd.
- Cynyddu perchnogaeth gymunedol drwy weithio gyda grwpiau lleol, elusennau a sefydliadau diwylliannol, cynhyrchwyr lleol a chrefftau drwy ganolbwynt diwylliannol neu ardal gymunedol benodol.
- Cryfhau'r economi gylchol drwy flaenoriaethu cyflenwyr lleol, cynhyrchwyr bwyd, sefydliadau STEM a'r diwydiannau creadigol.
- Mireinio marchnata a negeseuon yn seiliedig ar fewnwelediad cynulleidfaoedd newydd i dargedu marchnadoedd rhanbarthol, y DU a marchnadoedd ymwelwyr arbenigol.

- Datblygu Ap y Sioe Awyr i dynnu sylw at gynnwys newydd ac adeiladu diddordeb a theyrngarwch cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad, a chynyddu rhyngweithio.
- Datblygu cynnwys y tu ôl i'r llenni a chynllun ymgysylltu drwy gydol y flwyddyn i adeiladu disgwyliad, teyrngarwch ac ymwelwyr sy'n dychwelyd.
- Cyflwyno gwerthusiad annibynnol rheolaidd i asesu elw economaidd a llywio'r rhaglen.

2. Ehangu a Gwella Digwyddiadau Presennol yn Ddigwyddiadau Cyrchfan

Cynnig Cyn y Nadolig

- Datblygu cynnig cyfunol ac unedig ar draws y Cyngor a'r Ddinas i osod Abertawe fel cyrchfan egwyl fer cyn y Nadolig o ansawdd uchel ar gyfer marchnadoedd domestig a'r diwydiant teithio.
- Creu gŵyl/rhaglen Nadolig gydgysylltiedig ar gyfer Abertawe gyda llwybr goleuadau thematig, llawr sgelfrio iâ, marchnadoedd Nadolig ac animeiddio yn y canol dinas/ar hyd yr arfordir.
- Uno busnesau, gweithredwyr a phartneriaid o dan un brand cyrchfan Nadolig ac integreiddio rhaglenni dan do ac awyr agored (e.e. amgueddfeydd, orielau, canolfannau siopa) o dan un faner farchnata

Cyfleoedd Digwyddiadau'r Gwanwyn a'r Hydref

- Cryfhau digwyddiadau megis Croeso a Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe drwy ddatblygu rhaglenni traws-bartneriaeth ar draws y sectorau diwylliant, busnes, chwaraeon a chymuned, a manteisio ar ddigwyddiadau dygnwch a'r digwyddiadau celfyddydol presennol sy'n canolbwyntio ar y tymhorau pontio.

Digwyddiadau Dygnwch a Diddordeb Arbennig

- Manteisio ar enw da Abertawe ar gyfer digwyddiadau dygnwch proffil uchel sy'n denu ymwelwyr sy'n aros yn hirach a thwristiaeth cyn/ar ôl digwyddiadau.
- Gweithio gyda Digwyddiadau Cymru a chyrrff llywodraethu i archwilio ceisiadau am ddigwyddiadau mawr yn y DU/Ewrop (e.e. Ironman 70.3 lawn/hanner, Pencampwriaethau Triathlon, y byd aml-chwaraeon).
- Rheoli cynhwysedd yn ofalus mewn ardaloedd sensitif megis Gŵyr, gan gydbwyso budd economaidd â diogelu'r amgylchedd a llesiant trigolion.
- Datblygu pecynnau ymwelwyr gyda darparwyr lletygarwch a chynhyrchwyr lleol i fwyafu gwariant ac annog arhosiadau hirach.

3. Creu ac Adfywio Themâu Cyrchfan

Gwyliau Cerddoriaeth a Chyngherddau

- Mabwysiadu strategaeth tymor canolig i ddod ag artistiaid mawr a gwyliau cerddoriaeth yn ôl drwy:
 - Adeiladu ar bartneriaethau fel “Tunes on the Bay” i ailsefydlu Abertawe fel lleoliad premiwm ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth awyr agored canolig/mwy.
 - Denu gwyliau teithiol neu rai â brand penodol i ehangu’r farchnad (e.e. Mighty Hoopla, Sausage & Cider Fest, Communion One).
 - Archwilio datblygiad Cyfres Gerddoriaeth Awyr Agored Llofnod, gan gyfuno genres clasurol, gwerin, cyfoes a chroesi—e.e. cyngherddau ar ben clogwyni, cerddorfeydd prynhawn hwyr wrth y môr, nosweithiau cerddoriaeth mewn safleoedd treftadaeth gyda phecynnau lletygarwch premiwm a phrofiadau.
- Datblygu modelau cyllido rhannu risg gyda hyrwyddwyr lluosog, gweithredwyr lletygarwch a gwarantwyr trydydd parti i gefnogi artistiaid mawr.

Digwyddiadau Diwylliannol Tyfu’n Lleol

- Cael ysbrydoliaeth o enghreifftiau llwyddiannus yn y DU (y Gelli, Y Fenni, Machynlleth) sydd wedi tyfu o wreiddiau llawr gwlad i fod yn wyliau o arwyddocâd cenedlaethol.
- Cefnogi gwyliau ar lawr gwlad a arweinir gan y gymuned sy’n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol Abertawe, ei threftadaeth forol, hanes Celtaidd, llenyddiaeth, theatr a chynnyrch/gwneuthurwyr lleol.
- Lleoli Abertawe fel cyrchfan ar gyfer profiadau diwylliannol Cymreig dyls, gan ymateb i alw cryf gan segmentau ymwelwyr hŷn sy’n gwario mwy.
- Datblygu gwyliau sy’n canolbwyntio ar dreftadaeth forol a hanes Celtaidd y Ddinas a’r Sir, ei eiconau llenyddol a theatraidd, a chynnyrch/gwneuthurwyr lleol, gan ddefnyddio cymysgedd o leoliadau dan do ac awyr agored mewn ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol.
- Annog arweinyddiaeth gymunedol, datblygu gwirfoddolwyr a pherchnogaeth gan drigolion i sicrhau cynaliadwyedd a balchder lleol, ac i adeiladu digwyddiadau sy’n gallu denu twristiaid diwylliannol ehangach o’r DU ac yn rhyngwladol.

4. Defnyddio Gwerthuso Cadarn i Fesur Effaith Economaidd a Llywio Buddsoddiad

- Fel rhan o'r fframwaith mesur perfformiad, canolbwyntio ar werth economaidd, gwariant ymwelwyr, nosweithiau gwely, gwerth ychwanegol a dychweliad ar fuddsoddiad (ROI) ar gyfer digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor.
- Cynnal ymchwil annibynnol rheolaidd ar gyfer digwyddiadau allweddol, gan gynnwys ailgyflwyno gwerthusiad bob dwy flynedd ar gyfer digwyddiadau ar lefel cyrchfan megis y Sioe Awyr.
- Defnyddio data geoleoli a dulliau mewnwelediad modern i ddadansoddi ymddygiad cynulleidfaoedd, ardaloedd tarddiad ac effaith economaidd.
- Sicrhau bod canfyddiadau gwerthuso yn llywio penderfyniadau ynghylch:
 - pa ddigwyddiadau i'w hehangu
 - pa rai sydd angen eu trawsnewid
 - pa rai nad ydynt bellach yn darparu dychweliad digonol
- Cyhoeddi adroddiadau blynyddol i ddangos gwerth buddsoddiad cyhoeddus a meithrin hyder ymhlith partneriaid

2. Ysgogydd Newid: Gwella Proffil Diwylliannol, Hunaniaeth a Chreu Lle Abertawe

Beth mae hyn yn ei olygu...

Mae'r flaenoriaeth hon yn ymwneud â defnyddio gwyliau a digwyddiadau i gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Abertawe, ei ymdeimlad o le a chydlyniant cymunedol, tra'n cefnogi trawsnewid economaidd a ffisegol ehangach y ddinas.

Cydnabyddir digwyddiadau fel mecanwaith craidd ar gyfer dod â bywyd i fannau sydd wedi'u hadfywio, nawr ac yn y dyfodol. Mae rhaglen adfywio'r ddinas yn creu llwyfannau newydd i ddigwyddiadau animeiddio mannau cyhoeddus, ysgogi buddsoddiad ac atgyfnerthu brand "Dinas ar y Traeth". Maent hefyd yn helpu i ddatgloi potensial cynnig bwyd, diod a hamdden newydd fel canolfannau diwylliannol hyblyg.

Mae digwyddiadau diwylliannol yn arf allweddol ar gyfer cydlyniant cymunedol, gwydnwch a hunaniaeth.

Gallant:

- gysylltu pobl gyda straeon, ieithoedd, tirweddau a threftadaeth Abertawe;

- adeiladu balchder mewn lle a pherchnogaeth gyfunol o ddyfodol y ddinas;
- cefnogi iechyd, llesiant a chynhwysiant;
- mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd lle mae cymunedau'n cael eu tanwasanaethu gan y cynnig presennol;
- denu ymwelwyr a chefnogi adfywio a thwristiaeth sy'n cael eu harwain gan ddiwylliant;
- dathlu a datblygu talent leol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a chymunedau diwylliannol amrywiol.

Felly, mae gwella hunaniaeth ddiwylliannol a chreu lle drwy ddigwyddiadau yn golygu uno uchelgais ddiwylliannol, adfywio, dylunio'r amgylchedd cyhoeddus a chanlyniadau cymdeithasol i mewn i strategaeth digwyddiadau gydlynol sy'n seiliedig ar le.

Byddwn yn gwneud hyn drwy...

1. Llywodraethu diwylliannol cryf

- Sicrhau bod y Fframwaith Llywodraethu Digwyddiadau yn cefnogi cynllunio, cydlynu, curadu a chyflwyno digwyddiadau diwylliannol ar draws adrannau'r Cyngor (Diwylliant, Digwyddiadau, Twristiaeth, Adfywio, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedol) a phartneriaid allanol.
- Sefydlu rolau a chyfrifoldebau clir ar draws adrannau:
 - *Cyflwyno digwyddiadau* (gweithrediadau, logisteg, diogelwch, seilwaith a marchnata)
 - *Curadu digwyddiadau* (datblygu, naratif, rhaglennu, dilysrwydd, ansawdd), gan gydnabod bod cynnwys wedi'i guradu yn hanfodol i effaith ddiwylliannol ac ymgysylltiad cynulleidfaoedd
- Meithrin partneriaethau sy'n datblygu talent leol, yn cefnogi rhaglenni diwylliannol dilys, ac yn ehangu digwyddiadau ar lawr gwlad a arweinir gan y gymuned—gan ddefnyddio micro-grantiau, comisiynau agored a gweithgareddau cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth cymdogaethau Abertawe ac yn sicrhau dathliadau diwylliannol ar draws y ddinas, y maestrefi a'r ardaloedd gwledig, o bosibl o dan frand ymbarél Abertawe.

a. Manteisio ar adfywio a gwella gofod cyhoeddus

- Sicrhau bod mannau cyhoeddus newydd a gwella yn cael eu dylunio o'r cychwyn cyntaf i gynnal y rhaglen fwriadedig o ddigwyddiadau'n ddiogel ac yn hawdd, gyda'r pŵer, mynediad, cysylltiadau digidol a chyfleusterau cywir yn eu lle.

- Mwyafu'r defnydd o safleoedd adfywio allweddol ar gyfer digwyddiadau:
 - Safle Glan y Môr / Canolfan Ddinesig a'r promenâd fel prif safle digwyddiadau arfordirol
 - Gerddi'r Castell fel man gwyrdd cymdeithasol gyda chyfleoedd perfformio ategol o amgylch y Castell
 - Parc yr Amgueddfa, y Marina a Chwarter Morwrol ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a threftadaeth bach i ganolig
 - Coridor Glan Afon Tawe a Gwaith Copr Hafod ar gyfer digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar yr afon a threftadaeth ddiwydiannol
- Atgyfnerthu asedau presennol megis Marchnad Abertawe a'r strydoedd cyfagos (e.e. ailgyflwyno "Stryd Oren" a defnyddiau bwyd a diod newydd) i gynnal marchnadoedd, digwyddiadau diwylliannol dros dro a digwyddiadau gyda'r nos sy'n cysylltu manwerthu, bwyd a diwylliant.
- Creu profiad lle unedig drwy raglennu digwyddiadau ar hyd cysylltwyr allweddol megis Ffordd i'r Môr, gan gysylltu canol y ddinas, y farchnad, glan yr afon a'r traeth yn daith ddiwylliannol gydlynol "Dinas ar y Traeth".

b. Creu gŵyl ddiwylliannol gyrchfan

- Creu gŵyl flaenllaw nodedig a dilys sy'n adlewyrchu hunaniaeth Abertawe – drwy ei threftadaeth forol a diwydiannol, ei thirwedd, ei chelfyddydau neu ei llenyddiaeth; gan ddathlu'r cysylltiad dwfn rhwng Cymru a'r môr a chysylltu â'r Chwarter Morwrol, dociau'r Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, gerddi'r amgueddfa a'r lan môr.
- Dulliau ar gyfer datblygu gŵyl:
 - Digwyddiad arddull Gŵyl y Môr, yn gweithredu fel uchafbwynt rhaglen flynyddol o weithgarwch diwylliannol lleol. Mabwysiadwyd dull tebyg gan Southport ar gyfer 2026 o dan thema "Elegance and Eccentricity", gyda digwyddiadau a gosodiadau diwylliannol newydd yn y tymhorau pontio ac oddi ar y brig.
 - Themâu gwyliau o amgylch eiconau/celebrïaid cenedlaethol a byd-eang enwog (e.e. Dylan Thomas) sy'n gweithredu fel angor diwylliannol, ond gan hefyd ddarparu cyfle i gyflwyno'r ystod eang o'r cynnig presennol ynghyd â'r sîn gerddorol a diwylliannol sy'n datblygu.
 - Themâu treftadaeth a morwrol gyda digwyddiadau a gwyliau'n dod â gwneuthurwyr crefftus, creadwyr digidol, arloeswyr gwyrdd a morwrol, cynhyrchwyr bwyd ac artistiaid lleol ynghyd i ddathlu traddodiadau'r gorffennol a thalent gyfoes y ddinas.

2. Defnyddio digwyddiadau i atgyfnerthu brand lle a newid canfyddiadau

- Creu cynllun ar y cyd i hyrwyddo a datblygu digwyddiadau sy'n ymgorffori ac yn cyfleu ethos “Dinas ar y Traeth”, gan atgyfnerthu Abertawe fel dinas fyw, greadigol ac arfordirol.
- Alinio brandio digwyddiadau, marchnata a chreu straeon gyda'r Cynllun Creu Lle a brand y ddinas, gan sicrhau bod negeseuon cyson am hunaniaeth Abertawe yn cyrraedd trigolion, busnesau ac ymwelwyr.
- Cysylltu digwyddiadau a lleoliadau celf a diwylliant (amgueddfeydd, orielau, theatrau, marchnad, arena) drwy raglenni cydweithredol, llwybrau a hyrwyddo traws, fel bod digwyddiadau'n annog archwilio'r ddinas ehangach.

3. Ysgogydd Newid: Cefnogi Cymunedau, Llesiant a Chynhwysiant

Beth mae hyn yn ei olygu...

Mae gan Abertawe'r uchelgais i arwain y ffordd yng Nghymru a'r DU drwy ddarparu digwyddiadau sy'n cryfhau cydlyniant cymdeithasol, yn meithrin balchder, ac yn creu ymdeimlad dwfn o berthyn. Bydd digwyddiadau'n cael eu dylunio i helpu cymunedau i ffynnu, gan gynnig cyfleoedd ystyrlon i bobl gysylltu, dathlu gwerthoedd cyffredin, a chymryd rhan mewn profiadau cynhwysol sy'n berthnasol yn ddiwylliannol.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cydnabod:

- Bod digwyddiadau'n chwarae rhan hanfodol wrth wella llesiant cymunedol—cymdeithasol, diwylliannol, corfforol a meddyliol.
- Y bydd digwyddiadau Abertawe yn adlewyrchu hunaniaeth leol, yn cefnogi cymunedau amrywiol, ac yn dileu rhwystrau fel y gall pawb gymryd rhan, elwa a theimlo eu bod yn cael eu cynrychioli.
- Y bydd digwyddiadau o bob maint—o ddatgliadau cymdogaeth i wyliau dinas mawr—yn cyfrannu at Abertawe sy'n iachach, yn fwy cysylltiedig ac yn fwy bywiog.

Byddwn yn gwneud hyn drwy...

1. Meithrin Cydlyniant Cymdeithasol

- Creu eiliadau a rennir—mawr a bach—sy'n meithrin ymddiriedaeth a balchder dinesig, gan ddilyn enghreifftiau fel Gŵyl EID Abertawe a Gŵyl Fwyd a Diod Croeso.
- Cynnwys cerddoriaeth, dawns, iaith a straeon lleol i ddathlu hunaniaeth gymunedol a chryfhau cysylltiadau rhwng cymdogaethau.

2. Sicrhau Hygyrchedd a Chynhwysiant

- Datblygu arferion cynhwysol tymor byr megis:
 - Llwyfannau lleol ar gyfer perfformwyr cymunedol
 - Gweithdai rhyngweithiol (crefft, storïa, theatr)
 - Parthau digwyddiadau a arweinir gan y gymuned
- Gweithredu archwiliadau hygyrchedd a gwelliannau (corfforol, synhwyrdd, gwybyddol).
- Cyflwyno systemau tocynnau haenog neu ostyngedig ar gyfer trigolion incwm isel.
- Partneru â darparwyr trafndiaeth gymunedol.

3. Cefnogi Llesiant Meddyliol a Chorfforol

- Cydnabod digwyddiadau fel offer iechyd ataliol sy'n lleihau unigrwydd ac yn annog gweithgarwch.
- Partneru â sefydliadau iechyd a llesiant i ddarparu:
 - Parthau lles (ioga, ymwybyddiaeth ofalgar, archwiliadau iechyd)
 - Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd meddwl
 - Sesiynau gweithgarwch fel rhan graidd o'r rhaglen

4. Datblygu Talent Lleol, Sgiliau a Chyfleoedd Economaidd

- Ehangu llwybrau datblygu talent drwy raglenni ieuenctid fel Gŵyl Abertawe i Gerddorion Ifanc a datblygu sgiliau ieuenctid yn 'The Bunkhouse'.
- Sicrhau bod digwyddiadau'n meithrin hyder, creadigrwydd a llwybrau cyflogaeth i bobl ifanc.

5. Gwella Cyfranogiad a Pherchnogaeth Gymunedol

- Creu llwybrau gwirfoddoli a chyfranogiad cynhwysol gyda hyfforddiant achrededig, cynlluniau cydnabod a Rhaglen Llysgenhadon Digwyddiadau.
- Cynnal fforymau ymgynghori cymunedol a sefydlu paneli cynghori ar hygyrchedd a chynhwysiant.
- Darparu micro-grantiau ar gyfer digwyddiadau a arweinir gan y gymuned.
- Cyflwyno Gweithdai Cynllunio Cyfranogol a gefnogir gan Fforwm Digwyddiadau rhanbarthol i gyd-ddylunio themâu a chynnwys digwyddiadau.

6. Cynrychiolaeth a Modelau Rôl

- Cynnwys straeon cymunedol amrywiol mewn marchnata a rhaglennu.
- Gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i amlygu modelau rôl lleol cadarnhaol.
- Lansio cyfres "Gweld yw Credu" i arddangos talent a hunaniaeth gymunedol.

7. Cydbwyso Effaith Economaidd a Chymunedol

- Cynnwys cymalau budd cymunedol mewn contractau digwyddiadau.
- Neilltuo canran o elw i brosiectau cymunedol.
- Cynnal asesiadau effaith gymdeithasol a llesiant.
- Datblygu Polisi Difidend Cymunedol i ail-fuddsoddi incwm digwyddiadau mewn ieuchyd, y celfyddydau, addysg a mentrau lleol.

SUT OLWG YW LLWYDDIANT...

- Calendr digwyddiadau blynyddol cytbwys sy'n cefnogi gwestai, lletygarwch, busnesau lleol ac adfywio canol y ddinas ym mhob tymor.
- Portffolio cydnabyddedig a nodedig o ddigwyddiadau cyrchfan – gan gynnwys Sioe Awyr well, gwyliau diwylliannol amlwg, digwyddiadau dygnwch mawr a chynnig cydlynol cyn y Nadolig – sy'n denu cynulleidfaoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Economi ymwelwyr gryfach, a ddangosir gan fwy o arosiadau dros nos, gwariant ymwelwyr uwch, tymhorau estynedig a thwristiaeth drwy gydol y flwyddyn.
- Hunaniaeth ddiwylliannol glir i Abertawe, gyda naratif sy'n weladwy drwy ddigwyddiadau ac yn llunio canfyddiadau cadarnhaol o'r ddinas a'r sir e.e. "Dinas ar y Traeth".
- Mannau cyhoeddus bywiog, wedi'u hadfywio ac wedi'u hanimeiddio ar draws canol y ddinas, yr arfordir, glan yr afon, ardal y farchnad ac ardaloedd ehangach, yn cynnal gweithgaredd diwylliannol diogel a chroesawgar yn rheolaidd.
- Cydlyniant cymunedol cryfach a mwy o falchder mewn lle, a adlewyrchir mewn cyfranogiad uwch, ymddiriedaeth, ymdeimlad o berthyn a hyder diwylliannol ymhlith trigolion.
- Mynediad ehangach a thecach at ddigwyddiadau ar gyfer cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws cymdogaethau, maestrefi, ardaloedd diwydiannol blaenorol, pentrefi gwledig a Gŵyr, gan gyfrannu at well llesiant cymdeithasol a meddyliol.
- Ecosystem greadigol ffyniannus gyda mwy o gyfleoedd i artistiaid, perfformwyr, sefydliadau diwylliannol a phobl ifanc leol ddatblygu sgiliau, arddangos talent a symud ymlaen i yrfaoedd creadigol.
- Economi gylchol gryfach, gyda mwy o gaffael lleol, cadwyni cyflenwi lleol, ail-fuddsoddi incwm a gwerth economaidd a chymdeithasol cliriach i gymunedau.
- Cyfrifoldeb amgylcheddol wedi'i wreiddio mewn cynllunio a chyflwyno digwyddiadau, gan sicrhau diogelu Gŵyr, yr arfordir, asedau naturiol a llesiant cymunedau.
- Abertawe'n cael ei chydabod yn genedlaethol fel cyrchfan digwyddiadau hygyrch, cynhwysol, gwydn ac o safon uchel gyda chymeriad diwylliannol nodedig wedi'i wreiddio yn ei straeon, ei hiaith, ei thirwedd a'i hunaniaeth arfordirol.
- Penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda monitro a gwerthuso yn llywio buddsoddiadau, partneriaethau a chynllunio hirdymor.

Blaenoriaeth Dau – Cyrchfan sy'n Gyfeillgar i Bartneriaid... Mae'n hawdd i drefnu digwyddiadau yma!

Mae datblygu prosesau clir a gwneud penderfyniadau effeithiol yn allweddol er mwyn cefnogi sector digwyddiadau mwy integredig a chydlynol, sy'n cael ei gyfathrebu'n dda i bob trefnydd digwyddiadau, rhanddeiliaid y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, yn ogystal â chymunedau a thrigolion, wrth gyflwyno a datblygu digwyddiadau llwyddiannus.

I fod yn gyrchfan sy'n gyfeillgar i bartneriaid, mae'r ysgogydd strategol yn canolbwyntio ar y newidiadau sydd eu hangen i gryfhau llywodraethu, partneriaethau a buddsoddiad, gan greu prosesau sy'n seiliedig ar berthynas a ffyrdd craff o feithrin gallu a manteisio ar gyllid.

Ysgogydd Newid: Cryfhau Llywodraethu, Partneriaethau a Buddsoddiad

Beth mae hyn yn ei olygu...

Mae llywodraethu cadarn, partneriaethau cydgysylltiedig a buddsoddiad strategol yn hanfodol i gyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ar draws Abertawe.

Mae'r strategaeth yn amlygu'r angen am:

- Ymgysylltiad ystyrlon rhwng trefnwyr digwyddiadau, cymunedau, busnesau, sefydliadau addysgol a rhanddeiliaid y trydydd sector.
- Aliniad clir rhwng digwyddiadau a blaenoriaethau polisi ehangach y Cyngor, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys twf economaidd, datblygiad diwylliannol, llesiant cymunedol a chynaliadwyedd amgylcheddol, a all hefyd alluogi sicrhau cyllid a chefnogaeth bellach.
- Strwythurau llywodraethu sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Ddiwylliant ehangach (sydd wrthi'n cael ei datblygu), gan sicrhau bod digwyddiadau'n parhau'n elfen graidd o gynnig diwylliannol cydlynol ar draws y ddinas.

- Cyngor Abertawe yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol, yn gyfrifol am bolisi, rheoleiddio, cyflwyniad y ddinas, rheoli lleoedd a mannau cyhoeddus. Felly, y Cyngor yw'r prif warchodwr a'r prif ysgogwr o'r Strategaeth Ddigwyddiadau, gan ddibynnu ar barodrwydd rhanddeiliaid i gefnogi gweithrediad llwyddiannus.
- Nad yw rôl y Cyngor yn ymwneud â chyflwyno yn unig, ond hefyd â darparu arweinyddiaeth strategol, ffurfio partneriaethau cryfach a mwy amrywiol, ac alinio adrannau mewnol i feithrin gallu a chysylltu buddsoddiad â blaenoriaethau'r strategaeth.

Yn y pen draw, bydd strwythurau llywodraethu a phartneriaeth yn sicrhau bod Abertawe yn datblygu portffolio cytbwys o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac ar draws y ddinas a'r sir – gan fwyafu buddion economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, tra'n lleihau dibyniaeth ar grantiau tymor byr a meithrin partneriaethau amlasiantaeth hirdymor.

Byddwn yn gwneud hyn drwy...

1. Datblygu Llywodraethu Cryf

Sefydlu dau grŵp craidd i greu ffocws cydlynol, meithrin perthnasoedd dibynadwy ac arwain gweithrediad y strategaeth:

a. Bwrdd Partneriaeth Digwyddiadau Abertawe (BPDA)

Gan adrodd i fframwaith llywodraethu'r Strategaeth Ddiwylliant, bydd y BPDA yn:

- Gosod a chynnal cyfeiriad strategol portffolio digwyddiadau Abertawe
- Dod â rhanddeiliaid allweddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ynghyd
- Blaenoriaethu digwyddiadau, penderfyniadau buddsoddi a chyfleoedd cyllido, a goruchwyllo cyflwyno'r Strategaeth Ddigwyddiadau a'r Cynllun Gweithredu
- Llunio polisiau a phrosesau gyda mewnbwn gan rhanddeiliaid
- Sicrhau bod digwyddiadau'n cefnogi dychweliad economaidd a chanlyniadau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cadarnhaol
- Hyrwyddo cyfathrebu cyson ar draws rhanddeiliaid, gan atgyfnerthu gweledigaeth y strategaeth

b. Fforwm Digwyddiadau Abertawe

Bydd y Fforwm yn:

- Sicrhau cyflwyno cydlynol o ddigwyddiadau cyhoeddus, diwydiant a chymunedol yn unol â blaenoriaethau strategol
- Gweithredu fel llwyfan ar gyfer dealltwriaeth, anghenion y diwydiant, rhannu syniadau, arloesedd ac arfer gorau
- Hwyluso cydweithio, cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth
- Darparu safbwynt sector cyfan i lywio gwaith y BPDA

Gyda'i gilydd, bydd y cyrff hyn yn cryfhau aliniad mewn meysydd fel cynaliadwyedd, trafnidiaeth, cyflwyniad y ddinas, cynllunio tymhorol, amrywiaeth digwyddiadau, dosbarthiad lleoliadau, a'r cysylltiadau rhwng digwyddiadau dan do/ac awyr agored a digwyddiadau busnes.

2. Creu Gallu yn y Cyngor i Ysgogi Newid

Dan arweiniad tîm digwyddiadau'r Cyngor, sefydlu Grŵp Cydlynu Digwyddiadau Canolog a fydd yn:

- Cefnogi'r BPDA a'r Fforwm Digwyddiadau
- Gweithredu mecanwaith llywodraethu clir i fwyafu cydlynu traws-adrannol, rhannu arbenigedd a sicrhau cyfeiriad strategol cyffredin
- Cynnal archwiliad llawn o'r adnoddau, y sgiliau a'r swyddogaethau cyflwyno digwyddiadau presennol
- Deall rolau, adeiladu sgiliau, gallu ac adnoddau ar draws adrannau i greu "peiriant digwyddiadau" unedig
- Nodi bylchau o ran hyfforddiant a sgiliau a chreu rhaglen ddatblygu (e.e. curadu, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynaliadwyedd, gwerthuso)
- Mwyafu adnoddau a rennir, lleihau dyblygu a symleiddio prosesau
- Hwyluso gwell cydweithio gyda threfnwyr digwyddiadau drwy ddulliau cyd-gynhyrchu a sianeli cyfathrebu cliriach
- Sicrhau dull cydlynol yn fewnol ac gyda phartneriaid allanol o ran themâu strategol a digwyddiadau (e.e. Dydd Gŵyl Dewi, Cynnig y Nadolig, digwyddiadau diwylliannol cyrchfan, ac adfywio'r ddinas)
- Cryfhau rheoli perfformiad drwy:
 - Creu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) clir sy'n cyd-fynd â chynlluniau gwasanaeth
 - Cyflwyno adolygiadau cyson cyn ac ar ôl digwyddiadau
- Datblygu Polisi neu Siarter Digwyddiadau sy'n amlinellu'r fframwaith strategol a gweithredol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau wrth wneud cais am ddigwyddiadau a gwyliu, gan egluro sut y caiff digwyddiadau eu datblygu, eu cyflwyno a'u gweinyddu, gan alinio â pholisïau'r Cyngor a'r Strategaeth Ddigwyddiadau.

3. Cryfhau Cyllid a Buddsoddiad

- Cydnabod Cyngor Abertawe fel y prif fuddsoddwr mewn digwyddiadau ar draws y ddinas a'r sir, drwy fuddsoddiad cyfalaf mewn mannau cyhoeddus a chymorth refeniw ar gyfer cyflwyno a datblygu digwyddiadau awyr agored, gan ganolbwyntio'n bennaf ar fudd economaidd a phroffil.
- Sicrhau bod penderfyniadau cyllido yn y dyfodol sy'n ymwneud â datblygu a chyflwyno digwyddiadau ar draws y Cyngor (gan gynnwys rheoli canol y ddinas, gwasanaethau diwylliannol a'r tîm digwyddiadau) yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddigwyddiadau ac yn rhoi'r cyfle gorau i fanteisio ar gyllid pellach ac incwm masnachol.
- Lleihau dibyniaeth ar grantiau tymor byr drwy ddatblygu partneriaethau aml-flwyddyn gyda busnesau, prifysgolion ac asiantaethau rhanbarthol.
- Cyflwyno Fframwaith Portffolio a Buddsoddi Digwyddiadau Abertawe i lywio sut y bydd y Cyngor a phob partner yn:
 - Asesu gwerth a blaenoriaethu cyllid
 - Cydbwyso effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol
 - Alinio buddsoddiadau â chyfleoedd rhanbarthol, cenedlaethol a'r DU
 - Cryfhau ceisiadau cystadleuol am gyllid allanol
- Trin pob digwyddiad a gŵyl fel un portffolio cydlynol, gan ganiatáu datblygiad cytbwys ar draws: maint (cyrchfan i gymunedol), amllder (blynyddol/ailadroddus/unwaith), math (diwylliant, chwaraeon, cerddoriaeth, ac ati), dosbarthiad tymhorol a daearyddol, a chyrhaeddiad cynulleidfaoedd.
- Deall math a graddfa digwyddiadau:
 - Pa fwlch mae'n ei lenwi yn y portffolio?
 - Pa mor dda mae'n cyflawni canlyniadau strategol?
 - Pa bartneriaethau, cyllid neu werth ychwanegol y mae'n ei gyflwyno?
 - A all dyfu'n ddigwyddiad ailadroddus neu'n ddigwyddiad cyrchfan?
 - A yw'n defnyddio adnoddau cyfyngedig yn y ffordd orau?

Mae Atodiad B yn darparu Fframwaith awgrymedig manylach gyda meini prawf asesu.

SUT MAE LLWYDDIANT YN EDRYCH...

- Strwythur llywodraethu cryf a thryloyw sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Ddiwylliant, gan alluogi gwneud penderfyniadau strategol a pherchnogaeth ar y cyd.
- Ecosystem digwyddiadau unedig lle mae'r Cyngor, partneriaid, cymunedau a'r diwydiant yn cydweithio'n effeithiol.
- Swyddogaeth digwyddiadau'r Cyngor fedrus ac wedi'i hariannu'n dda, yn gweithredu fel arweinydd strategol a chydlynnydd effeithlon ar draws adrannau.
- Portffolio cytbwys o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn sy'n adlewyrchu hunaniaeth Abertawe ac yn mwyafu gwerth economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Blaenoriaethau buddsoddi clir a llai o ddyblygu ar draws adrannau a sefydliadau partner.
- Partneriaethau aml-flwyddyn gyda busnesau, prifysgolion, cyrff rhanbarthol a sefydliadau cyllido cenedlaethol.
- Hyder gwell gan noddwyr a chyllidwyr, wedi'i gryfhau gan benderfyniadau buddsoddi tryloyw sy'n gysylltiedig â chanlyniadau strategol.
- Sector digwyddiadau ffyniannus gyda gallu gwell, partneriaethau cryfach, a digwyddiadau ar y cyd ar draws y ddinas a'r sir.
- Gwell ymgysylltu â chymunedau, gyda digwyddiadau sy'n adlewyrchu anghenion lleol, yn cynyddu cyfranogiad ac yn ehangu mynediad.
- Gwelliant parhaus drwy werthuso cyson, dysgu ar y cyd ac adborth ar draws y sector.

Blaenoriaeth Tri – Cynaliadwyedd nawr... etifeddiaeth ar gyfer yfory

Mae sector digwyddiadau a gwyliau Abertawe ar drobwynt. Wedi'i siapio gan ddisgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd, costau cynyddol, trawsnewid digidol a chyfrifoldebau amgylcheddol cynyddol, mae gan y ddinas gyfle unigryw i osod safon newydd ar gyfer digwyddiadau cynaliadwy, arloesol a chynhwysol.

Mae'r flaenoriaeth hon yn dod â dau ysgogydd newid rhyng-gysylltiedig ynghyd:

- Digwyddiadau Cynaliadwy a Chyfrifol – ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ym mhob cam o gynllunio, cyflwyno ac etifeddiaeth digwyddiadau.

- Meithrin Arloesedd a Datblygu Sgiliau – adeiladu sgiliau, hyder, creadigrwydd a gallu trefnwyr, partneriaid a chymunedau i gyflwyno digwyddiadau sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Gyda'i gilydd, bydd yr ysgogwyr hyn yn gosod Abertawe fel prif gyrchfan digwyddiadau gwyrdd, sy'n meithrin talent leol, yn diogelu ei hasedau naturiol, ac yn darparu buddion hirdymor i gymunedau ac ymwelwyr fel ei gilydd.

1 . Ysgogydd Newid: Digwyddiadau Cynaliadwy a Chyfrifol

Beth mae hyn yn ei olygu...

Bydd Abertawe yn arwain y ffordd yng Nghymru a'r DU wrth gyflwyno digwyddiadau sy'n ymwybodol o'r amgylchedd, yn gymdeithasol gyfrifol ac yn economaidd gytbwys, gan osod Abertawe fel gyrchfan digwyddiadau sy'n gyfrifol yn amgylcheddol, a helpu i ddenu ymwelwyr rhyngwladol sy'n blaenoriaethu cynaliadwyedd.

Mae'r flaenoriaeth strategol hon yn cydnabod yr angen i:

- Cael ei arwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ymgorffori cynaliadwyedd ym mhob cam o gynllunio, cyflwyno ac etifeddiaeth digwyddiadau.
- Blaenoriaethu atal gwastraff, lleihau carbon, defnydd cynaliadwy o adnoddau, diogelu bioamrywiaeth, a llesiant cymunedol ar draws y ddinas, cymunedau'r cymoedd a'r ardaloedd gwledig gan gynnwys AHNE Gŵyr.
- Meincodi ei arferion yn erbyn safonau digwyddiadau gwyrdd Ewrop, gan gyd-fynd â pholisïau cenedlaethol megis y Cod Ymarfer Digwyddiadau Gwyrdd (GECOP), Net Zero Cymru a Tu Hwnt i Ailgylchu.
- Ystyried digwyddiadau nid yn unig fel adloniant neu ysgogwyr economaidd, ond fel dulliau o stiwardiaeth amgylcheddol, addysg, newid ymddygiad cadarnhaol a thwristiaeth gyfrifol.
- Sicrhau hyfywedd hirdymor drwy gryfhau partneriaethau, hyrwyddo cadwyni cyflenwi "lleol yn gyntaf", buddsoddi mewn seilwaith digwyddiadau cynaliadwy a rennir, lliniaru risgiau amgylcheddol mewn ardaloedd sensitif, a hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy.
- Gwireddu'r uchelgais i greu ecosystem digwyddiadau gwyrdd cyson o ansawdd uchel sy'n cefnogi targedau Cymru ar gyfer dim gwastraff ac allyriadau carbon sero net erbyn 2050.

- Annog newid diwylliannol fel bod trefnwyr, cyflenwyr a mynychwyr yn meddwl yn fwy gwyrdd ym mhob agwedd ar ddylunio digwyddiadau.
- Cael mynediad at gyllid o raglenni cenedlaethol a rhanbarthol, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a mentrau “Balchder mewn Lle”, a fydd yn hanfodol i uwchraddio seilwaith a chefnogi'r trawsnewid hwn.

Byddwn yn gwneud hyn drwy...

1. Creu Siarter Digwyddiadau Gwyrdd Abertawe ar gyfer Rheoli Digwyddiadau

- Sefydlu fframwaith clir a chadarn “parod i’w ddefnyddio” ar gyfer safonau digwyddiadau cynaliadwy sy’n cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol a’r Cod Ymarfer Digwyddiadau Gwyrdd (GECOP).
- Ei gwneud yn ofynnol i bob trefnydd digwyddiadau newydd a phresennol ymrwmo i egwyddorion cynaliadwyedd craidd sy’n cwmpasu gwastraff, ynni, bioamrywiaeth a deunyddiau, yn unol â gofynion y Gymraeg.
- Cyflwyno proses asesu gyson a safonau lleiaf ar gyfer cyfrifoldeb amgylcheddol ar draws y sector.
- Hyrwyddo diwylliant “meddwl yn wyrdd”, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau megis **Gŵyl Oleuadau Eco Gilbert White*** i lywio dyluniadau digwyddiadau newydd (e.e. llwybrau goleuo effaith isel ym Mharc Singleton).

2. Cryfhau Partneriaethau a Buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd a Rennir

- Datblygu modelau cydweithredol gyda chynhyrchwyr lleol, cyflenwyr, crefftwyr, contractwyr Cymreig a darparwyr arlwygo sy’n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.
- Blaenoriaethu caffael “lleol yn gyntaf” ar draws bwyd, seilwaith, addurn a logisteg, gan hyrwyddo cynhwysion tymhorol, organig lleol sy’n cefnogi ffermio cynaliadwy ac yn lleihau milltiroedd bwyd.
- Datblygu seilwaith a rennir neu aildddefnyddiadwy—llwyfannau ynni-effeithlon, arwyddion ailgylchadwy, strwythurau modiwlaid—i leihau gwastraff a chostau.
- Cefnogi ceisiadau buddsoddi (Cyngor Celfyddydau Cymru, Balchder mewn Lle, Cronfa Diogelu Rhag Tywydd – Blwyddyn Croeso) i uwchraddio seilwaith digwyddiadau gwyrdd.
- Gwella asesiadau cynaliadwyedd ac arferion cyflenwyr ar gyfer digwyddiadau mawr megis Sioe Awyr Cymru, gan gynnwys archwiliad amgylcheddol llawn.

3. Diogelu Amgylcheddau Gwledig, Arfordirol a Naturiol Abertawe

- Rheoli digwyddiadau yn well yn AHNE Gŵyr ac ardaloedd gwledig sensitif drwy gydlyn cryfach, cydweithio gwell, amserlennu mwy
- Gwella llwybrau a seilwaith gwledig i gefnogi digwyddiadau dygnwch a llesiant effaith isel.
- Blaenoriaethu digwyddiadau llai a arweinir gan y gymuned sy'n cydbwyso diwylliant a natur.
- Sicrhau bod pob cynnig digwyddiadau newydd yn ymgorffori gwydnwch hinsawdd, diogelu bioamrywiaeth, a seilwaith gwyrdd aml-swyddogaethol (e.e. toeon gwyrdd, waliau byw, gosodiadau lliniaru llifogydd).
- Mabwysiadu modelau olrhain carbon arfer gorau tebyg i **Great Wild Walks WWF**** i fesur a chyfleu perfformiad cynaliadwyedd.

4. Darparu Canllawiau a Chymhellion i Leihau Ôl-troed Carbon Digwyddiadau

- Annog a galluogi trefnwyr i fabwysiadu egwyddorion economi gylchol, ffynonellau ynni adnewyddadwy, generaduron carbon isel, tocynnau digidol a systemau lleihau gwastraff.
- Galluogi ac annog arloesedd megis gosodiadau wedi'u pwero gan yr haul neu feiciau, compostio bwyd ar y safle, tryloywder defnydd carbon a chodi costau ar gontractwyr am ddefnydd ynni gwirioneddol i leihau defnydd.
- Hyrwyddo compostio ar y safle, ailgylchu ac atal gwastraff drwy ganllawiau clir a thempledi digwyddiadau.
- Cefnogi digwyddiadau sy'n hyrwyddo addysg a newid ymddygiad drwy weithgareddau, gweithdai ac ymgysylltu cymunedol sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd – gan gymryd ysbrydoliaeth o'r **Green Gathering yn Nhrefynwy (Cas-gwent)*****.

5. Gwella Opsiynau Teithio Cynaliadwy i Ddigwyddiadau ac oddi wrthynt

- Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i integreiddio digwyddiadau i gynllunio trafnidiaeth yn y dyfodol.
- Hyrwyddo cerdded, beicio, cerbydau trydan, rhentu beiciau, rhannu ceir a chymhellion teithio ar y cyd.
- Cyflwyno neu ehangu bysiau gwennol trydan/hybrid, systemau parcio a theithio, a gwasanaethau cysylltu rheilffyrdd—yn enwedig ar gyfer digwyddiadau ym Mharc Singleton a Gŵyr.
- Partneru â gweithredwyr (e.e. National Express, Big Green Coach) i gynnig pecynnau trafnidiaeth gŵyl penodol.
- Cyflwyno elfennau digwyddiadau hybrid neu rithwir i leihau allyriadau teithio a gwella hygyrchedd.
- Defnyddio enghreifftiau o **Boomtown, Green Man a Latitude****** i lywio strategaeth teithio cynaliadwy ar draws Abertawe.

2. Ysgogydd Newid: Meithrin Arloesedd a Datblygu Sgiliau

Beth mae hyn yn ei olygu...

Mae sector digwyddiadau a gwyliau Abertawe yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, wedi'i siapia gan ddisgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd, costau cynyddol, a gofynion mwy cymhleth o ran rheoleiddio, digidol a chynaliadwyedd. Er mwyn i'r sector dyfu, mae'n rhaid i drefnwyr digwyddiadau—yn enwedig grwpiau bach a chymunedol—fod yn fwy medrus, mwy hyderus ac yn cael mwy o gefnogaeth i arloesi wrth ddylunio, cyflwyno a gwerthuso digwyddiadau.

Mae'r flaenoriaeth strategol hon yn cydnabod yr angen i:

- Cryfhau gallu a gwydnwch trefnwyr digwyddiadau lleol drwy ddysgu ar y cyd, datblygu sgiliau a chymorth strwythuredig.
- Adeiladu llif hir dymor o dalent greadigol a thechnegol o ddarparwyr addysg lleol a chanolfannau hyfforddi.
- Galluogi datblygiad gwyliau “tyfu'n lleol” sy'n adlewyrchu diwylliant, hunaniaeth a chymunedau creadigol Abertawe.
- Galluogi'r sector i ymateb i dechnolegau newydd, fformatau hybrid, disgwyliadau amgylcheddol, a newidiadau rheoleiddiol yn y dyfodol.
- Annog diwylliant o gyd-greu gyda chymunedau, gan sicrhau bod digwyddiadau'n adlewyrchu lleisiau lleol a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Gwella mynediad at sgiliau digidol, arferion cynaliadwy, a dulliau arloesol sy'n caniatáu i ddigwyddiadau Abertawe sefyll allan yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae cyflawni'r flaenoriaeth hon yn gofyn i'r Cyngor gymryd rôl arweiniol wrth ddod â phartneriaid ynghyd, cryfhau llywodraethu a chydlyn, adolygu gallu mewnol, a galluogi dull mwy cydgysylltiedig ar draws trefnwyr, sefydliadau addysgol a rhwydweithiau diwydiant.

Byddwn yn gwneud hyn drwy...

1. Sefydlu Fforymau, Rhwydweithiau a Mannau Cyd-greu Cryf

- Creu Fforwm Digwyddiadau deinamig (gweler Blaenoriaeth 2 – Llywodraethu) sy'n cysylltu trefnwyr, busnesau, partneriaid addysgol a chanolfannau arloesedd i rannu gwybodaeth, adeiladu cydweithrediadau, a nodi heriau cyffredin.
- Hwyluso gweithdai cyd-greu gan ddefnyddio technegau meddwl dylunio i ddod â threfnwyr, trigolion, grwpiau cymunedol a'r Cyngor ynghyd i lunio fformatau digwyddiadau newydd a syniadau cynhwysol.
- Datblygu canolfan ddigidol digwyddiadau fel storfa o astudiaethau achos, pecynnau cymorth, templedi, cyfeirlyfrau cyswllt ac adnoddau dysgu a rennir.
- Defnyddio fforymau i gynnal siaradwyr gwadd a dosbarthiadau meistr ar reoleiddio, cynaliadwyedd, arloesedd digidol, deddfwriaeth newydd a phwysau costau.

2. Datblygu Llwybrau Hyfforddi a Sgiliau – Logisteg, Digidol a Chynnwys Creadigol

- Sefydlu rhaglen fodiwlaid "uwchsgilio", yn cynnig hyfforddiant mewn logisteg digwyddiadau, gweithrediadau, diogelwch, gwerthuso, rhaglennu creadigol, codi arian, cyflwyno hybrid a marchnata.
- Gweithio gyda sefydliadau megis Coleg Gŵyr Abertawe, Prifysgol Abertawe, UWTSD a chyrrff cenedlaethol i adeiladu llwybrau dysgu achrededig ac a gydnabyddir ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus (CPD).
- Cyfuno gweminarau ar-lein, gweithdai wyneb yn wyneb a mentora gan gymheiriaid i sicrhau hygyrchedd i grwpiau cymunedol ac a arweinir gan wirfoddolwyr.
- Cynnal gwerthusiad perfformiad digidol ar draws digwyddiadau i nodi bylchau mewn ymgysylltiad cynulleidfaoedd digidol, marchnata, creu cynnwys a chyflwyno hybrid.
- Datblygu rhaglen sy'n cefnogi arbrofi arloesol gyda fformatau hybrid, syniadau cynnwys newydd, digwyddiadau dros dro a modelau economi gylchol, gyda mentora ac adolygiadau dysgu ar ôl prosiect.
- Mapio ac integreiddio cefnogaeth ranbarthol i'r diwydiannau digidol a chreadigol – e.e. Matrics Arloesedd Brifysgol y Drindod Dewi Sant, clwstwr technoleg lleol, canolfannau arloesedd a rhaglenni hyfforddi digidol.
- Adeiladu Arloesedd a Gwydnwch

3. Adeiladu Arloesedd a Gwydnwch

- Cefnogi dull gwasanaeth a rennir ar draws trefnwyr cymunedol, gan gynnwys gwirfoddolwyr a rennir, offer, cyflenwyr, llwyfannau marchnata a dulliau caffael arbed costau, gan ymgorffori egwyddorion economi gylchol (e.e. gyda rhaglenni megis CEIC).

4. Tyfu a Chadw Talent Lleol a Gallu Gwirfoddolwyr

- Gweithio gyda darparwyr addysg lleol i fapio bylchau a datblygu llwybrau gyrfa mewn cynhyrchu digwyddiadau, cynnwys digidol, gweithrediadau a rolau creadigol.
- Annog ehangu interniaethau, prentisiaethau, lleoliadau a phrosiectau digwyddiadau byw gyda gwyliau lleol a sefydliadau digwyddiadau.
- Datblygu strategaeth gwirfoddoli sy'n ymdrin â chymhelliant, llesiant, rolau hyblyg a llwybrau adeiladu sgiliau clir i gryfhau cadw a chysylltiad cymunedol.
- Cysylltu gweithwyr proffesiynol ifanc ym maes digwyddiadau â rhwydweithiau creadigol ehangach a chymunedau cymorth cymheiriaid i gryfhau a chadw talent yn y rhanbarth.

5. Monitro, Gwerthuso a Gwelliant Parhaus

- Diffinio metrigau perfformiad craidd: cadw gwirfoddolwyr, cost fesul cyfranogwr, dangosyddion cynaliadwyedd, cyrhaeddiad digidol, amrywiaeth cynulleidfaoedd a mabwysiadu arloesedd.
- Gweithredu adolygiadau ar ôl digwyddiadau ar gyfer trefnwyr, gan lywio'r Fforwm Digwyddiadau a chronfa ddata feincnodi rhanbarthol a rennir.
- Anelu at gyflwyno o leiaf un arloesedd neu welliant newydd bob blwyddyn ar draws portffolio digwyddiadau'r ddinas.

SUT MAE LLWYDDIANT YN EDRYCH...

- Safon Digwyddiadau Gwyrdd Abertawe gydnabyddedig, gyda phob trefnydd digwyddiadau mawr wedi ymrwymo ac yn lleihau eu heffaith amgylcheddol yn fesuradwy.
- Cynnydd mesuradwy tuag at Sero Net ar draws ecosystem digwyddiadau Abertawe, gan gynnwys gostyngiadau mewn defnydd ynni, gwastraff a ôl-troed carbon.

- Economi werdd leol ffyniannus, gyda mwy o ddefnydd o gyflenwyr Cymreig, cynhyrchwyr bwyd lleol a chontractwyr sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.
- Seilwaith cynaliadwy a rennir sy'n lleihau dyblygu, yn gostwng costau ac yn cryfhau perfformiad amgylcheddol.
- Gwell diogelwch i dirweddau sensitif megis Gŵyr, gyda llai o wrthdaro, cynllunio gwell a llai o niwed, tagfeydd ac aflonyddwch.
- Ehangu cyfleoedd digwyddiadau effaith isel, gan gynnwys rhaglenni dygnwch, llesiant a diwylliannol sy'n seiliedig ar natur, sy'n cefnogi twristiaeth drwy gydol y flwyddyn heb niweidio'r amgylchedd.
- Sector digwyddiadau medrus, hyderus ac arloesol sy'n gallu darparu digwyddiadau cynhwysol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel drwy gydol y flwyddyn.
- Trefnwyr cymunedol ac a arweinir gan wirfoddolwyr yn dangos mwy o wydnwch, cydymffurfiaeth well, cynllunio gwell a gallu digidol cryfach.
- Partneriaethau cryf a chyson rhwng trefnwyr digwyddiadau, sefydliadau addysgol, diwydiannau creadigol a rhwydweithiau busnes.
- Llif talent greadigol a thechnegol lleol sy'n cael ei gadw yn Abertawe drwy hyfforddiant gwell, interniaethau a llwybrau gyrfa.
- Digwyddiadau a gwyliau nodedig "tyfu'n lleol" sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol Abertawe ac yn denu cynulleidfaoedd allanol.
- Mwy o ymgysylltiad digidol a modelau hybrid, gan wella cyrhaeddiad, storïa a rhyngweithio â chynulleidfaoedd drwy gydol y flwyddyn.
- Dysgu a rennir, pecynnau cymorth a chanolfannau sy'n lleihau dyblygu, yn torri costau ac yn ysgogi arloesedd cydweithredol.
- Gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn mewn cynaliadwyedd digwyddiadau, gan gynnwys lleihau carbon, dargyfeirio gwastraff a chryfhau cadwyni cyflenwi lleol.
- Gwelliant gweladwy mewn recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, gan gyfrannu at gydlyniant cymunedol a diwylliant dinesig cryfach.
- Hyder uchel gan y cyhoedd bod digwyddiadau Abertawe yn gyfrifol yn amgylcheddol, yn canolbwyntio ar gymunedau ac yn cydfynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cydnabyddiaeth o Abertawe fel dinas sy'n meithrin creadigrwydd, yn buddsoddi yn ei threfnwyr digwyddiadau ac yn arwain ar arferion digwyddiadau arloesol a chynaliadwy yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Digwyddiadau Cysyniadol ac Enghreifftiau

Awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau a gwyliau y gellid eu datblygu dros y 10 mlynedd nesaf

Mae'r tabl isod yn disgrifio syniadau ar gyfer rhai digwyddiadau a gwyliau cysyniadol y gellid eu datblygu dros gyfnod deg mlynedd y Strategaeth, ac a allai gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y Blaenoriaethau uchod. Mae pob un yn canolbwyntio ar gyflwyno lleoliad, tirwedd, pobl a diwylliant Abertawe, gan adeiladu ar broffiliau cynulleidfaoedd a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a llenwi'r calendr digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r rhain i gyd yn deitlau gwaith yn unig—nid enwau arfaethedig ar gyfer digwyddiadau neu wyliau—ac mae angen eu datblygu ymhellach.

Ar gyfer pob digwyddiad, mae dosbarthiad ar gyfer y math o ddigwyddiad a awgrymir—gyda rhai o'r rhai llai â'r potensial i dyfu i lefel digwyddiadau cyrchfan.

Digwyddiad a Math a awgrymir	Disgrifiad	Amserlen/Tymor
Gŵyl Tir a Môr Cyrchfan	Gan adeiladu ar y cynnig presennol o Fwyd a Diod a gwyliau llai, byddai Gŵyl Tir a Môr yn dod â'r cefn gwlad a'r ddinas ynghyd—gan seilio ar hunaniaeth arfordirol unigryw Abertawe, gan ddathlu cymysgedd cyfoethog y rhanbarth o gynnyrch a dyfir ar y tir, bwyd môr ffres a thalent goginio leol. Byddai'r ŵyl yn dod â'i gilydd arddangosiadau gan gogyddion enwog, marchnad grefft fawr, profiadau bwyta thematig, gweithdai coginio ymarferol, ac anturiaethau bwyd sy'n addas i deuluoedd. Gan arddangos popeth o gig oen Gŵyr a chawsiau Cymreig i fwyd môr Bae Abertawe, bwyd stryd, diodydd crefft ac arloesedd bwyd cynaliadwy, byddai'r digwyddiad yn cefnogi cynhyrchwyr lleol a busnesau lletygarwch, gan osod Abertawe fel cyrchfan bwyd flaenllaw yng Nghymru. Yn gysylltiedig â'r cynnig bwyd, byddai cynnig diwylliannol ac adloniadol ar lwyfannau'r ŵyl yn dathlu talent, artistiaid ac enwogion lleol. Gallai ddatblygu i fod yn ddathliad blynyddol llofnod o'r blasau, y straeon a'r cynhyrchwyr sy'n diffinio tir a môr Abertawe.	Diwedd y Gwanwyn / Dechrau'r Haf

Gŵyl Gwneud Abertawe Ein Hunain Cyrchfan	Dathliad o greadigrwydd, crefft, arloesedd a chymuned, gan ailddychmygu model llwyddiannus Blackburn drwy hunaniaeth arfordirol, ddiwylliannol a blaengar Abertawe ei hun. Gan ddod â gwneuthurwyr crefftus, creadwyr digidol, arloeswyr gwyrdd a morwrol, cynhyrchwyr bwyd ac artistiaid lleol ynghyd, byddai'r ŵyl yn trawsnewid Abertawe yn ofod bywiog lle gall trigolion ac ymwelwyr wneud, adeiladu, arbrofi a dysgu. Wedi'i lledaenu ar draws lleoliadau allweddol yng nghanol y ddinas a'i chefnogi gan bartneriaethau cryf gyda phrifysgolion lleol, gwneuthurwyr a'r diwydiannau creadigol, byddai'r ŵyl yn cynyddu nifer yr ymwelwyr, yn cefnogi BBaChau, ac yn cryfhau enw da Abertawe fel dinas ddeinamig, ddychmygus ac arloesol.	Tymhorau pontio neu ddechrau'r haf
Gŵyl Awyr a Thywod Cyrchfan	Arena awyr gyda Gŵyl Barcutiaid fel prif ddigwyddiad. Byddai'n cynnwys creaduriaid chwyddadwy enfawr, barcutiaid chwaraeon cydamserol, parth “dewch â'ch barcud eich hun” ac ardaloedd gweithdai. Parth goleuo balŵn a'r gorwel—gan gynnwys strwythurau chwyddadwy goleuedig enfawr. Parc “cynfas tywod” gyda murluniau tywod mawr. Gardd wynt – parc cerfluniau gyda strwythurau chwyddadwy y gellir cerdded drwyddynt a gwaith celf cinetig wedi'i bweru gan y gwynt (troellwyr, hwyliau ac ati). Arena draeth weithgar – Zumba traeth, ioga a gemau tîm mawr. Parth gyda'r nos gyda bale barcutiaid goleuedig a gosodiadau golau sy'n nodi llinell y llanw.	Diwedd y gwanwyn / dechrau'r haf
Gŵyl Cydgyfeiriant Diwylliannol Cymunedol Cyrchfan	Dathlu ac arddangos hunaniaeth ddiwylliannol gyfoethog Abertawe—o'i threftadaeth Gymraeg a'i hanes fel dinas arfordirol i'w hamrywiaeth gyfoes a'i dawn greadigol. Byddai'r ŵyl yn dod â threftadaeth a modernrwydd ynghyd, straeon lleol a safbwyntiau byd-eang, a chymysgedd o berfformio, cyfranogi a chyfnewid artistig. Drwy dyfu a chyfuno gwyliau presennol, digwyddiadau cymunedol a chomisiynau newydd, byddai'n datblygu'n rhaglen 7–10 diwrnod ar draws lleoliadau dan do ac awyr agored. Byddai'r prif elfennau yn cynnwys celfyddydau perfformio, celf weledol a gosodiadau, llenyddiaeth a storïa, cyfranogiad cymunedol, a chydweithredu diwylliannol rhyngwladol. Wedi'i dylunio i ddatblygu dros 5–10 mlynedd, gallai'r ŵyl gael ei chyflwyno drwy fodel cyllido cymysg a dod yn ddathliad blynyddol mawr o fywyd diwylliannol Abertawe.	Hydref

Gwerin Glasurol Ein Hunain Cyrchfan	Cyngherddau, gyda'r potensial i ddatblygu'n wyliau, mewn safleoedd hanesyddol (Cestyll, Bae Abertawe), gan gyfuno cerddorfa neu ensemble clasurol â cherddoriaeth werin/draddodiadol/Gymreig a dylanwadau Celtaidd. O bosibl elfennau rhythm cerddoriaeth y byd. Pecynnau lletygarwch a VIP cymysg.	Diwedd yr haf / Dechrau'r hydref
Nosweithiau Rhythm a Threftadaeth Ein Hunain Cyrchfan	Digwyddiadau gyda'r nos mewn safleoedd treftadaeth hanesyddol (e.e. Castell Abertawe, y Dociau, SA2), gan gyfuno cerddoriaeth fyw a gosodiadau golau wedi'u themio o amgylch treftadaeth a'r dyfodol. Gallai elfennau eraill gynnwys cyngherddau awyr agored sy'n cyfuno jazz, pop, clasurol a chanu côr, yn ogystal â theithiau treftadaeth gyda'r nos. Tocynnau haenog a phecynnau VIP.	Tymhorau pontio a'r tymor brig
Gŵyl Gerddi a Blodau Ein Hunain	Gŵyl sy'n dathlu planhigion, gerddi, garddwriaeth a mannau gwyrdd. Byddai'r digwyddiad yn canolbwyntio ar arddangosfa garddwriaethol fawr ym Mharc Singleton, wedi'i ategu gan weithgareddau lloeren yng Ngerddi Clun ac mewn parciau llai a mannau agored ar draws Abertawe. Byddai hyn yn cynnig cymysgedd o brofiadau gardd ffurfiol, hamddenol a naturiol, tra'n ehangu cyrhaeddiad yr ŵyl i gymdogaethau lleol. Gallai gerddi cymunedol, parciau cyhoeddus a grwpiau lleol gynnal digwyddiadau llai, stondinau garddio dros dro gyda'r nos a gweithdai gwyrddu ymarferol, gan greu dathliad cynhwysol ar draws y ddinas a'r sir o natur a garddwriaeth.	Gwanwyn
Goleuni Nadolig Abertawe Cyrchfan	Profiad goleuo tymhorol trochi sy'n dathlu treftadaeth y ddinas—ei harfordir, ei dociau a'i hunaniaeth arfordirol—tra'n denu trigolion ac ymwelwyr egwyl fer i galon y ddinas. Gan lansio gyda'r Parêd Nadolig sydd wedi ennill gwobrau, byddai'r digwyddiad yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yn y gaeaf, yn cefnogi busnesau lleol ac yn gosod Abertawe fel prif gyrchfan wyliau De Cymru. Gallai'r rhaglen gynnwys: Goleuo a Llwybrau Golau: gosodiadau golau artistig ar draws y ddinas a'r arfordir, gan gynnwys llwybrau goleuedig, twneli golau a gwaith celf rhyngweithiol.	Tachwedd / Rhagfyr

	Animeiddio'r Arfordir a'r Ddinas dros y Nadolig: cyfuniad o gymeriad arfordirol ac awyrgylch Nadoligaidd traddodiadol, gyda marchnadoedd, bwyd a diod, gweithgareddau'r gaeaf, crefftau lleol a chynnyrch tymhorol. Byddai Goleuni Nadolig Abertawe yn cynnig cymysgedd o brofiadau am ddim a thaladwy, megis llwybrau goleuo cyhoeddus, gosodiadau ar lefel y stryd, atyniadau pwysig fel llawr sglefrio iâ neu olwyn fawr, teithiau cerfluniau golau premiwm a marchnadoedd thematig—i gyd yn cael eu hyrwyddo fel rhan o gynnig Nadolig unedig ar draws y ddinas.	
Wythnos y Celfyddydau Cymunedol Cymunedol	Arddangos talent cymdogaethol/lleol drwy ddigwyddiadau mic agored, perfformiadau a gosodiadau, tra'n cynnig gweithdai ymarferol rhyng-genhedlaeth mewn crefft, storïa a theatr, gan greu cyfleoedd i grwpiau diwylliannol lleol arddangos eu gwaith ac ymgysylltu â'r gymuned.	Gwanwyn / Hydref
Gŵyl Diaspora Abertawe Cymunedol Ein hunain	Gŵyl amlddiwylliannol sy'n hyrwyddo cydlyniant, bywiogrwydd diwylliannol a'r iaith Gymraeg, wedi'i hysbrydoli gan ddigwyddiadau Homecoming yr Alban. Byddai'n dathlu cymunedau amrywiol Abertawe tra'n annog "Jacs Abertawe" sydd â gwreiddiau lleol i ddychwelyd a rhannu yn eu treftadaeth.	Gwanwyn / Hydref
Gŵyl Symudiad a Meddwl Ein hunain Cyrchfan	Yn cyfuno'r celfyddydau, creadigrwydd, symudiad a chymorth iechyd meddwl, wedi'i dylunio i roi hwb i economi Abertawe a'r sector ymwelwyr, tra'n hyrwyddo llesiant drwy wneud defnydd o dirweddau a mannau agored yr ardal. Gellid ei brandio fel "Cam i'r Gwanwyn Abertawe – Llesiant".	Gwanwyn / Hydref
Ton-sain Abertawe Ein hunain	Digwyddiad tri diwrnod ar gyfer 5,000–10,000 o bobl ar draws sawl lleoliad dan do ac awyr agored, yn cynnwys dros 30 o actau gyda ffocws ar dalent ifanc leol, ac yn cynnig gweithdai ar gynhyrchu, llwyfannu a marchnata. Wedi'i hyrwyddo drwy bartneriaid twristiaeth, byddai'n annog arosiadau dros nos, ymgysylltiad ymhlith pobl ifanc, datblygu sgiliau a gwelededd diwylliannol.	Diwedd y gwanwyn / dechrau'r haf

Enghreifftiau

Digwyddiadau Cynaliadwy a Chyfrifol	
<i>Gŵyl Oleuadau Eco Gilbert White*</i>	Rhaid i ymwybyddiaeth amgylcheddol arwain creu a rheoli pob digwyddiad. Mae Gŵyl Oleuadau Eco Gilbert White yn Winchester yn dangos sut i leihau effaith ecolegol drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy, goleuadau UV wedi'u pweru gan yr haul, a deunyddiau aildddefnyddiadwy neu naturiol yn bennaf. Mae hefyd yn lleihau llygredd golau drwy gyfyngu ar oleuo i fyny a chyfyngu oriau gweithredu i amddiffyn bywyd gwyllt. Dylai egwyddorion tebyg lywio arddangosfeydd goleuo tymhorol yn y dyfodol—megis gosodiadau Nadolig—gyda lleoliadau fel Parc Singleton yn cynnig potensial ar gyfer llwybr goleuo mawr sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.
<i>Teithiau Gwyllt Mawr y WWF**</i>	Mae Teithiau Gwyllt Mawr WWF yn dangos sut i redeg digwyddiadau mewn modd cynaliadwy a chyfrifol. Gyda'r nod o gynnig profiadau natur trochi gyda llai o effaith amgylcheddol, mae WWF yn defnyddio system fanwl o olrhain carbon sy'n monitro pob cam—o gynllunio a chaffael lleol i logisteg, deunyddiau ecogyfeillgar, rheoli gwastraff, teithio staff a chludiant cyflenwyr. Drwy fesur a rhannu'r data hwn gyda chyfranogwyr, mae WWF yn sicrhau gwelliant parhaus, gan wneud pob digwyddiad yn fwy cynaliadwy.
<i>Green Gathering yng Nghas-gwent***</i>	Mae'r 'Green Gathering' yng Nghas-gwent yn dangos sut y gall digwyddiadau leihau eu heffaith amgylcheddol yn sylweddol, gan gyflawni gostyngiad o 81% yn yr ôl-troed carbon dros bum mlynedd. Yn ogystal â cherddoriaeth, mae'r ŵyl yn canolbwyntio ar addysgu ac ysbrydoli ymwelwyr tuag at fyw'n gynaliadwy. Mae'n dibynnu ar ynni adnewyddadwy, yn cyrchu bwyd organig lleol yn bennaf, yn compostio holl wastraff bwyd, ac yn hyrwyddo egwyddorion economi gylchol drwy weithdai ar gasglu bwyd gwyllt, lleihau gwastraff, atgyweirio ac uwchgylchu. Adlewyrchir ei hymrwymiad i adfer adnoddau mewn cyfradd ailgylchu o 73% ar draws 13 categori gwastraff.
<i>Boomtown, Green Man a Latitude****</i>	Mae gwyliau yn profi bod cefnogaeth gref i deithio cynaliadwy yn gallu lleihau effeithiau trafnidiaeth yn sylweddol. Yn Boomtown Fair yn Hampshire, mae dros 35% o'r mynychwyr yn teithio ar goets neu drên drwy gynllun teithio cynaliadwy'r ŵyl, gyda gwasanaethau bws gwennol pwrpasol a thocynnau trafnidiaeth gyhoeddus am bris gostyngedig neu well. Yn yr un modd, mae Gŵyl Green Man yn y Bannau Brycheiniog yn cynnig llwybrau coets gan National Express a gwasanaethau gwennol am ddim o orsafoedd rheilffordd, tra bod Latitude yn Suffolk yn partneru â Big Green Coach i ddarparu opsiynau teithio effaith isel ar draws y wlad.

Gwella Proffil Diwylliannol, Hunaniaeth a Chreu Lle Abertawe	
SP'26 (Southport 26)	Rhaglen flwyddyn gyfan o ddigwyddiadau celf, cerddoriaeth a pherfformio i nodi Blwyddyn Ddiwylliant Southport. Wedi'i chefnogi gan Gyngor Sefton a Culture Liverpool, mae'r rhaglen yn cynnwys casgliad o ddigwyddiadau newydd a gomisiynwyd, megis digwyddiad Light Port trochi ym mis Chwefror, hyd at theatr stryd ryngwladol a Gŵyl Big Top gyda syrcaes fodern o safon fyd-eang. Ochr yn ochr â hyn bydd rhaglen Southport Originals o ddigwyddiadau sefydledig megis y Sioe Flodau, Gŵyl Fwyd a Diod, Sioe Awyr a Phencampwriaethau Tân Gwyllt Cerddorol. Cynhelir gŵyl lenyddiaeth hefyd ym mis Hydref. Mae'r ŵyl flynyddol wedi'i brandio fel "Southport – Elegantly Eccentric" ac mae wedi'i gwreiddio mewn rhaglen adfywio gwerth £38 miliwn sy'n canolbwyntio ar Llyn Marine.

Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae'r Strategaeth Ddigwyddiadau hon yn glir ynghylch pwysigrwydd darparu tystiolaeth o effeithiau a buddion digwyddiadau fel cyfrannwr allweddol at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol cyffredinol, ac wrth chwarae rôl bwysig yn ychwanegu gwerth at yr effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hynny. Rhaid i bawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r Strategaeth Ddigwyddiadau hon geisio gwella mesur perfformiad.

Mae'r tabl yn Atodiad C yn darparu amlinelliad o fframwaith perfformiad wedi'i ddadansoddi yn ôl pob Blaenoriaeth, gan roi dewis o ddangosyddion a chanlyniadau y gellir eu cyd-gronni. Rhaid datblygu'r fframwaith gan ystyried yr angen i'w gysylltu â Fframwaith Rheoli Perfformiad y Strategaeth Ddiwylliant; meysydd gwasanaeth eraill (megis Adfywio); a sefydliadau allanol eraill. Wrth i'r Strategaeth Ddigwyddiadau ymsefydlu, bydd angen ymgysylltu llawn drwy Fwrdd Partneriaeth Digwyddiadau Abertawe a'r Fforwm Digwyddiadau i ddatblygu'r fframwaith hwn ymhellach.

Atodiad A – Strategaeth Digwyddiadau Abertawe

Ymchwil ac Ymgynghori

Cynnwys	Tudalen
1. Cyflwyniad	40
2. Adolygiad o Bolisiâu Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol	41
3. Dadansoddiad Cynulleidfaoedd Abertawe: Ar draws 6 Digwyddiad a Gŵyl Allweddol	46
4. Cyrchfannau Enghreifftiol: Meincnodi Arferion Gorau	59
5. Tueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg yn y Diwydiant Digwyddiadau	64
6. Adolygiad o Galendr Digwyddiadau Presennol Abertawe	68
7. Bylchau a Nodwyd yn y Calendr Digwyddiadau Presennol	73
8. Archwiliad o Leoliadau Digwyddiadau a Mannau Awyr Agored Abertawe	79
9. Mapio Rhanddeiliaid Sector Digwyddiadau Abertawe	83
10. Arolwg Cyhoeddus a Rhanddeiliaid	91
11. Gweithdai a Sesiynau Galw Heibio	93
12. Dadansoddiad SWOT	101

Adran 1: Cyflwyniad:

Mae'r ymchwil a'r ymgynghori hwn yn sail i'r Strategaeth Ddigwyddiadau, gan ddod â chasgliadau allweddol ynghyd sydd wedi'u crynhoi ar ffurf dadansoddiad SWOT, a ddefnyddir i ddatblygu strategaethau penodol i gyflawni'r 3 phrif flaenoriaeth a'r ysgogwyr newid a amlygwyd yn y strategaeth.

Roedd hyn yn cynnwys:

Ymchwil

- Adolygiad cynhwysfawr o bolisiau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol
- Demograffeg y diwydiant digwyddiadau, a thueddiadau twristiaeth ehangach
- Dadansoddiad o gynulleidfaoedd digwyddiadau a gwyliau
- Adolygiad o'r rhaglen digwyddiadau gyfredol
- Archwiliad o fannau digwyddiadau
- Mapio rhanddeiliaid
- Meincnodi dinasoedd llwyddiannus yn y DU ac Ewrop sydd â daearyddiaeth debyg, a threftadaeth ddiwydiannol a diwylliannol debyg gyda ffocws twristiaeth

Ymgynghori

- Arolwg cyhoeddus i gasglu barn ar y rhaglen digwyddiadau gyfredol
- Arolwg rhanddeiliaid i gasglu safbwyntiau ar heriau a chyfleoedd wrth ddatblygu digwyddiadau
- Tair gweithdy i ddatblygu gweledigaeth a blaenoriaethau/ysgogwyr ar gyfer y strategaeth
- Sesiynau galw heibio i gasglu barn ar y rhaglen gyfredol
- Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid allweddol nad oeddent yn gallu mynychu gweithdai, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a masnachol
- Cyfweiliadau un-i-un gyda swyddogion allweddol a chynrychiolwyr y Cyngor

Adran 2: Adolygiad o Bolisiau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Mae'r prif ddogfennau polisi a adolygwyd wedi'u nodi yn y tabl isod:

Math	Polisi
Cenedlaethol	• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant) • Diweddariad Llesiant Cymru 2025 • Strategaeth Digwyddiadau Genedlaethol Cymru (NESW) 2022–2030 • “Croeso i Gymru 2020–2025” Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr • Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant LLYW.CYMRU (Blaenoriaeth 2: dathlu Cymru fel cenedl o ddiwylliant)
Rhanbarthol	• Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru (REDP) 2021–2030 • Bargen Ddinesig Bae Abertawe (SBCD)
Abertawe: Corfforaethol	• Cynllun Corfforaethol 2023/28 (diweddariad 2025/26)
Datblygiad Leol	• Cynllun Datblygu Lleol 2023–38 (LDP2) • Cysyniad “Dinas ar y Traeth” (Urban Splash) • Egwyddorion Creu Lle: gwefan Cyngor Abertawe, Mehefin 2023 • Gweledigaeth ar gyfer Canol Dinas Abertawe: gwefan Cyngor Abertawe, Medi 2023
Economi Leol	• Cynllun Busnes Ardal Gwella Busnes (BID) Abertawe 2021–26 • Menter Angor Diwylliant a Thwristiaeth CS (wedi'i hariannu gan SPF) – diweddariad Mehefin 2024 • Strategaeth Ddiwylliant Abertawe 2025–30 • Cynllun Rheoli Cyrchfan Abertawe 2023–26 • Adolygiad Manwerthu a Hamdden Canol Dinas Abertawe a Strategaeth Ailddefnyddio (2021) • Diweddariad Busnes Twristiaeth Abertawe, Hydref 2025

Amgylchedd Leol	• Strategaeth Hinsawdd Abertawe a Digwyddiadau'r Dyfodol • Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol Abertawe (LNRAP) 2023–30
Llesiant Lleol	• Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2023–28

Mae'r polisiau hyn wedi'u hadolygu gan edrych ar chwe maes effaith sy'n llywio datblygiad Strategaeth Ddigwyddiadau Abertawe, gan gynnwys:

1. Effaith Economaidd ac Adfywio
2. Rhaglennu Awyr Agored Drwy'r Flwyddyn
3. Cynaliadwyedd ac Integreiddio Natur
4. Hunaniaeth Leol a Dilysrwydd
5. Ansawdd Uchel, Diogelwch a Phrofiad
6. Cydweithio a Chynhwysiant

1. Effaith Economaidd ac Adfywio

Cyfleoedd (Uchafbwyntiau):

- *Strategaeth Digwyddiadau fel Ysgogydd Economaidd:* Mae'r sector digwyddiadau yn y DU yn werth £61.6bn y flwyddyn ac yn cael ei gydnabod fel offeryn effeithiol ar gyfer adfywio economaidd ac ailadeiladu nifer yr ymwelwyr yng nghanol dinasoedd.
- *Manteisio ar Asedau Newydd:* Dylai'r strategaeth fanteisio ar y rhaglen adfywio gwerth £1 biliwn ac ar seilwaith newydd, gan gynnwys Bae Copr (Arena, Parc Arfordirol), Y Storfa a Glan y Môr.
- *Twf wedi'i Dargedu:* Mae digwyddiadau yn hanfodol i osod Abertawe fel canolfan ddiwylliannol a masnachol ffyniannus ac yn gyrchfan ymwelwyr, gan gynnwys digwyddiadau busnes a chynadleddau gwerth uchel.
- *Creu Swyddi:* Dylai'r strategaeth greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, yn enwedig drwy gymalau budd cymunedol, a chefnogi'r symudiad tuag at swyddi gwyrdd.

Heriau (Gwendidau):

- *Bwlch Hyfywedd a Dibyniaeth ar Gyllid:* Mae adfywio yn aml yn gofyn am gyllid cyhoeddus oherwydd gwerthoedd tir isel, gyda diffyg cyllid cyhoeddus a busnesau creadigol barod ar gyfer buddsoddi.
- *Cynhyrchiant a Chyflogau:* Mae'r rhanbarth yn wynebu bwlch cynhyrchiant sylweddol, gyda chyflogau yn y sector ymwelwyr yn is na chyfartaledd Cymru.
- *Cyfyngu ar Ofod Digwyddiadau:* Er bod mannau cyhoeddus newydd yn cael eu datblygu, maent yn aml yn aml-swyddogaethol ac yn llai o faint, gan effeithio ar faint a mathau o ddigwyddiadau yn y canol ddinas.

2. Rhaglennu Awyr Agored Drwy'r Flwyddyn

Cyfleoedd (Uchafbwyntiau):

- *Seilwaith Awyr Agored Gwell:* Mae Abertawe yn meddu ar asedau allweddol fel Parc Singleton, Traeth Bae Abertawe a'r parc arfordirol newydd.
- *Gweithgarwch Strategol:* Gall digwyddiadau fywiogi mannau megis Sgwâr y Castell, Stryd y Gwynt a'r Kingsway, ac yn y dyfodol Ffordd i'r Môr.
- *Mathau Newydd o Ddigwyddiadau:* Cyfle i ddatblygu digwyddiadau dŵr a gweithgareddau awyr agored arbenigol.

Heriau (Gwendidau):

- *Tymhoroldeb:* Mae'r economi ymwelwyr yn gryf yn yr haf, gyda chapasiti llety gwag yn y gaeaf.
- *Gwasgariad Lleoliadau:* Gall lleoliadau fod yn wasgaredig heb gysylltiadau clir rhyngddynt.
- *Dominyddu Trafnidiaeth Modur:* Mae defnydd ceir yn dal yn uchel yng Nghymru (70%), gan effeithio'n negyddol ar nodau cynaliadwyedd.

3. Cynaliadwyedd ac Integreiddio Natur

Cyfleoedd (Uchafbwyntiau):

- *Aliniad Gorfodol*: Rhaid i ddigwyddiadau gyd-fynd ag ymrwymiad cyfreithiol y Cyngor i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd, y nod o fod yn gadarnhaol i natur erbyn 2030, a'r targedau Sero Net ar gyfer y Cyngor (2030) a'r ddinas (2050).
- *Manteisio ar Seilwaith Gwyrdd (GI)*: Defnyddio gosodiadau seilwaith gwyrdd aml-swyddogaethol (toeon gwyrdd, waliau byw) i wella bioamrywiaeth, rheoli lliniaru llifogydd, a darparu oeri yn ystod yr haf ar gyfer amgylcheddau digwyddiadau.
- *Cyllid Gwydnwch*: Gallai digwyddiadau a weithredir gan y gymuned a'r sector preifat archwilio'r Gronfa Diogelu rhag Tywydd (grantiau hyd at £20k) i adeiladu seilwaith awyr agored gwydn.
- *Teithio Cynaliadwy*: Manteisio ar fuddsoddiad sylweddol mewn Teithio Llesol, sy'n golygu bod 60% o aelwydydd o fewn 500m i lwybr beicio pwrpasol oddi ar y ffordd.

Heriau (Gwendidau):

- *Mesur a Monitro*: Mae Abertawe'n wynebu'r her o ddatblygu a rhannu methodoleg safonol i alluogi digwyddiadau i fesur eu holtroed amgylcheddol.
- *Rheoliadau Llym*: Rhaid i ddigwyddiadau gadw at safonau gorfodol uchel a bennir gan y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle newydd a'r ymgynghoriad ar y Cynllun Dychwelyd Adneuon, i gefnogi twf economi gylchol.
- *Aflonyddwch Hamdden*: Rhaid i ddigwyddiadau a gynhelir mewn amgylcheddau awyr agored a morol reoli a lleihau aflonyddwch hamdden yn weithredol er mwyn diogelu bywyd gwyllt lleol.

4. Hunaniaeth Leol a Dilysrwydd

Cyfleoedd (Uchafbwyntiau):

- *Naratif Unigryw*: Dylai'r strategaeth digwyddiadau fanteisio ar asedau diwylliannol cyfoethog Abertawe sy'n gysylltiedig â Dylan Thomas, cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol a pherfformio, a threftadaeth forol. Mae ethos "Dinas ar y Traeth" (COTB) yn cynnig pwynt gwerthu unigryw.
- *Digwyddiadau Llofnod*: Mae cyfle i greu o leiaf un ŵyl unigryw, llofnod wedi'i gwreiddio mewn treftadaeth leol (e.e. Gŵyl Dylan Thomas).
- *Arddangosfa Ddiwylliannol*: Dylai'r Strategaeth Ddigwyddiadau ddathlu diwylliant lleol yn weithredol, hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ac arddangos bwyd a diod lleol dilys.

- *Asedau Treftadaeth*: Gellir cysylltu digwyddiadau â hyrwyddo ac actifadu datblygiadau sydd wedi'u hadfer ac ailbwrpasu megis Theatr y Palas ac Albert Hall.

Heriau (Gwendidau):

- *Diffyg Unigrywiaeth*: Mae'r rhaglen digwyddiadau diwylliannol bresennol yn cael ei hystyried fel un sydd â diffyg unigrywiaeth a deniad i ymwelwyr, gan olygu bod angen mwy o ddigwyddiadau proffil uchel a/neu nodedig.
- *Canfyddiad y Brand*: Mae gan Gymru gysylltiadau gwannach â gwyliau, digwyddiadau, y celfyddydau a atyniadau diwylliannol o'i gymharu â chyrchfannau eraill.

5. Ansawdd Uchel, Diogelwch a Phrofiad

Cyfleoedd (Uchafbwyntiau):

- *Seilwaith o Ansawdd*: Ymrwymiad i welliannau i'r amgylchedd cyhoeddus, gan gynnwys trawsnewid Stryd y Gwynt ac ailgynllunio'r Kingsway, sy'n cynnig cyfleoedd i wella digwyddiadau.
- *Rhagoriaeth Ddigidol*: Manteisio ar seilwaith digidol gwell (galluoedd dinas glyfar, 5G/IoT) i ddarparu profiadau ymgysylltiol ac o ansawdd uchel i ymwelwyr.
- *Cydweithio ar Ddiogelwch*: Mae cydweithio amlasiantaeth (y Cyngor, yr Heddlu, BID) ar waith i sicrhau diogelwch a gwella'r profiad cyffredinol.

Heriau (Gwendidau):

- *Canfyddiad o'r Amgylchedd Cyhoeddus*: Mae'r cyflwyniad cyffredinol presennol mewn rhai ardaloedd yn arwain at ganfyddiad negyddol ynghylch glendid strydoedd a thoiledau cyhoeddus.
- *Pryderon Diogelwch*: Mae angen ymrwymiad parhaus i leihau unrhyw ganfyddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig gyda'r nos o gwmpas gweithgaredd economi'r nos.

6. Cydweithio a Chynhwysiant

Cyfleoedd (Uchafbwyntiau):

- *Cydweithio*: Mae cydweithio yn hanfodol i gyflawni effaith ac mae'n cael ei gefnogi gan strwythurau llywodraethu sefydledig megis Grŵp Llywio'r DMP a chynrychiolwyr Grŵp Strategaeth Ddiwylliant.

- *Cydllyniant Cymunedol*: Disgwylir i ddigwyddiadau wella amrywiaeth a chynhwysiant, darparu cyfleoedd i bobl ddod ynghyd, a chryfhau cydllyniant cymunedol.
- *Sylfaen Wirfoddolwyr*: Mae cronfa gadarn o wirfoddolwyr lleol ar gyfer gweithgarwch cymunedol.

Heriau (Gwendidau):

- *Rhwyrstr Fforddiadwyedd*: Mae'r argyfwng costau byw yn gwneud fforddiadwyedd yn rhwyrstr sylweddol, gan bwysleisio'r angen am opsiynau fforddiadwy ac am ddim o fewn unrhyw raglen digwyddiadau.
- *Bylchau Cynhwysiant*: Rhaid i ddigwyddiadau sicrhau hygrychedd i bawb, yn enwedig y rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi ac anghydraddoldeb, a lleihau rhwystrau i drigolion sydd wedi'u hallgau'n ddigidol.

Adran 3: Dadansoddiad Cynulleidfaoedd Abertawe: Ar draws 6 Digwyddiad a Gŵyl Allweddol


Ychydig iawn o ddadansoddiad sydd ar gael o'r digwyddiadau a'r gwyliau a drefnir naill ai gan y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r Cyngor, o ran dadansoddi cynulleidfaoedd ac effaith economaidd neu gymdeithasol y digwyddiadau hynny.

Lle mae dadansoddiad ar gael, mae hwn wedi'i gynnal naill ai gan drefnydd y digwyddiad (Ironman 70.3) neu gan y Cyngor tua 7 mlynedd yn ôl (Sioe Awyr Cymru). Yn y ddau achos hyn, rhoddir amcangyfrifon ynghylch demograffeg, rhyw ac effaith economaidd amcangyfrifedig, ynghyd â dangosyddion eraill. Yn yr achosion hyn, roedd yr elw economaidd yn sylweddol uwch na buddsoddiad y Cyngor, gyda chymhareb o tua 20:1.


Fodd bynnag, ar gyfer yr astudiaeth hon, cynhaliwyd dadansoddiad o segmentau cynulleidfa o lif ymwelwyr presennol yng Nghanol Dinas Abertawe a'r Bae, gan gwmpasu chwe digwyddiad mawr a gynhaliwyd rhwng Medi 2024 ac Awst 2025.

Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar ddata dadansoddeg llif ymwelwyr a gyflenwir gan Visitor Insights, ac mae'n deillio o ddata lleoliad symudol o signalau GPS ffonau symudol lle mae defnyddwyr wedi dewis optio i mewn i wasanaethau olrhain lleoliad. Caiff y data hwn ei gyfuno â gwybodaeth ddemograffig o ddosbarthiad MOSAIC Experian.

Mae'r ardal a gwmpesir gan y dadansoddiad hwn i'w gweld ar y map isod:



Mae dadansoddiad bras o lif ymwelwyr blynyddol, wedi'i seilio ar broffiliau demograffig MOSAIC, yn dangos y prif gynulleidfaedd. Gan ddefnyddio proffiliau segmentu MOSAIC, gallwn ddechrau adnabod y mathau o ddigwyddiadau a gwyliaw y gallai'r cynulleidfaedd hyn fod â diddordeb ynddynt.



Grŵp MOSAIC	Prif Fathau o Apêl Digwyddiadau
Swyddi Urddasol, a Byw yn y Wlad	Mae'r grwpiau hyn yn cael eu denu at brofiadau premiwm megis y celfyddydau o ansawdd uchel (theatr/opera), profiadau bwyta moethus dros dro, gala elusennol, cynadleddau busnes, a digwyddiadau llesiant arbenigol.
Realiti Gwledig	Mae'r grŵp hwn yn ffafrio digwyddiadau fel sioeau amaethyddol, cyngherddau awyr agored, chwaraeon moduro, ffeiriau crefft, a marchnadoedd tymhorol.
Diogelwch yr Henoed	Caiff y cynulleidfaoedd hyn eu denu at ddigwyddiadau yn ystod y dydd sy'n hygyrch, gan gynnwys perfformiadau matinee, cyngherddau clasurol, atyniadau treftadaeth, teithiau coets a digwyddiadau cymunedol lleol.
Sefydlogrwydd Maestrefol, Llwyddiant Cartrefol a Darpar Berchnogion Cartrefi	Mae'r grwpiau hyn sy'n canolbwyntio ar deuluoedd yn ffafrio gwyliau bwyd a diod, digwyddiadau cyfeillgar i deuluoedd yn ystod y dydd, comedi, sinema, theatr a chwaraeon lleol.
Sylfeini Teuluol, Rhentwyr Dros Dro a Gwerth Hen Fasiwn	Mae'r grwpiau hyn yn cael eu denu at ddigwyddiadau egni uchel, cyfoes ac yn aml gystadleuol fel cerddoriaeth fyw, nosweithiau clwb, gwyliau dinas, sinema annibynnol, rasys ffitrwydd (Hyrox/Spartan), a gemau/esports.
Tenantiaid Trefol, Traddodiadau Cymedrol a Chanolfannau Rhentu	Mae'r grwpiau hyn yn blaenoriaethu gweithgareddau hygyrch a chost isel, gan ffafrio digwyddiadau cymunedol am ddim neu gost isel, pêl-droed, carnifalau, marchnadoedd stryd a chynigion sinema.

Segmentu cynulleidfaoedd y ddinas a'r ardal bae ar draws 6 chyfnod digwyddiad allweddol yng Nghalendr Digwyddiadau Abertawe

Dewiswyd sampl gynrychioliadol o chwe chyfnod digwyddiad mawr a gynhaliwyd ym Mae Abertawe dros y 12 mis diwethaf, gan archwilio llif ymwelwyr a phroffil MOSAIC canol y ddinas a'r ardal bae yn ystod y dyddiadau hyn. Mae'r data'n rhoi dangosydd da o'r prif gynulleidfaoedd sy'n cael eu denu i'r ddinas. Y chwe digwyddiad a ddadansoddwyd oedd:

- Tunes on the Bay (2^{il} – 4^{ydd} Mai 2025)
- Penwythnos Gwyliau Cerddoriaeth - (20th – 22nd Mehefin 2025)
 - Campfire Country Music Festival
 - BeatMasters – 90 & 00s Festival
 - We Love it – Family Fun Music festival
- Sioe Awyr Cymru (5th – 6th July 2025)
- Ironman (13^{eg} Gorffennaf 2025)
- 10k Bae Abertawe (15^{eg} Medi 2024)
- Gwledd y Gaeaf ar y Glannau (1^{af} Rhagfur 2024 – 2^{il} Ionar 2025)

Mae'r chwe digwyddiad mawr hyn yn gyffredinol yn denu croestoriad eang o'r boblogaeth, ond roeddent yn arbennig o lwyddiannus wrth apelio at segmentau sefydledig, uchelgeisiol a chanolig eu cyfoeth o'r farchnad leol.

Mae'r grwpiau Acorn a MOSAIC canlynol yn ffurfio'r prif gynulleidfa graidd, gan gyfrif yn gyson am y gyfran fwyaf o fynychwyr ar draws bron pob digwyddiad (10% neu fwy):

Segment MOSAIC	Disgrifiad (Cyfeirnod Ffynhonnell)	Ystod Presenoldeb Cyson
Swyddi Prestig	Perchnogion cartrefi cyfoethog a sefydledig, perchnogion busnes a thrigolion dylanwadol gyda incwm ac asedau uchel (Grwpiau A a B, e.e. Ardaloedd Unigryw, Llonyddwch Arian).	9% – 10%
Llwyddiant domestig	Teuluoedd â adnoddau cyfforddus, yn aml mewn cartrefi o ansawdd da mewn maestrefi neu ardaloedd gwyrdd, gan ganolbwyntio ar yrfaeodd llwyddiannus a bywyd teuluol (Grwpiau D a P).	8% – 10%
Darpar berchnogion tai	Aelwydydd ifanc gyda chyflogau da, yn aml yn prynu cartrefi newydd eu hadeiladu neu'n deuluoedd ifanc â chostau uchel, gan ddangos uchelgais (Grwpiau H ac N).	10% – 11%
Canolfannau rhentu	Unigolion sy'n gweithio ac yn rhannu llety, yn aml yn weithwyr proffesiynol neu fyfyrwyr, fel arfer yn rhentu llety preifat mewn lleoliadau trefol (Grwpiau J, O, R).	8% – 12%
Sylfeini Teulu	Teuluoedd â nifer o blant, cyfoeth isel a chyllidebau dan bwysau, yn aml yn rhentu gan landlordiaid cymdeithasol (Grŵp I, e.e. Teuluoedd Graddfa Fach, Byw dan Bwysau).	8% – 10%
Diogelwch yr Henoed	Perchnogion cartrefi hŷn sydd mewn sefyllfa ariannol sefydlog, yn aml yn ymddeol mewn maestrefi dymunol, gyda incwm gwario uchel (Grwpiau B ac E).	8% – 10%

Mae'r cysondeb hwn yn dangos bod digwyddiadau mawr yn llwyddo i ddal diddordeb y dosbarth canol uchelgeisiol (Darpar Berchnogion Cartrefi, Llwyddiant Cartrefol), y rhai cyfoethog ynghyd â'r rhai sydd wedi ymddeol ac yn sefydledig (Swyddi Prestig, Diogelwch yr Henoed), a chyfran sylweddol o deuluoedd incwm isel (Sylfeini Teuluol).

Gwahaniaethau: Cynulleidfaoedd sy'n cael eu Denau at Ddigwyddiadau Penodol

Er bod y gynulleidfa gyffredinol yn eang (Tunes on the Bay, Penwythnos Gŵyliau Cerddoriaeth), mae newidiadau bach mewn presenoldeb yn amlygu pa segmentau sy'n cael eu denu'n arbennig at fathau penodol o ddigwyddiadau:

1. Digwyddiadau Dygnwch a Chwaraeon (Ironman 70.3 a Ras 10K Bae Abertawe)

Mae'r digwyddiadau hyn yn denu'n gymharol llai o'r segmentau cyfoethocaf a mwyaf sefydledig, ond maent yn apelio'n gryf at segmentau iau, corfforol weithgar a rhai maestrefol:

- **10K Bae Abertawe (Chwaraeon):** Mae'r digwyddiad hwn yn denu'r ganran uchaf o Ganolfannau Rhentu (12%) o'i gymharu â digwyddiadau eraill (sy'n gyfartalog 8–10%). Mae hyn yn awgrymu apêl gref i weithwyr proffesiynol a myfyrwyr iau sy'n aml yn symudol ac yn byw mewn llety rhent yn y ddinas.
- **Ironman 70.3 (Dygnwch):** Mae'r digwyddiad hwn yn dangos y presenoldeb isaf o fewn y ddinas o'r segment cyfoethocaf, Ffyniant Trefol (0%), ac ychydig yn is ar gyfer Llwyddiant Cartrefol (8%) o'i gymharu â'r cyfartaledd o 10%. Fodd bynnag, mae'n dangos cyfran uwch o Sefydlogrwydd Maestrefol (10%) a Darpar Berchnogion Cartrefi (11%), gan awgrymu ei fod yn targedu perchnogion cartrefi sefydledig a theuluoedd sy'n canolbwyntio ar yrfa yn llwyddiannus. Mae'n bosibl bod cyfranogwyr y digwyddiad yn fwy cyfoethog nag a adlewyrchir yn llawn yn y data.

Traeth Bae Caswell	Lleoliad nofio a syrffio gyda chaffis ac ysgol syrffio. Mae'r traeth yn meddu ar Wobr Baner Las a Gwobr Traeth, ac mae'n hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn Syrffio a chaicio.	Mae ysgolion syrffio yn gweithredu yno ac yn cynnal sesiynau clwb syrffio gwyliau'r haf yn ogystal â diwrnodau "Iechyd a Lles" wedi'u trefnu gan Blue Ocean Activities	Dim datblygiad pellach ar hyn o bryd. Posiblwydd trafod digwyddiadau a gwyliau ar sail dŵr
Canol y Ddinas – gan gynnwys Stryd Rhydychen / Stryd yr Undeb / Stryd	Strydoedd siopa cerddwyr a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau a marchnadoedd	Croeso, Penwythnos Celfyddydau Abertawe, Gŵyl Fringe, Bwyd a Diod Abertawe, Sioe Cerbydau Clasur Abertawe	Gofod digwyddiadau mawr ar gyfer adfywio canol y ddinas. Dim cyflenwad trydan ar hyn o bryd

Portland / Ffordd y Dywysoges			
Gerddi Castell Clyne	Gardd fotaneg sy'n adnabyddus am ei rhododendronau, azaleas a rhywogaethau planhigion prin	Gŵyl Ffyngau	Gallai fod potensial ar gyfer sioe blodau/garddio/fotaneg – wedi'i gysylltu â safleoedd eraill
Parc Gwledig Dyffryn Clyne	Unig barc gwledig y ddinas. O fewn ei 700 erw mae tirwedd amrywiol yn cynnwys bryniau agored a choediog, ceunentydd serth a chwareli, dolydd a llawr dyffryn gwlyb	Yn cynnal nifer o ddigwyddiadau chwaraeon ac eraill gan gynnwys beicio, cyfeiriannu, cyfeiriannu “nos”, SBOC Summer League 6, “Park Lives” beicio mynydd. Mae grwpiau cymunedol lleol yn rhestru rhedeg, beicio, beicio mynydd a marchogaeth ceffylau	Dim datblygiad pellach ar hyn o bryd
Parc Cwmdonkin	Parc Fictoraidd sy'n gysylltiedig yn enwog â'r bardd Dylan Thomas, gyda golygfeydd golygfaol. Lawnt fowls	Digwyddiadau fel hud i blant a disgo, Parti Te Mad Hatters, helia wyau'r Pasg, digwyddiad Calan Gaeaf, Diwrnod Hwyl yr Haf. Digwyddiadau bach, am ddim neu gost isel wedi'u trefnu mewn partneriaeth â'r Cyngor a grwpiau cymunedol lleol	Cyfle i ddatblygu digwyddiadau o amgylch cymuned gref – naill ai'n annibynnol neu wedi'u cysylltu â digwyddiadau diwylliannol eraill drwy ei chysylltiad â Dylan Thomas. Mae ganddo lwyfan/pŵer
Clwb Rygbi Dunvant	Clwb Rygbi	rddangosfa Tân Gwyllt Dunvant, Dawns Diwali Abertawe, digwyddiadau tymhorol i blant – e.e. Calan Gaeaf	Dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd

Sgwâr Dylan Thomas a'r Theatr	Wedi cynnal amrywiaeth o osodiadau dros y blynyddoedd	Wedi cynnal amrywiaeth o osodiadau dros y blynyddoedd Marchnad Marina reolaidd, Parêd Nadolig. Wedi'i rhestru gan y Cyngor fel addas ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth, ffetiau, gwyliau bwyd, rasys hwyl, a digwyddiadau cymunedol. Yn cael ei ddefnyddio fel man cyfarfod ar gyfer llwybrau cerdded a theithiau thematig. Mae Theatr Dylan Thomas wedi'i lleoli yn y sgwâr ac yn cael ei defnyddio gan Swansea Little Theatre ar gyfer amrywiaeth o gynyrchiadau, grwpiau dawns lleol, gwyliau cerddoriaeth, cwmnïau teithiol, comedi ac ati	Ystyriaethau rhaglennu yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu digwyddiadau'r cei/yr ardal forwrol
Parc Hafod	Gofod gwyrdd agored mawr gyda maes gemau a lawnt fowls	Diwrnod Agored Bowls Cymunedol, diwrnodau Aml-Chwaraeon "Park Lives" i blant, garddio cymunedol / gweithdai	Safle cymunedol da – dim ystyriaeth bellach
Parc Highmead, Treforys	Parc cymunedol – rhan o fenter leol ddiweddar i wella mannau gwyrdd a chyfleusterau	Diwrnodau Hwyl yr Haf	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Parc Jersey	Parc cymunedol lleol gyda chyfleusterau amrywiol gan gynnwys ardal chwarae a lawnt fowls	Diwrnodau Hwyl i Deuluoedd a digwyddiadau chwaraeon	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Arced Killay	anolfan manwerthu/cymunedol fach	Marchnad Killay	Marchnad reolaidd boblogaidd. Gellid ei chysylltu â digwyddiad bwyd a diod ehangach
Ffordd y Brenhinoedd (Kingsway)	Adnewyddwyd gan ddefnyddio cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewrop gyda mannau cyhoeddus newydd, parcdir wedi'i dirlunio a pharc poced	Gofodau manwerthu/pop-up, sesiynau creadigol, digwyddiadau bywyd nos. Cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer digwyddiadau celfyddydol/diwylliannol pop-up?	Gofodau manwerthu/pop-up, sesiynau creadigol, digwyddiadau bywyd nos. Cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer digwyddiadau celfyddydol/diwylliannol pop-up?

Craig Knab, y Mwmbwls	Pentir creigiog/man lansio ger y Mwmbwls	uathlon y Mwmbwls, Rhwyfo Môr Cymru, regattas B14 a Dart 18	anolbwynt ar gyfer chwaraeon dŵr/hwyllo. Dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Bae Langland	Parc glan môr poblogaidd a man syrffio gyda chitiau traeth gwyliau, bwyta achlysurol a phromenâd	Cystadleuaeth syrffio	Dim datblygiad pellach ar hyn o bryd. Posibiliad trafod digwyddiadau a gwyliau ar sail dŵr
LC Abertawe	Yn flaenorol yn cael ei adnabod fel y Ganolfan Hamdden	Comic Con, Gŵyl Brics	Potensial i gysylltu â digwyddiadau awyr agored
Traeth Bae Llangennith	Wedi'i leoli ar ymyl gorllewinol Penrhyn Gŵyr, yn boblogaidd gyda syrffwyr	Mynediad anodd	Capasiti cyfyngedig i ddatblygu unrhyw ddigwyddiad mawr. Mynediad anodd
Parc Llansamlet	Parc a maes chwarae bach yn Llansamlet	Diwrnod Hwyl, TallyFest25	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Parc Treforys	Parc gyda llyn, ardal bywyd gwyllt, llwybrau cerdded, ardal chwarae a pharc sglefrio	Diwrnod Hwyl i Deuluoedd	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Promenâd y Mwmbwls	Promenâd newydd ei ddatblygu gyda gofodau digwyddiadau bach	Ras Rafft RNLI y Mwmbwls. Digwyddiadau pop-up / artistiaid lleol / marchnadoedd? Disgwyl i Ras Hwyl Nadolig Fawr 2025 gael ei chynnal ar 7 Rhagfyr ar y promenâd	Dim ond ym mis Gorffennaf 2025 y cafodd ei agor felly nid oes digwyddiadau na phop-ups wedi'u rhestru hyd yma, ond mae'r gwaith adnewyddu yn nodi y bydd yn cefnogi mwy o ddigwyddiadau a phop-ups amlwg yn y dyfodol. Cyfle datblygu, er bod y cyflenwad trydan yn gyfyngedig. Byddai angen digwyddiad llinol
Parc yr Amgueddfa	Safle sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn gyda chyfleusterau da	Pencampwriaethau Ymladd y Byd, Gwledd y Gaeaf ar y Glannau, Diwrnodau Dawns, Gŵyl Jazz, The Big Rumble Samba Drumming, BBC Antiques Roadshow	Seilwaith da. Angen dealltwriaeth bellach o sut mae'r rhaglenni yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r dyheadau fel rhan o ddatblygiad yr Amgueddfa Genedlaethol y Glannau

Caeau Chwarae Mynydd Newydd	Ardal chwaraeon a hamdden gyhoeddus wedi'i lleoli wrth ymyl Comin Mynydd Cadle yn ardal Penderry, Abertawe	Sinema gyrru i mewn	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau	Amgueddfa sy'n adrodd hanes diwydiant ac arloesi yng Nghymru dros y 300 mlynedd diwethaf, wedi'i lleoli ar lan y Marina yn Abertawe. Yn cynnwys 15 o orielau rhyngweithiol, gwrthrychau go iawn ac arddangosfeydd cyfoes	Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, Marchnad Vintage a Chrefftswyr, Gŵyl Ddysgu Dinas UNESCO, Gŵyl Tawe. Cysylltiadau â'r chwarter morwrol / Parc yr Amgueddfa	Deall sut mae'r adolygiad o ddefnydd a datblygiad yr amgueddfa a'r ardal gyfagos yn cyd-fynd â'r rhaglen digwyddiadau
Heol Newton, y Mwmbwls	Ffordd breswyl/fusnes a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau cymunedol	Dyma'r Haf yn Dod, Sioe Ceir Clasur y Mwmbwls	Cau'r ffordd yn achlysurol. Dim ystyriaeth bellach
Traeth Bae Oxwich	Darn mawr tywodlyd gyda llawer i'w gynnig – y môr, syrffio, twyni, morfa heli, bwyd da, siopau – ac mae'n hawdd cyrraedd	Man cychwyn Ras Llwybr Gŵyr	Tir preifat ac nid yw uchelgeisiau'r tîrfeddiannwr yn glir. Dim ystyriaeth bellach
Castell Ystumllwynarth a'r Fynwent	Yn cynnwys Coedwig Peel, y fynwent (gan gynnwys safle claddu coetir), a thiroedd y castell	Picnic Tedi Bears, Gŵyl y Mwmbwls, We Love Fairies, theatr awyr agored, Diwrnod Tywysog a Thywysoges, Gŵyl Fwyd Ystumllwynarth, The Spooky Castle, The Dark Side	Gofod digwyddiadau prysur gyda darpariaeth ddigonol o drydan a thoiledau ar gyfer digwyddiadau
Parc Williams a Chastell Casllwchwr	Mae adfeilion y castell wedi'u lleoli mewn parc bach, llai nag hectar o faint, ac o fewn pellter cerdded i Barc Williams sy'n cynnig cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau awyr agored	Picnic a Diwrnod Hwyl Parc Williams	Gofod awyr agored da ar gyfer digwyddiadau ond defnydd cyfyngedig ar hyn o bryd, a seilwaith cyfyngedig

Parc y Werin	Yn cynnwys dau lawnt fowls a chae pêl-droed. Mae hefyd yn cynnwys mannau agored mawr sy'n addas ar gyfer cerdded neu redeg gyda'ch ci	Diwrnod Hwyl i'r Teulu Parc y Werin	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Castell a Gerddi Penrice	Castell o'r 13eg ganrif gyda gardd dirluniedig o'r 18fed ganrif a ddyluniwyd gan William Emes	Sioe Gŵyr	Gofod digwyddiadau da ond nid yw uchelgeisiau'r tirfeddiannwr yn hysbys
Traeth Bae Port Eynon	Yn cynnig gweithgareddau chwaraeon dŵr ac mae ganddo hygyrchedd da i ymwelwyr anabl	Swansea Trisharks	Cyfleoedd i gysylltu â darpariaeth ehangach o chwaraeon dŵr ond heblaw hynny dim ystyriaeth bellach
Doc Tywysog Cymru a'r siediau	Yn mynd drwy gyfnod trosglwyddo dan berchnogaeth newydd – Llywodraeth Cymru yn cymryd rheolaeth i oruchwyllo datblygiad marina newydd posibl a phont gerddwyr	Gŵyl Para-Chwaraeon, elfen nofio Ironman 70.3 a digwyddiadau dygnwch eraill	Cyfle i gynnal digwyddiadau chwaraeon dŵr eraill. Capasiti cyfyngedig ar gyfer llongau mawr o unrhyw fath oherwydd mynediad cyfyngedig
Parc Ravenhill	Yn cynnwys cwrt pêl-fasged ac amffitheatr goncrid	Circus Dayze Fun Skillz	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Maes Y Rec, Bae Abertawe	Wedi'i ddefnyddio ar gyfer ffeiriau a man cychwyn digwyddiadau rhedeg mawr	Circus Zyair, cychwyn 10K, ffeiriau	Safle masnachol da. Dim cyflenwad trydan ar hyn o bryd
Bae Rhossili	Yn cynnwys Pen-y-Benrhyn (Worms Head), Rhosili Down a'r clogwyni, dan berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Maes parcio mawr	Macmillan Mighty Hike, Beat the Trails. Defnyddir yr ardal ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a chymunedol ond yn bennaf yn rhai tymhorol, wedi'u seilio ar natur ac yn gymharol anffurfiol (e.e. Summer of Play yn Rhosili, teithiau lles 'Walk with us')	Maes parcio gyda chapasiti o 1,200 ar ben deheuol (Pen-y-Benrhyn). Cyfle ar gyfer digwyddiad sensitif wedi'i gyflwyno sy'n gysylltiedig â machlud dros Ben-y-Benrhyn. Darpariaeth arlwyio gyfyngedig a seilwaith cyfyngedig. Angen trafodaeth bellach gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Ardal Lletygarwch SA1	Datblygiad ar lan y dŵr modern gyda gwestai, bwytaï a bariau amrywiol	Triathlon Abertawe, Gŵyl Jazz	Cyfle i ddatblygu digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ardal y dociau drwy ddigwyddiadau pop-up
Parc Singleton – 3 safle	Parc trefol mwyaf Abertawe gyda gardd fotanegol, llyn cychod a nodweddion hanesyddol. Yn cynnwys tiroedd Neuadd Sketty a Phlas Singleton. 3 safle ar wahân ar gyfer digwyddiadau	Sinema Awyr Agored, Eid yn y Parc, Sioe Ceir Clasurol, Race for Life, Gŵyl Campfire Country Music, Gŵyl BeatMasters, Gŵyl We Love It	Buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith i gefnogi digwyddiadau mawr
St David's Place	Gofod agored yng nghanol dinas Abertawe ond wedi'i gynllunio ar gyfer datblygiad	Calan Gaeaf, Spooks in the City, Gŵyl Tsili'r Ddinas	Cyfleoedd cyfyngedig fel gofod digwyddiadau oherwydd datblygiad arfaethedig
Maes St Helen's, Bae Abertawe (Crïced / Rygbi)	Safle dan adnewyddu mawr gyda stadiwm newydd, lletygarwch corfforaethol a rhwydweithiau 5G. Yn eiddo i'r Ospreys. Ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tân gwyllt	Digwyddiad Tân Gwyllt Abertawe	Ansicrwydd ynghylch defnydd y safle ar gyfer digwyddiadau mawr ar ôl yr ailddatblygiad, heblaw am ddigwyddiadau chwaraeon a'r rhai sy'n gysylltiedig â themâu digidol
Gerddi Plasty Stouthall	Plasty neo-glasurol o'r 18fed ganrif, wedi'i leoli o fewn 16 erw o goetir a thiroedd. Wedi'i ddisgrifio fel Canolfan Antur a Lleoliad Digwyddiadau newydd ei adnewyddu	Yn rhestru "gofod digwyddiadau awyr agored" ond ymddengys ei fod yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer priodasau, digwyddiadau corfforaethol ac ati. Mae ganddo 2 tipi digwyddiadau enfawr sy'n awgrymu gallu i gynnal gwyliau, diwrnodau agored a chynulliadau mwy	Mae angen deall uchelgeisiau'r perchennog tir – ond mae'n cael ei hysbysebu fel lleoliad digwyddiadau
Arena Abertawe	Lleoliad amlbwrpas wedi'i leoli mewn parc arfordirol ger marina'r ddinas	Parti Tŷ Arena	Lleoliad cyngherddau. Posiblirwydd o gysylltu â digwyddiadau awyr agored

Bae Abertawe gan gynnwys y Senotaff	Traeth tywodlyd pum milltir o hyd ar hyd arfordir Bae Abertawe. Yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer chwaraeon dŵr, ymlacio a cherdded. Defnyddir hefyd ar gyfer Sioe Awyr Cymru a Tunes on the Bay	Tunes on the Bay, Sioe Awyr Cymru, Nofio Abertawe, Rygbi Traeth, Ironman 70.3, Aquathlon, Gŵyl Fwyd Fawr	Cyfleoedd ar gyfer mwy o ddigwyddiadau ar y traeth sy'n parchu sensitifrwydd yr ardal, e.e. Gŵyl Barcutiaid
Tiroedd Canolfan Ddinesig Abertawe a'r Promenâd	Rhan o raglen adfywio ar hyn o bryd. Wedi cynnal amrywiaeth o osodiadau dros y blynyddoedd	Rasys hwyl, teithiau cerdded elusennol, sesiynau chwaraeon a hamdden – mae'r ardal laswellt ar gael i'w harchebu ar gyfer gweithgareddau. Ffeiriau cymunedol, gwyliau, digwyddiadau pop-up – yn unol â chanllawiau'r Cyngor gellir cynnal digwyddiadau cerddoriaeth, gwyliau bwyd a digwyddiadau cymunedol	Cynllun adfywio parhaus. Yn gweithio gydag ymgynghorydd allanol i archwilio opsiynau digwyddiadau yn y dyfodol
Rotwnda Neuadd y Ddinas Abertawe	Wedi cynnal amrywiaeth o osodiadau dros y blynyddoedd	Diwrnod y Lluoedd Arfog, Pride Abertawe, Gorymdaith y Nadolig	Cyfleoedd ar gyfer mannau cychwyn a gorffeniad digwyddiadau neu achlysuron sifil/coffáu
Marina Abertawe	Wedi cynnal amrywiaeth o osodiadau dros y blynyddoedd	Mae'r marina yn gartref i Ymddiriedolaeth Cychod Cymunedol Abertawe "Copper Jack" sy'n cynnig teithiau hwyllo cyhoeddus, sesiynau dosbarth arnofiol i ysgolion/grwpiau cymunedol, a digwyddiadau cerddoriaeth ar y system afon/cloeon. Mae'r system archebu "Beth Sy'n Digwydd" yn gwahodd cyflwyniadau ar gyfer digwyddiadau – wedi'i hyrwyddo fel gofod digwyddiadau ar gael yn Abertawe. Grŵp cymunedol Marina Abertawe a Glanfor SA1 yn weithgar iawn	Unrhyw raglen digwyddiadau i'w chysylltu â chysyniad y Chwarter Morwrol a datblygiad Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer digwyddiadau morwrol mawr oherwydd y marina prysur a mynediad cyfyngedig i longau mawr
Stadiwm Swansea.com	A elwid gynt yn Stadiwm Liberty	Cartref Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe a thîm rygbi'r Gweilch	Mae ganddo botensial i gynnal digwyddiadau mawr ond diddordeb cyfyngedig.

Parc Underhill	Parc yng nghanol y Mwmbwls gyda man chwarae, meinciau picnic, coetir, caeau pêl-droed a rygbi	Gŵyl Bêl-droed Newton Athletic, Diwrnod Hwyl yr Haf	Yn cael ei redeg gan Gymdeithas Gymunedol y Mwmbwls (MCA). Canolfan gymunedol a chlybiau chwaraeon gweithgar. Angen deall uchelgeisiau ar gyfer digwyddiadau eraill
Cae'r Vetch	Mae cofnodion yn dangos ei fod ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer un digwyddiad blynyddol mawr	Eid Sandfields	Potensial ar gyfer digwyddiadau tebyg eraill. Seilwaith cyfyngedig
Parc Victoria gan gynnwys Pafiliwn Patti	Parc trefol cryno (tua 10 erw) rhwng canol y ddinas a'r Mwmbwls. Yn cynnwys Pafiliwn Patti a ddefnyddir ar gyfer perfformiadau theatr, cyngherddau, pantomeimiau a ffeiriau	Marchnad Abertawe Bae reolaidd, sesiynau chwaraeon a lles, cynulliadau cymunedol, ffeiriau, digwyddiadau diwylliannol	Parc cymunedol bach gyda marchnad boblogaidd. Safle da ar gyfer datblygu digwyddiadau cymunedol dan do ac awyr agored
Parc Waverley	Parc trefol gyda choetir a maes criced	Ffair Haf Clydach	Peth defnydd cymunedol – dim ystyriaeth bellach ar hyn o bryd
Weobley Castle	Tŷ maenor caerog a reolir gan Cadw ac ar agor i'r cyhoedd	Gŵyl Werin Gŵyr, Love Trails Festival, JOPO Fest	Safle prysur ar gyfer digwyddiadau Gŵyr. Golygfeydd gwych. Perchnogaeth breifat. Dim camau pellach
Wind Street	Canolfan fywiog ar gyfer bywyd nos a bwyta, gyda dewis eang o fariâu, bwytaï a mannau adloniant	Pride Abertawe	Gofod llinol, yn addas iawn ar gyfer digwyddiadau pop-up a gorymdeithiau ac ati

Adran 9: Mapio Rhanddeiliaid Sector Digwyddiadau Abertawe

Mae'r tablau isod yn nodi'r amrywiaeth o randdeiliaid a gafodd eu hadnabod fel rhai sydd â diddordeb a chyfraniad posibl at ddatblygu'r Strategaeth ac, yn y pen draw, ei chyflawni.

Mae'r rhai a ymatebodd eisoes wedi cyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Digwyddiadau derfynol. Bydd angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai na ymatebodd yn ystod y cyfnod ymgysylltu a'u cynnwys mewn ymgynghoriad wrth gyflwyno'r Strategaeth derfynol.

Adrannau, Gwasanaethau a Thimau'r Cyngor			
Gwasanaethau Oedolion	Grŵp Llywio Cyrchfan	Hamdden, Partneriaethau, Iechyd a Lles	Iechyd Cyhoeddus
Celfyddydau a'r Economi Greadigol	Datblygu Economaidd	Trwyddedu	Tîm Adfywio
Plant a Phobl Ifanc	Gwasanaeth Addysg	Gwasanaeth Cerdd	Arfordir
Rheoli Canol y Ddinas	Datblygu Polisi Cydraddoldeb	Natur a'r Amgylchedd	Chwaraeon ac Iechyd
Ymgysylltu Cymunedol	Digwyddiadau	Parciau	Twristiaeth
Partneriaethau Cymunedol	Priffyrdd	Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol	Traffig
Lleoliadau'r Cyngor			
Amgueddfa Dylan Thomas	Theatr y Grand	Castell Ystumllwynarth	Marina Abertawe
Oriel Gelf Glynn Vivian	LC Abertawe (Canolfan Hamdden)	Arena Abertawe	Amgueddfa Abertawe
Stadiwm Swansea.com			

Trefnwyr / Hyrwyddwyr Digwyddiadau			
BeatMasters	Diwrnodau Dawns	Gŵyl Jazz	Walk of Light Abertawe
Big Food Festival	Tân Gwyllt Dunvant	Love Trails	Y Fyddin
Campfire Music	Eisteddfod	Sandfields Eid Party	Tunes on the Bay
Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd	Gower Folk Festival	Gŵyl Fringe Abertawe	Yr Urdd
Circus Zyair	Sioe Gŵyr	Swansea Fringe	We Love it Tribute Fest
Ffair Haf Clydach	Gwyl Tawe	Pride Abertawe	Gŵyl Werin Weobley
Trefnwyr/Hyrwyddwyr Digwyddiadau Chwaraeon			
Admiral 10k	Gorseinon 10k	Ironman 70.3	10kBae Abertawe
Bay Aquathlon Series	Gower 10K	Mumbles Duathlon	Hanner Marathon Abertawe
Dart 18 TT Regattas	Gower Bike Ride	Mumbles Triathlon	Swansea Swim
Dragon Coastal Races	Gower Half Marathon	Newton Athletic Festival	Swansea Tri Sharks
B14 Nationals	Gower Ultra Challenge	Ospreys in the Community	Talyfest25
Beach Rugby	Gower Trail Race	Race For Life	The DARTH XIV Charity Run
Beat The Trails	Gower Walking Festival	Swansea 5k	World Para Tri Series
Cysylltiadau Eraill			
4theRegion	Coleg Gŵyr/Canolfan Dreftadaeth	SC Productions	Urban Foundry
Bunkhouse	Gower Heritage Centre	Maes Rygbi St Helen's	UWTSD
CADW	Cyngor Cymuned y Mwmbwls	BID Abertawe	Croeso Cymru
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol	Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Swansea Music Hub	Welsh Athletics
Chwaraeon Anabledd Cymru	National Waterfront Museum	Swansea Muslim Consortium	Welsh Triathlon
Enjoy Wales	Penllergare Valley Woods	Prifysgol Abertawe	WICAS
Digwyddiadau Cymru	Penrice Estate	Canolfan Gelfyddydau Taliesin	YMCA
Event Wales	RNLI	Tourism Swansea Bay	
Cyfeillion...			
Parc Brynmelyn	Parc Cwmdonkin	Parc Morriston	Parc Werin
Parc Brynmill	Parc Golden Grove	Ystumllwynarth	Parc Pontlliw
Parc Coed Bach	Parc Jersey	Parc Llewelyn	Parc Primrose
Parc Coed Gwilym	Melyn Mynach	Parc Williams	Parc Ravenhill

Cyngorau Cymuned a Thref			
Bishopston	Llanmadoc	Llanrhidian Lower	Penrice
Gorseinon	Cheriton	Llwchwr	Pontardulais
Gowerton	Llangyfelach	Mawr	Pontlliw and Tircoed
Ilston	Llanrhidian Higher	Pennard	Port Eynon
Llangennith			

Adran 10: Canlyniadau Arolwg y Cyhoedd a Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd arolwg ar-lein ar gyfer y cyhoedd a rhanddeiliaid yn Gymraeg ac yn Saesneg rhwng 24 Medi a 17 Hydref, gyda 215 o aelodau'r cyhoedd a 50 o rhanddeiliaid allweddol yn cwblhau'r arolwg. Darparwyd copïau papur o'r arolwg hefyd.

Isod ceir crynodeb o ymatebion yr arolwg:

Cryfderau Allweddol

- Canfyddiad Cadarnhaol o Ddigwyddiadau: Cytunodd y cyhoedd a rhanddeiliaid fod Abertawe yn lle da i fynychu digwyddiadau a gwyliau.
- Ffocws Cryf ar Deuluoedd: Mae digwyddiadau a gwyliau yn Abertawe yn cael eu hystyried yn addas iawn i deuluoedd.
- Diddordeb Uchel mewn Mynychu: Mae mathau poblogaidd o ddigwyddiadau y mae pobl yn mwynhau eu mynychu yn cynnwys y Sioe Awyr, digwyddiadau chwaraeon (fel cyfranogwr), digwyddiadau teuluol/plant-gyfeillgar, digwyddiadau tymhorol (e.e. Nadolig) a digwyddiadau cerddoriaeth fyw.

Cyfleoedd

- Galw am Ddigwyddiadau Newydd: Mae diddordeb cryf mewn gweld mwy o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol megis Celf a Chrefft, Bwyd a Diod, Treftadaeth a gweithgareddau perfformio/diwylliannol.

- Bylchau Penodol a Nodwyd: Mae cyfleoedd i gyflwyno digwyddiadau arbenigol, gan gynnwys Chwaraeon Dŵr, Comedi a Gwyliau Ffilm, teithiau cerdded trefol, garddwriaeth, arddangosfeydd tân gwyllt (nid ym mis Tachwedd), a pherfformiadau ar gyfer pobl â nam ar y clyw.
- Blaenoriaethau Cymunedol ac Economaidd: Y prif flaenoriaethau ar gyfer datblygu digwyddiadau newydd yw dod â'r gymuned leol ynghyd; dathlu diwylliant/treftadaeth leol; a manteision economaidd.
- Gwelliannau i Gyfleusterau: Y gwelliannau a nodir amlaf i wella profiad ymwelwyr yw mwy o gyfleusterau lles; diogelwch gwell mewn digwyddiadau; mannau tawel (lloches); gwell cyfleusterau anabled; a mynediad gwell.
- Logisteg a Hyrwyddo: Mae cyfleoedd i gynyddu presenoldeb drwy well rheoli traffig; trafnidiaeth gyhoeddus amlach; mwy o hyrwyddo; a gwell gwybodaeth ar-lein.

Heriau

- Rhwystrau Gweithredol Mawr: Mae trefnwyr digwyddiadau yn wynebu heriau sylweddol yn ymwneud â biwrocratiaeth, costau cynyddol, a sicrhau cyllid.
- Anawsterau Staffio: Nodir diffyg staff profiadol a phrinder gwirfoddolwyr i gefnogi cyflwyno digwyddiadau.
- Cymhlethdod Cynllunio: Ceir anawsterau mewn trefnu, cynllunio, a materion statudol a rheoleiddiol.
- Pryderon Rhanddeiliaid: Mae trefnwyr digwyddiadau hefyd yn nodi heriau'n ymwneud â'r hinsawdd economaidd, anhawster cael caniatâd gan y Cyngor, y tywydd, a diffyg cydweithredu.
- Darparu ar gyfer Pobl Ifanc: Nodwyd her benodol ynghylch a yw digwyddiadau a gwyliau yn Abertawe yn diwallu anghenion pobl ifanc yn ddigonol.

Adran 11: Gweithdai, Sesiynau Galw Heibio a Chyfweliadau 1 i 1

Cynhaliwyd cyfres o weithdai a sesiynau galw heibio ar ddiwedd mis Hydref. Nod y sesiynau oedd dod i gonsensws ynghylch y weledigaeth yn y dyfodol, blaenoriaethau a'r prif yrwyr ar gyfer datblygu'r strategaeth, ynghyd ag adborth ar y dadansoddiad SWOT a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil desg.

Cyflwynwyd crynodeb o'r dadansoddiad SWOT ynghyd ag enghreifftiau o ddatganiadau gweledigaeth a phrif yrwyr thematig ar gyfer newid i gyflawni'r strategaeth. Yn dilyn y gweithdai, anfonwyd crynodeb o'r sleidiau at y rhai a oedd wedi mynegi diddordeb ond nad oeddent yn gallu mynychu, gan roi cyfle iddynt roi adborth neu ofyn am gyfarfod 1 i 1. Gellir dod o hyd i'r sleidiau hynny yn Atodiad D.

Adborth

Isod ceir crynodeb o'r adborth ynghyd â rhai casgliadau a ddefnyddiwyd i fireinio'r SWOT ac i ddatblygu'r prif yrwyr/blaenoriaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer y Strategaeth.

Dyheadau

“Pa ddinas neu ddinasoedd yr hoffech i Abertawe edrych tuag atynt am ysbrydoliaeth?”

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn awgrymu y dylai Abertawe anelu at fod yn ddinas arfordirol fywiog a chyfoethog o ran diwylliant, gan gyfuno treftadaeth ac arloesedd, gyda chyfoeth diwylliannol Barcelona a Lisbon, bywiogrwydd a chynhwysiant Brighton, ochr yn ochr â balchder lleol dilys Caerdydd a Lerpwl. Fodd bynnag, roedd teimlad cryf y dylai Abertawe barhau'n ddilys i'w hunaniaeth ei hun, ac nid efelychu dinasoedd eraill yn unig, ond manteisio ar ei chryfderau ei hun: ei harfordir, ei diwylliant, ei chreadigrwydd a'i chymunedau.

Yn hytrach nag anelu i fod fel dinas arall, y consensws oedd bod angen i Abertawe:

- Ddathlu ei hunaniaeth Gymreig a'i chymeriad glan môr
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng y Bae, Gŵyr a'r ddinas
- Tyfu fel canolfan diwylliant, cerddoriaeth a'r celfyddydau
- Gwella cydweithio rhwng pob parti â diddordeb
- Cynnig ffordd o fyw gynhwysol, sy'n addas i deuluoedd ac yn gynaliadwy
- Bod yn falch o fod yn Abertawe — yn unigryw, yn gadarn ei gwreiddiau ac yn ysbrydoledig

Heriau

Roedd yr adborth yn nodi bod rhaglen digwyddiadau a gwyliau Abertawe yn wynebu heriau seilwaith, cyllid a chydlyn, sy'n cael eu gwaethgu gan sensitifrwydd amgylcheddol a materion canfyddiad y cyhoedd.

Er gwaethaf nifer o unigolion medrus a brwdfrydedd cryf, mae angen dull mwy cydgysylltiedig, cynhwysol a rhagweithiol, gyda ffocws ar raglen fwy amrywiol o ddigwyddiadau, rheolaeth gynaliadwy o ddigwyddiadau, gwell cyfathrebu a chydweithio, marchnata gwell a buddsoddiad mewn trafndiaeth, seilwaith a hyrwyddo.

Y prif heriau a nodwyd oedd:

Seilwaith a Thrafnidiaeth

- Cysylltedd a mynediad gwael, yn enwedig o ran Gŵyr a thrafnidiaeth hwyr yn y nos yn y ddinas. Tynnwyd sylw at yr angen am well trafndiaeth gyhoeddus, cynlluniau trafndiaeth gymunedol posibl, a hyd yn oed ailgyflwyno tramiau i wella hygyrchedd.
- Diffyg safleoedd parcio, costau uchel, a chau ffyrdd yn aml, sy'n gallu atal preswylwyr ac ymwelwyr.
- Llety cyfyngedig, arwyddion annigonol a diffyg cyfleusterau, sy'n effeithio ar allu Abertawe i gynnal digwyddiadau mwy neu rai aml-ddiwrnod.

Sensitifrwydd Amgylcheddol a Chymunedol

- Mae statws Gŵyr fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) yn creu tensiwn sylweddol rhwng trefnwyr digwyddiadau, twf posibl digwyddiadau, a materion diogelu'r amgylchedd.
- Mae effaith gronnol digwyddiadau aml a gorgyffwrdd, yn enwedig yng Ngŵyr, yn achosi aflonyddwch mewn ardaloedd gwledig ac yn rhoi pwysau ar seilwaith, yn ogystal â phrofi ewylllys da'r gymuned hyd at ei therfyn, gan arwain at nifer o gwynion gan drigolion.
- Mae pwysau cynyddol i werthuso a lleihau effaith amgylcheddol drwy arferion rheoli digwyddiadau gwell ar draws pob trefnydd.

Pwysau Cyllidol ac Economaidd

- Mae costau gweithredu cynyddol, ynghyd â natur anghyson a thymor byr llif cyllid, yn bygwth hyfywedd llawer o ddigwyddiadau.
- Mae trefnwyr llai a rhai elusennol yn ei chael yn anodd oherwydd cefnogaeth ariannol gyfyngedig a phrosesau cydymffurfio cymhleth.
- Cafodd meini prawf cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru eu beirniadu fel rhai rhy fiwrocraidd ac yn canolbwyntio ar agweddau ieithyddol yn hytrach nag amrywiaeth ddiwylliannol neu artistig.
- Mae goruchafiaeth y farchnad gan hyrwyddwyr mawr ar draws De Cymru yn effeithio ar gyfleoedd ar gyfer cyngherddau/digwyddiadau mawr ac ar allu trefnwyr lleol i arloesi a chystadlu.

Marchnata a Chyfathrebu

- Mae hyrwyddo anghyson neu hwyr yn arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith trigolion, gan effeithio ar lefelau presenoldeb.
- Roedd galw cryf am ganolfan hyrwyddo ganolog, gyda gwell defnydd o farchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol.
- Mae canfyddiad o sylw negyddol yn y cyfryngau lleol, gyda Abertawe'n aml yn cael ei ystyried yn llai bywiog a deniadol na chyrchfannau cyfagos fel Caerdydd neu Sir Benfro, gan gyfyngu ar ei ddeniad i ymwelwyr a buddsoddwyr.
- Mae diffyg cydnabyddiaeth o fanteision digwyddiadau yn cyfrannu at wrthwynebiad cymunedol.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Mae angen ehangu apêl ddiwylliannol a demograffig digwyddiadau, gan ymgysylltu â theuluoedd, cynulleidfaoedd hŷn a chymunedau mwy amrywiol.
- Nodwyd bod adfywio canol dinas Abertawe drwy ddigwyddiadau creadigol a chynhwysol yn allweddol.
- Ystyrir bod y dirwedd digwyddiadau bresennol yn gul ac yn gorfforol ei natur, yn enwedig gyda ffocws ar ardal Gŵyr.

Diogelwch, Rheoliadau a Chydymffurfiaeth

- Gall trefnwyr cymunedol llai ei chael yn anodd llywio gofynion rheoleiddiol cymhleth (e.e. gwastraff, iechyd a diogelwch, plismona).
- Gall cynllunio diogelwch, gan gynnwys gwrthderfysgaeth, fod angen cydlynw ac adnoddau cryfach, er nad oedd cytundeb llwyr ar hyn.
- Codwyd pryderon ynghylch diffyg plismona a rheoli gwastraff digonol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig yn ystod digwyddiadau ar raddfa fawr.

Heriau Trefniadol

- Gall diffyg cydweithio rhwng adrannau'r Cyngor a gwaith partneriaeth allanol cyfyngedig arwain at ddyblygu ac aneffeithlonrwydd.
- Mae diffyg calendr digwyddiadau neu blatfform gwybodaeth canolog yn arwain at wrthdaro amserlennu a chyfleoedd a gollir ar gyfer hyrwyddo ar y cyd.
- Mae ofn risg a diwylliant biwrocraidd o fewn y llywodraeth yn cael eu nodi'n aml fel rhwystrau i ddatblygu digwyddiadau creadigol sy'n seiliedig ar atebion.

Cryfderau, Cyfleoedd a Photensial Twf

Yn gyffredinol, datgelodd adborth gan drefnwyr digwyddiadau a rhanddeiliaid allweddol Abertawe agwedd optimistaidd ac uchelgeisiol tuag at ddyfodol digwyddiadau a gwyliau. Pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran ethws cymunedol cryf Abertawe, ei hadnoddau diwylliannol a naturiol amrywiol, a'r cydgysylltiad cynyddol rhwng datblygu digwyddiadau, twristiaeth ac adfywio. Er bod llawer yn tynnu sylw at lwyddiannau'r ddinas a'r sir hyd yn hyn, roedd awydd clir am fwy o gydweithio strwythuredig, buddsoddiad uwch mewn seilwaith, ac uchelgais a rennir i greu digwyddiadau unigryw trwy gydol y flwyddyn sy'n gadael etifeddiaeth.

Cryfderau

- Ystyrir bod hanes, treftadaeth ac amgylchedd Abertawe yn asedau allweddol. Mae'r ddinas a'r sir o'i chwmpas yn cynnig amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys y Bae, promenâd y Mwmbwls, canol y ddinas a Gŵyr, sy'n addas ar gyfer digwyddiadau cymunedol a digwyddiadau mawr awyr agored.
- Nododd rhanddeiliaid fod llinellau cyfathrebu byr Abertawe rhwng llywodraeth, yr awdurdod lleol a threfnwyr digwyddiadau yn gryfder allweddol, gan alluogi gwneud penderfyniadau ymatebol a gweithio partneriaeth effeithiol.
- Ceir brwdfrydedd amlwg dros ddigwyddiadau o fewn y Cyngor, gyda chefnogaeth arweinwyr.
- Yn ogystal, mae cynhesrwydd a balchder cymunedau lleol, yn enwedig hunaniaeth Gymreig gref Abertawe a Gŵyr, yn creu awyrgylch croesawgar ac yn sail ddilys ar gyfer dathliadau diwylliannol.
- Teimlai'r cyfranogwyr fod Abertawe'n elwa o rwydwaith cryf o sefydliadau celfyddydol a digwyddiadau profiadol, y mae eu harbenigedd a'u creadigrwydd yn adnodd amhrisiadwy, a bod digwyddiadau presennol eisoes yn arddangos amrywiaeth eang o themâu, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer arloesi a thwf yn y dyfodol.

Cyfleoedd

- Roedd llawer o ymatebwyr yn gweld digwyddiadau fel arf pwerus ar gyfer creu lleoedd, gan adfywio ardaloedd sydd heb eu defnyddio'n llawn neu'n cael eu hanwybyddu, a gyrru adfywiad. Mae brwdfrydedd dros ailsefydlu Gŵyl Fringe Abertawe a chreu profiadau glan môr newydd a gweithgareddau chwaraeon dŵr yn y Bae.
- Mae diddordeb mewn datblygu digwyddiadau hybrid a rhai sy'n canolbwyntio ar ffordd o fyw e.e. traws-dreial triathlon yn seiliedig ar lwybrau a gwyliau lles. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i ddathlu diwylliant Cymreig yn fwy hyderus – yn enwedig drwy gerddoriaeth draddodiadol, dawnys a storïa, ac i ddatblygu llwybrau treftadaeth neu ddiwydiannol newydd sy'n cysylltu gorffennol y ddinas â'r presennol.
- Thema gyson oedd yr angen am well cydweithio ar draws sectorau, gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio mai dim ond un rhan o brofiad yr ymwelydd yw'r digwyddiad ei hun, ochr yn ochr â lle mae pobl yn aros, bwyta a siopa.
- Gallai gwell cydgysylltu rhwng sefydliadau lleol, y brifysgol, sefydliadau diwylliannol a chynghorau rhanbarthol wella safle Abertawe fel cyrchfan ranbarthol.
- Mae cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc yn fwy gweithredol drwy ddatblygu sgiliau, gwirfoddoli a rhaglennu dan arweiniad ieuenctid.
- Mae angen calendr mwy amrywiol hefyd, gan gynnwys digwyddiadau canol wythnos a thymhorau pontio i gydbwyso'r ffocws tymhorol presennol. Anogodd rhanddeiliaid raglennu aml-iaith a hygyrch, gan sicrhau bod digwyddiadau sy'n dathlu diwylliant Cymreig yn agored ac yn gynhwysol i bawb.
- Pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith twristiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n cynnal digwyddiadau awyr agored mawr. Byddai gwella llwybrau a chyfleusterau yng Ngŵyr yn galluogi Abertawe i gynnal ei henw da fel cyrchfan dygnwch drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn â phryderon ynghylch cynaliadwyedd a diogelu'r AONB.
- Mae cyfleoedd i ffurfioli safonau a chymorth drwy Gymorth Cymunedol Cydgysylltiedig (CCS), gan sicrhau cysondeb ac ansawdd mewn rheoli digwyddiadau a chysylltu datblygiad digwyddiadau â mentrau polisi ehangach megis "Balchder yn y Lle", gan atgyfnerthu ymdeimlad o hunaniaeth a rennir ac uchelgais.

Potensial Twf

- Nododd rhanddeiliaid bwysigrwydd olrhain tueddiadau ffordd o fyw i ragweld galw yn y dyfodol. Bydd deall newidiadau mewn lles, cynaliadwyedd ac ymgysylltu digidol yn helpu i lunio rhaglen digwyddiadau fwy ymatebol ac arloesol.
- Mae brwdfrydedd cryf dros ddull "lleol yn gyntaf" sy'n hyrwyddo cynhyrchwyr, masnachwyr, ffermwyr a chyflenwyr crefft lleol.
- Ceir dyhead i symud tuag at brofiadau sy'n creu etifeddiaeth barhaol yn hytrach na digwyddiadau untro, gan atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol Abertawe ynghyd â chefnogi datblygu sgiliau a chryfhau balchder sifig.

- Gallai manteisio'n well ar gysylltiadau â chynhyrchu ffilm, twristiaeth dreftadaeth a phartneriaethau prifysgol helpu i leoli Abertawe fel canolfan greadigol a diwylliannol.

Datganiadau Gweledigaeth

Cafodd pum datganiad gweledigaeth cysyniadol eu cyflwyno i'w hystyried i ddechrau (gweler Atodiad D). Cafodd y rhain eu datblygu o'r ymchwil gychwynnol a'r ymatebion cyntaf i'r arolwg.

- Cafodd y datganiadau ymateb cymysg, gyda phwyslais ar ddathlu'r amgylchedd naturiol, diwylliant a threftadaeth.
- Teimlai'r gweithdy cyntaf gyda threfnwyr digwyddiadau nad oedd y datganiadau o werth mawr, ac nad oeddent yn llwyddo i nodi'n glir beth yw USP neu hunaniaeth Abertawe. Roeddent yn dymuno iaith syml a dealladwy, heb jargon na "buzz words".
- Roedd swyddogion y Cyngor yn fwy lleisiol am y datganiadau, ond yn pwysleisio'r angen i gydbwyso uchelgais â realiti, diogelu amgylchedd naturiol a hanesyddol Abertawe, a chydabod cyfyngiadau capasiti a seilwaith presennol, yn enwedig yng Ngŵyr.
- Yn gyffredinol, teimlwyd bod angen i ddatganiad gweledigaeth llwyddiannus adlewyrchu hunaniaeth Abertawe tra'n cydbwyso uchelgais â realaeth.

Blaenoriaethau ac Ysgogwyr ar gyfer Newid

Cyflwynwyd cyfres o ysgogwyr cychwynnol i'w hystyried (gweler Atodiad D) ynghyd â chymau gweithredu awgrymedig ar gyfer eu cyflawni.

Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r uchelgais i gryfhau cynnig digwyddiadau a gwylliau Abertawe, ond roeddent yn teimlo y dylid symleiddio'r blaenoriaethau, eu diffinio'n well, a'u cysylltu'n agosach. Roedd llawer yn awgrymu y gellid cyfuno'r saith ysgogydd yn nifer llai o themâu eang sy'n cysylltu canlyniadau economaidd, diwylliannol a chymunedol.

- Mae twristiaeth yn bwysig, ond rhaid i ddigwyddiadau wasanaethu preswylwyr ac ddenu buddsoddiad hefyd.
- Dylai digwyddiadau mawr a lleol gydweithio – gan arddangos digwyddiadau "hofrennydd" ochr yn ochr â thalent a lleoliadau lleol.
- Awgrymwyd canolbwyntio ar gynyddu budd lleol – defnyddio cyflenwyr lleol, lledaenu digwyddiadau ar draws y sir, a sicrhau bod cymunedau llai hefyd yn gweld effaith economaidd.

- Galwadau am fodel cyllido cynaliadwy a gwell dealltwriaeth o sut mae manteision economaidd yn cael eu mesur.
- Gall digwyddiadau ddenu talent, preswylwyr a buddsoddwyr i Abertawe.
- Cytundeb eang bod hunaniaeth a phroffil yn greiddiol i strategaeth digwyddiadau Abertawe.
- Peth dryswch ynghylch beth sy'n diffinio “hunaniaeth ddiwylliannol” Abertawe – mae angen ei diffinio a'i gyfleu'n gliriach.
- Awgrymiadau i ddefnyddio eiconau diwylliannol, treftadaeth leol a “momentau Instagram” i greu delwedd unigryw.
- Dylai digwyddiadau adlewyrchu cymeriad trefol ac arfordirol Abertawe, gan gryfhau'r berthynas ag ardal ehangach Gŵyr a meithrin balchder sifig.
- Roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y term “creu lle” (placemaking) – mae angen eglurhad cliriach.
- Mae digwyddiadau yn allweddol i greu “awyrgylch” o ddinas fywiog, brysur gyda harddwch naturiol a bywiogrwydd diwylliannol.
- Galwadau i wella cynnig canol y ddinas (e.e. manwerthu a'r amgylchedd cyhoeddus) i ategu profiadau digwyddiadau.
- Cefnogaeth i ddigwyddiadau tymhorau pontio a digwyddiadau aml-ddiwrnod i gynyddu arosiadau ymwelwyr (e.e. Gŵyl Jazz, Penwythnos Celfyddydau).
- Awgrymiadau ar gyfer Cod Ymddygiad Amgylcheddol mwy gweledol ac effeithiol neu “God Rheoli Digwyddiadau Cyfrifol” – gwirfoddol ond cysylltiedig â chyllid/cymorth.
- Angen meithrin arloesedd a datblygu sgiliau.
- Daeth hunaniaeth a balchder lleol i'r amlwg fel ysgogwyr pwerus i drefnwyr a chyfranogwyr.
- Mae seilwaith a chapasiti (lleoliadau, trafnidiaeth, sgiliau) yn parhau i fod yn heriau sy'n gofyn am fuddsoddiad cydgysylltiedig.
- Infrastructure and capacity (venues, transport, skills) remain challenges that require joined-up investment.

Sylwadau Ychwanegol

- Mae rhai digwyddiadau prif-flaen da yn bodoli, ond mae angen eu hadnewyddu gyda mwy o themâu ‘ymbarél’ a mwy o bobl yn ymgysylltu â'r digwyddiadau hynny.
- Mae angen rheoli digwyddiadau yng Ngŵyr yn well. Dylid ystyried a yw'n bosibl i'r Cyngor drwyddedu digwyddiadau gan eu bod yn rheoli hawliau tramwy?

- Mae golygfa gerddorol a diwylliannol newydd yn dod i'r amlwg heb brinder syniadau, ond mae diffyg adnoddau yn rhwystro eu datblygiad a'u cyflwyno.
- Mae goruchafiaeth bandiau mawr gan Live Nation yn golygu bod angen cynnig/digwyddiad mawr er mwyn denu cynulleidfaoedd o'r dwyrain. Mae costau cynnal cyngherddau byw mawr wedi mwy na dyblu ers Covid, ac mae diffyg hyrwyddwyr sy'n fodlon cymryd risgiau.
- Mae diffyg ymwybyddiaeth o lawer o berfformiadau cerddorol a chorawl a digwyddiadau sy'n cynnwys gweithio gyda phlant a phobl ifanc – yn enwedig drwy'r Gwasanaeth Cerdd (e.e. bandiau pres, bandiau samba, corau, gweithdai drymio).
- Cyfle i adeiladu ar frand Dylan Thomas drwy gysylltu digwyddiadau a gwyliau sy'n adlewyrchu ei gymeriad a phwy oedd ef, yn hytrach na'i waith yn unig.
- Potensial i ddenu twristiaeth gwerth uchel drwy themâu "cynnyrch gwych – lleoedd gwych", gan arloesi brand Cymru.
- Marchnadoedd newydd yn dod i'r amlwg o amgylch y "Profiad Awyr Dywyll" yng Ngŵyr a Pharc Gwledig Penllergare.
- Datblygu digwyddiadau ym Mae Rhosili/Pen-y-Benrhyn (maes parcio mawr) – e.e. gŵyl caneuon môr a bwyd môr, cerddoriaeth glasurol, discos tawel, digwyddiadau cerddoriaeth ar y clogwyn gyda golygfeydd machlud trawiadol.
- Cyfle i adeiladu ar ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo Abertawe fel Dinas Noddfa. Cyfle i ddatblygu Gŵyl Gerddoriaeth a Seiniau – gan gynnwys plant o bob oed yn ymgysylltu â cherddoriaeth mewn lleoliadau arfordirol a diwydiannol amrywiol, gan ganolbwyntio ar greu cerddoriaeth a theimlo'n dda. Mae cefnogaeth ariannol gan y llywodraeth genedlaethol i helpu plant i gael mynediad at brofiadau cerddorol.
- Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn adolygu ei rhaglen digwyddiadau fel rhan o gynlluniau ailddatblygu, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar dreftadaeth ac â hunaniaeth gydlynol, a datblygu'r chwarter morwrol, gan gynnwys Parc yr Amgueddfa.
- Datblygu cyngherddau cerddoriaeth sy'n seiliedig ar frandiau gŵyl yn hytrach nag ar artistiaid unigol, gan alluogi rhannu risgiau yn ehangach rhwng hyrwyddwyr.
- Edrych ar gyfleoedd i weithio gyda Theatr Genedlaethol Cymru i gysylltu eu gwaith â digwyddiadau presennol neu newydd.
- Cyfle i gysylltu digwyddiadau a gwyliau â'r gwaith adfywio ar lan yr afon (e.e. Gwaith Copr Hafod a safle gorsaf St Thomas) yn ogystal â safle'r Ganolfan Ddinesig, gan gynnig cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer defnydd cymysg a gweithgareddau digwyddiadau mewn mannau cyhoeddus sy'n wynebu'r arfordir.

Adran 12: Dadansoddiad SWOT

Mae'r dadansoddiad hwn yn dwyn ynghyd y prif ganfyddiadau o'r ymchwil desg, yr arolygon a'r gweithdai.

Cryfderau

Effaith Economaidd Grym a Thwristiaeth Drwy'r Flwyddyn

- Mae rhai bylchau yn y calendr lle gellid lleoli digwyddiadau. Mae 4.7 miliwn o ymwelwyr, yn cynnal 5,400 o swyddi. Incwm twristiaeth 2024: £658 miliwn.
- Mae digwyddiadau'n cael eu cydnabod fel arf pwerus ar gyfer adfywio economaidd a gosod Abertawe fel cyrchfan ffyniannus.

Amgylchedd Naturiol Gwych

- Mae Abertawe'n adnabyddus am ei arfordir trawiadol, ei draethau (e.e. Bae Rhosili), ei pharciau, a Phenrhyn Gŵyr cyfagos — yn ddelfrydol ar gyfer gwyliau awyr agored, cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon a lles. Lle mae'r "ddinas yn cwrdd â'r môr", gan gynnig lleoliadau naturiol ac adeiledig o safon.

Hunaniaeth Ddiwylliannol a Hanesyddol

- Gellir integreiddio treftadaeth a diwylliant cryf lleol (e.e. etifeddiaeth Dylan Thomas, Castell Abertawe) i ddigwyddiadau thematig awyr agored.
- Mae brwdfrydedd amlwg o fewn y Cyngor a chefnogaeth gan arweinwyr. Mae cynhesrwydd a balchder cymunedau lleol, yn enwedig hunaniaeth Gymreig gref, yn darparu sail ddilys ar gyfer dathliadau diwylliannol.

Seilwaith Presennol

- Mae lleoliadau fel Parc Singleton, Parc yr Amgueddfa a chanol y ddinas yn cynnig seilwaith presennol addas ar gyfer llwyfannu a logisteg.
- Arbenigedd Trefniadol a Chyfathrebu: Mae Abertawe'n elwa o rwydwaith cryf o sefydliadau celfyddydol a digwyddiadau profiadol. Nododd rhanddeiliaid fod llinellau cyfathrebu byr rhwng llywodraeth, yr awdurdod lleol a threfnwyr yn gryfder amlwg.

Grwpiau Cymunedol Gweithgar a Thalent Leol

- Cronfa gyfoethog o artistiaid, cerddorion, perfformwyr a chlybiau chwaraeon sy'n barod i gyfrannu at gyfleoedd digwyddiadau awyr agored. Cynulleidfaoedd amrywiol a golygfa gerddorol fywiog, gyda fforymau cydweithredol.

Calendr Digwyddiadau Da

- Mae Abertawe'n cael ei ystyried yn lle da i fynychu digwyddiadau a gwyliau, gyda theuluoedd yn cael eu gwasanaethu'n dda.
- Mae digwyddiadau presennol yn alinio â'r 7 nod Llesiant.
- Proffil cryf o ddigwyddiadau chwaraeon e.e. Ironman 70.3; Admiral Bae Abertawe 10K; triathlonau.
- Mae'r calendr yn cynnwys digwyddiadau bywiog fel Sioe Awyr Cymru; Gŵyl Jazz Ryngwladol Abertawe; gwyliau bwyd a diod; Tunes on the Bay.
- Mae ffocws ar deuluoedd a phresenoldeb uchel mewn digwyddiadau fel y Sioe Awyr, digwyddiadau chwaraeon (fel cyfranogwyr), digwyddiadau teuluol, digwyddiadau tymhorol a cherddoriaeth fyw.

Ymroddiad y Cyngor

- Cefnogaeth gadarn gan y Cyngor i bortffolio digwyddiadau i godi proffil y ddinas a chefnogi busnesau a'r gymuned.

Gwendidau

Bylchau Tymhorol a Rhaglennu

- Gallai mwy o ddigwyddiadau gael eu cynnal yn ystod y tymhorau pontio.
- Defnydd annigonol o'r Bae ar gyfer chwaraeon dŵr.
- Prin yw'r digwyddiadau cymunedol awyr agored yn y ddinas ei hun sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant/treftadaeth Gymreig ac sy'n dangos hunaniaeth unigryw Abertawe.
- Diffyg digwyddiadau cyrchfan.
- Her benodol ynghylch a yw digwyddiadau'n diwallu anghenion pobl ifa

Cysylltedd Cyfyngedig

- O'i gymharu â dinasoedd mawr yn y DU, mae gan Abertawe gysylltiadau awyr a rheilffyrdd cyfyngedig, a all effeithio ar nifer yr ymwelwyr.

- Cysylltedd lleol gwael, yn enwedig o ran Gŵyr a thrafnidiaeth hwyr yn y nos. Diffyg parcio, costau uchel, a chau ffyrdd yn aml. Llety cyfyngedig, arwyddion annigonol a diffyg cyfleusterau sy'n cyfyngu ar allu cynnal digwyddiadau mwy neu aml-ddiwrnod.

Pwysau Ariannol

- Mae'r Cyngor a threfnwyr digwyddiadau yn wynebu pwysau ariannol i gyflwyno digwyddiadau uchelgeisiol.
- Lleihad mewn cyllid allanol a nawdd.

Gwerthuso Digwyddiadau

- Dealltwriaeth gyfyngedig o broffil presennol y gynulleidfa ac o effaith economaidd a chymdeithasol digwyddiadau.
- Diffyg eglurder ynghylch uchelgeisiau datblygu digwyddiadau yn y dyfodol.

Rhwystrau Gweithredol a Rheoleiddiol

- Angen adeiladu capasiti drwy fwy o gydweithio rhwng adrannau, yn enwedig ym maes datblygu diwylliannol a phartneriaethau.
- Mae trefnwyr llai ac elusennol yn ei chael yn anodd delio â gofynion rheoleiddiol cymhleth.

Hyrwyddo a Marchnata

- Mae anghydbwysedd canfyddedig rhwng digwyddiadau a hyrwyddir gan y Cyngor a digwyddiadau cymunedol/allanol, a all effeithio ar bresenoldeb.
- Canfyddiad o sylw negyddol yn y cyfryngau lleol, gyda Abertawe'n aml yn cael ei ystyried yn llai bywiog na chyrchfannau cyfagos fel Caerdydd.

Cyfleoedd

Datblygu Rhaglen

- Datblygu digwyddiadau cyrchfan e.e. treftadaeth forwrol, lles y gwanwyn, digwyddiadau Diaspora
- Mae cyfleoedd i ddathlu diwylliant Cymreig yn fwy hyderus drwy gerddoriaeth draddodiadol, dawnys a storïa. Mae potensial i fanteisio'n well ar gysylltiadau â Dylan Thomas. Gellir datblygu digwyddiadau sy'n adeiladu ar Abertawe fel Dinas Noddfa

- Mireinio'r amserlen digwyddiadau i ddiwallu disgwyliadau cynulleidfaoedd lleol a rhanbarthol allweddol e.e.: profiadau teuluol o safon uchel â thocyn; digwyddiadau cymdeithasol trefol cost isel/am ddim; digwyddiadau diwylliannol a thraddodiadol gwerth uchel/unigryw; digwyddiadau cymunedol a diwrnodau hwyl am ddim
- Diddordeb cryf mewn gweld digwyddiadau'n cynnwys chwaraeon dŵr, gwyliau comedi a ffilm, teithiau cerdded trefol, garddwriaeth, arddangosfeydd tân gwyllt (y tu allan i fis Tachwedd)
- Datblygu digwyddiadau sy'n cynyddu hygyrchedd i gynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, e.e. pobl hŷn fwy cefnog, unigolion anabl, cymuned LGBTQ
- Amrywio a symud y calendr: angen calendr mwy amrywiol, gan gynnwys digwyddiadau canol wythnos a thymhorau pontio. Cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc drwy ddatblygu sgiliau, gwirfoddoli a rhaglenni dan arweiniad ieuenctid

Partneriaethau gyda Phrifysgolion a'r Sector Breifat

- Cyd-drefnu neu gyd-ariannu digwyddiadau drwy bartneriaethau academiaidd neu fusnes lleol (e.e. expos technoleg, arddangosfeydd cychwyn busnes, ffeiriau gyrfa)
- Cyfleoedd am fwy o gydweithio drwy Grŵp Llywio DMP, Abertawe BID a chynrychiolwyr diwylliannol a chymunedol o'r Grŵp Strategaeth Ddiwylliant
- Gwell cydweithio ar draws sectorau gyda dyhead i symud tuag at brofiadau sy'n creu etifeddiaeth barhaol

Digidol a Digwyddiadau Hybrid

- Defnyddio llwyfannau digidol ar gyfer ffrydio neu wella digwyddiadau awyr agored gyda AR/VR, gan wella cyrhaeddiad a hygyrchedd, a datblygiadau arloesol megis digwyddiadau hybrid, gemau a e-chwaraeon
- Cysylltu digwyddiadau awyr agored gydag elfennau dan do

Cyllid gan Gyrff Celfyddydol a Threftadaeth

- Potensial i gael mynediad at gyllid gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Celfyddydau ar gyfer adfywio dan arweiniad diwylliant
- Cyllid i wella seilwaith – e.e. cyllid diweddar “Balchder yn y Lle”

Poblogaeth Prifysgol a Myfyrwyr

- Sylfaen gynulleidfa ifanc a bywiog o Brifysgol Abertawe a sefydliadau eraill, gyda chyfleoedd i raglennu digwyddiadau apelgar yn ystod tymhorau dysgu, y tu allan i brig yr haf

Amrywiaeth o gynnyrch lleol i hyrwyddo hunaniaeth leol

- Manteisio ar gyfleoedd i gysylltu cynhyrchwyr, crefftwyr a masnachwyr lleol â digwyddiadau presennol a newydd, gan gysylltu'r ddinas â'r ardaloedd gwledig

Cefnogi Ymgysylltu Cymunedol Cynhwysol

- Manteisio ar gyfleoedd i gysylltu cynhyrchwyr, crefftwyr a masnachwyr lleol â digwyddiadau presennol a newydd, gan gysylltu'r ddinas â'r ardaloedd gwledig Cefnogi Ymgysylltu Cymunedol Cynhwysol
- Cefnogi datblygiad digwyddiadau, yn enwedig o ran datblygu sgiliau a gwydnwch (ansawdd swyddi)
- Cefnogi mwy o sefydliadau ar lawr gwlad
- Datblygu digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chymdogaethau â hunaniaeth ddiwylliannol gref e.e. Gŵyl Lenyddiaeth
- Manteisio ar asedau diwylliannol cyfoethog Abertawe megis Dylan Thomas, cerddoriaeth, y celfyddydau gweledol a threftadaeth forwrol i greu digwyddiadau sy'n dathlu naratif unigryw'r ddinas

Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

- Meincnodi yn erbyn enghreifftiau Ewropeaidd o ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo arferion eco-gyfeillgar megis effeithlonrwydd ynni, economi gylchol a theithio gweithredol
- Mae diddordeb cynyddol mewn teithio cynaliadwy a lles yn gyfle i gefnogi ymrwymiad y Cyngor i fod yn gadarnhaol i natur erbyn 2030

Gwelliannau Logistaidd a Hyrwyddo

- Gellir cynyddu presenoldeb drwy well rheoli traffig, trafnidiaeth gyhoeddus amlach, mwy o hyrwyddo, a gwybodaeth ar-lein well. Mae galw cryf am ganolfan hyrwyddo ganolog
- Cyfleoedd i wella profiad ymwelwyr drwy ddarparu mwy o gyfleusterau lles, diogelwch gwell mewn digwyddiadau, mannau tawel (lloches), a gwell cyfleusterau ac hygyrchedd i bobl anabl

Creu Lleoedd ac Adfywio

- Mae digwyddiadau'n cael eu hystyried yn arf pwerus ar gyfer creu lleoedd, adfywio ardaloedd heb eu defnyddio'n llawn, a gyrru adfywiad. Mae cyfleoedd i greu profiadau glan môr newydd a chysylltu digwyddiadau â datblygiadau ar lan yr afon (e.e. Gwaith Copr Hafod)

Bygythiadau

Newid Hinsawdd ac Effaith Amgylcheddol

- Risg cynyddol o ddigwyddiadau tywydd eithafol
- Gall opsiynau trafndiaeth gynaliadwy cyfyngedig a dibyniaeth uchel ar geir gyfyngu ar uchelgais ar gyfer digwyddiadau cyrchfan yn y dyfodol
- Mae angen cydbwyso digwyddiadau yng Ngŵyr â'r effaith ar amgylchedd sensitif a rhwydweithiau trafndiaeth cyfyngedig

Cystadleuaeth gan Ddinasoedd a Rhanbarthau Eraill

- Gall Caerdydd, Bryste a chanolfannau rhanbarthol eraill ddenu actau/gwyliau mwy gan hyrwyddwyr mawr oni bai bod Abertawe'n cynnig cynnig gwerth unigryw

Gwrthwynebiad i Ddatblygu Digwyddiadau Newydd

- Gall sŵn, sbwriel, tagfeydd traffig a gorfasnacheiddio greu gwrthwynebiad lleol a rhaid eu rheoli'n ofalus ● Mae angen i ddigwyddiadau ddangos cynaliadwyedd i osgoi gwrthdaro neu wrthwynebiad cymunedol

Dirywiad Economaidd

- Gall dirywiad economaidd fygwth datblygiad digwyddiadau newydd a phresenoldeb mewn digwyddiadau presennol, oherwydd llai o wariant defnyddwyr, yr argyfwng costau byw parhaus, costau cynyddol llwyfannu digwyddiadau, a gostyngiad mewn nawdd

Gofynion Rheoleiddiol Cynyddol

- Pwysau ar drefnwyr digwyddiadau oherwydd gofynion rheoleiddiol cynyddol, yn enwedig mewn perthynas ag arferion amgylcheddol

Ansefydlogrwydd Strwythurol mewn Cyllid

- Risg systemig o gyllido: mae natur anghyson a thymor byr llif cyllid yn bygwth hyfywedd llawer o ddigwyddiadau presennol

Dominiaeth y Farchnad

- Mae dominiaeth hyrwyddwyr mawr ar draws De Cymru yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer cyngherddau/digwyddiadau mawr ac yn lleihau gallu trefnwyr lleol i arloesi a chystadlu. Mae costau cynnal cyngherddau wedi mwy na dyblu

Canfyddiad Allanol

- Mae canfyddiad o sylw negyddol yn y cyfryngau lleol yn cyfyngu ar apel y ddinas i ymwelwyr a buddsoddwyr o'i gymharu â chyrchfannau cyfagos

Blaenoriaethau Strategol Allweddol

- *Gwahaniaethu*: Manteisio ar harddwch naturiol Abertawe a Gŵyr i gynnig profiadau unigryw, eco-ymwybodol – lle mae “y ddinas yn cwrdd â'r môr” drwy hyrwyddo Twristiaeth a Chreu Lleoedd
- *Amrywio*: Datblygu calendr trwy'r flwyddyn o ddigwyddiadau awyr agored sy'n targedu demograffeg wahanol (e.e. teuluoedd, myfyrwyr, twristiaid, diaspora)
- *Lleihau effaith tymhorol*: Ystyried digwyddiadau ym mis Ebrill a mis Medi
- *Hyrwyddo'n Glyfar*: Defnyddio marchnata digidol a PR rhanbarthol i adeiladu brand Abertawe fel cyrchfan arweiniol ar gyfer digwyddiadau awyr agored yng Nghymru
- *Hyrwyddo Dylunio Cynaliadwy a Hygyrch*: Gwneud hyn yn USP i ddatblygiad portffolio newydd
- *Ehangu'r hyn sy'n gweithio*: Mae profiad clir o reoli digwyddiadau yn darparu arbenigedd cryf
- *Cefnogi Gweithgareddau Cymunedol Cynhwysol*: Cynyddu cyfranogiad cymunedol o'r gwaelod i fyny, gan gefnogi lles a chymunedau
- *Mwyhau Effaith Economaidd Digwyddiadau*: Blaenoriaethu digwyddiadau 'angor'
- *Cryfhau Proffil a Hunaniaeth Ddiwylliannol Abertawe*: Buddsoddi mewn gwyliau brodorol a rhaglenni unigryw, gan gynnwys rhaglenni traws-genre (celf + bwyd + chwaraeon)
- *Cyflwyno Digwyddiadau Cynaliadwy a Chyfrifol*: Cyflwyno “Siarter Digwyddiadau Gwyrdd” ar gyfer pob digwyddiad a gefnogir gan y Cyngor (gwastraff, ynni, trafnidiaeth)
- *Meithrin Arloesedd a Datblygu Sgiliau*: Annog digwyddiadau hybrid a datblygu partneriaethau mewn addysg
- *Cryfhau Llywodraethu, Partneriaethau a Buddsoddiad*: Sefydlu partneriaeth digwyddiadau ar lefel dinas (sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector). Cynyddu cydweithio rhwng y Cyngor, grwpiau cymunedol, prifysgolion a busnesau lleol i wneud y mwyaf o adnoddau a chynyddu cyrhaeddiad

O'r dadansoddiad SWOT uchod, datblygwyd strategaethau ymarferol gyda blaenoriaethau strategol cysylltiedig ac ysgogwyr ar gyfer newid, a gaiff eu hamlinellu ymhellach yn y Strategaeth.

Atodiad B

Portffolio Digwyddiadau a Fframwaith Buddsoddi Abertawe

1. Pwrpas

Y Portffolio Digwyddiadau Abertawe yw'r rhaglen gyfunol o wyliau, digwyddiadau a gweithgareddau cyfranogiad torfol sy'n cael eu cynnal ar draws Abertawe a'r sir ehangach (gan gynnwys Gŵyr), wedi'i reoli fel un portffolio er mwyn:

- Mwyhau effaith economaidd digwyddiadau a thyfu'r economi ymwelwyr, gan gefnogi busnesau lleol
- Gwella proffil a hunaniaeth ddiwylliannol Abertawe
- Cefnogi cymunedau a lles, a gwella ansawdd bywyd
- Cyflwyno digwyddiadau cynaliadwy a chyfrifol
- Sicrhau'r defnydd gorau o gyllid a buddsoddiad cyfyngedig drwy flaenoriaethau clir

Mae'r fframwaith hwn yn nodi sut mae digwyddiadau'n cael eu dosbarthu a sut y gwneir penderfyniadau buddsoddi.

2. Haenau'r Portffolio

Caiff digwyddiadau eu grwpio i bedair haen yn seiliedig ar eu maint, eu cyrhaeddiad a'u pwysigrwydd strategol (mae'r enghreifftiau at ddibenion darluniadol yn unig):

Haen 1 – Digwyddiadau Cyrchfan

- Cynulleidfaoedd mawr, cyrhaeddiad rhanbarthol/cenedlaethol, effaith economaidd a phroffil uchel
- Fel arfer yn rhad ac am ddim neu'n gyfuniad o incwm, gyda gofynion seilwaith sylweddol
- Enghreifftiau: Sioe Awyr Cymru

Haen 2 – Digwyddiadau Twf Strategol

- Hunaniaeth gref a deniad rhanbarthol; potensial twf clir
- Yn cefnogi sectorau blaenoriaeth (diwydiannau creadigol, twristiaeth, economi wledig, chwaraeon)

- Enghreifftiau: Admiral 10K Bae Abertawe, IRONMAN 70.3 Abertawe, Nadolig yn Abertawe, Penwythnos Celfyddydau Abertawe, Gŵyl Fringe Abertawe, Tunes on the Bay, Croeso, Gŵyl Jazz Ryngwladol, Love Trails, Sioe Gŵyr

Haen 3 – Digwyddiadau Angor Lleol a Chymunedol

- Yn bennaf ar gyfer cynulleidfaoedd lleol, gyda ffocws cryf ar gymuned a chymdogaeth
- Yn atgyfnerthu balchder lleol, cynhwysiant a chyfranogiad
- Enghreifftiau: Gŵyl Amplitude, Sioe Gŵyr, Gŵyl Gerdded Gŵyr, Croeso, gwyliau cymunedol a digwyddiadau diwylliannol a threftadaeth lleol

Haen 4 – Micro / Arbrofol a Digwyddiadau Pop-Up

- Prosiectau bach arbrofol ac ymyriadau creadigol, yn aml mewn mannau anghonfensiynol
- Defnyddir i brofi syniadau, lleoliadau a fformatau newydd cyn eu datblygu ymhellach

3. Rôl y Digwyddiadau

Dylai pob digwyddiad a gefnogir gael o leiaf un rôl sylfaenol o fewn y portffolio:

- *Yrrwr Economi Ymwelwyr* – denu ymwelwyr dydd ac aros dros nos; cefnogi llety, lletygarwch a manwerthu
- *Ysgogydd Canol y Ddinas a'r Lanfor* – cynyddu troedffall ac amser aros mewn canolfannau trefol a dinas
- *Brandio a Storia* – arddangos hunaniaeth unigryw Abertawe/Gŵyr, ei dirwedd, diwylliant, treftadaeth a'i Chymreictod
- *Cyfranogiad a Lles* – hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol, gwirfoddoli, cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol, a gweithgareddau teuluol
- *Datblygu Sector* – cefnogi diwydiannau creadigol lleol, cynhyrchwyr bwyd a diod, gweithwyr proffesiynol digwyddiadau a sectorau allweddol eraill

4. Meini Prawf Ariannu a Buddsoddi

Bydd pob asesiad o gyllid yn ystyried: haen y digwyddiad, ei rôl/rôlau sylfaenol, a'i berfformiad yn erbyn y meini prawf canlynol:

Ffit Strategol – Cydweddiad â blaenoriaethau a strategaethau'r Cyngor (economaidd, diwylliannol, twristiaeth, iechyd a llesiant, hinsawdd) ac â brand Abertawe

Effaith Economaidd – Potential realistig i gynhyrchu gwariant ymwelwyr, cyfleoedd busnes a swyddi; cyfraniad i fywiogrwydd canol tref/dinas neu economïau gwledig

Effaith Gymdeithasol a Chynhwysiant – Cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad, gwirfoddoli a datblygu sgiliau; cyrhaeddiad i gymunedau amrywiol ac anfanteisiol; gwelededd y Gymraeg a diwylliant Cymreig

Effaith Brand a Phroffil – Y gallu i hyrwyddo Abertawe/Gŵyr yn gadarnhaol i drigolion ac ymwelwyr; potensial i'r cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol; cynnwys 'llofnod'

Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Safon Lle – Mesurau amgylcheddol synhwyrol (gwastraff, trafnidiaeth, ynni); parch at gymunedau lleol ac amgylcheddau sensitif, yn enwedig yng Ngŵyr

Cyflawnadwyedd a Risg – Gallu'r trefnydd, llywodraethu a hanes blaenorol; cyllideb gadarn; cynllunio iechyd a diogelwch; cyfateb cyllid a chynhyrchu incwm

Ffit y Portffolio – Cyfraniad **at gydbwysedd y calendr** (tymhoroldeb), **dosbarthiad daearyddol** (dinas, arfordir, gwledig, cymoedd), a **chymysgedd cynulleidfao/genre** (e.e. teuluoedd, pobl ifanc, pobl hŷn, gwahanol ffurfiau celf)

Gall pwysoliad y meini prawf amrywio yn ôl haen (e.e. mwy o bwyslais ar Effaith Economaidd/Brand ar gyfer Haen 1; mwy o bwyslais ar Effaith Gymdeithasol/Cyfranogiad ar gyfer Haenau 3–4).

5. Bandiau Ariannu a Disgwyliadau

Paramedrau cyllido cyhoeddus dangosol (i'w mireinio):

Haen 1 – Prif Ddigwyddiadau (Flagship)

Cytundebau mwy, yn aml dros sawl blwyddyn.

Cyllid cyhoeddus hyd at ganran ddiffiniedig o'r gyllideb gyfan (e.e. hyd at 40–50%).

Angen cynlluniau busnes manwl a gwerthusiad o effaith economaidd a chymdeithasol.

Haen 2 – Twf Strategol

Cymorth amser cyfyngedig (e.e. 2–3 blynedd) gyda chyfraniad cyhoeddus sy'n lleihau'n raddol (e.e. hyd at 30–40%).

Cynlluniau twf a datblygu cynulleidfaoedd clir; gofyniad i gynyddu incwm o fasnach a nawdd.

Haen 3 – Digwyddiadau Angor Lleol

Grantiau llai (e.e. hyd at derfyn penodol) ynghyd â chymorth mewn nwyddau (cyngor, lleoliadau, hyrwyddo, rheoli traffig lle bo'n briodol). Ymgeisio ac adroddiad symlach, gyda ffocws ar fudd cymunedol a chynhwysiant.

Haen 4 – Micro / Arbrofol

Grantiau bach gyda phroses ysgafn.

Ffocws ar arloesi, dysgu a llenwi bylchau yn y calendr neu'r daearyddiaeth, yn hytrach na KPIs llym.

6. Llywodraethu ac Adolygu

- Caiff blaenoriaethau buddsoddi eu hadolygu a'u cytuno gan SEPB, gan gyd-fynd â'r strwythurau llywodraethu presennol neu'r sefydliadau a gynrychiolir ar y Bwrdd
- Bydd "adolygiad portffolio" blynyddol yn:
 - Mapio digwyddiadau ar draws haenau, rolau, tymhorau a lleoliadau
 - Nodi bylchau (e.e. gweithgareddau cynnar yn y flwyddyn, darpariaeth mewn ardaloedd gwledig/cymoedd, cynulleidfaoedd neu ffurfiau celf penodol)
 - Llywio blaenoriaethau cyllido yn y dyfodol, datblygu partneriaethau a cheisiadau am ddigwyddiadau rhanbarthol/cenedlaethol

7 Templed Amlinelliad Sgorio Meini Prawf

Maen Prawf

1. Cydweddiad Strategol

2. Effaith Economaidd

3. Effaith Gymdeithasol a Chynhwysiant

4. Effaith Brand a Phroffil

5. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

6. Cyflawnadwyedd a Risg

7. Ffit y Portffolio

Pethau i'w Hystyried

Cyd-fynd â strategaethau'r Cyngor a strategaethau cenedlaethol y DU

Nifer yr ymwelwyr, gwariant, twf busnes

Cyfranogiad, gwirfoddoli, cydraddoldeb, y Gymraeg

Cyfyngau, storïa, potensial 'llofnod'

Gwastraff, teithio, sensitifrwydd Gŵyr

Hanes blaenorol, cyllideb, diogelwch

Tymor, lleoliad, bylchau yn y gynulleidfa

Pwysoliad yn ôl Haen (i'w adolygu'n flynyddol)

Haen

1 – Prif Ddigwyddiadau (Flagship)

2 – Twf

3 – Digwyddiadau Angor Lleol

4 – Arbrofol

Cyfarwyddyd Pwysoli

Blaenoriaethu Effaith Economaidd, Brand, Cyflawnadwyedd

Blaenoriaethu Effaith Economaidd, Ffit y Portffolio, Datblygu Sector

Blaenoriaethu Effaith Gymdeithasol a Chynhwysiant

Blaenoriaethu Arloesedd a Ffit y Portffolio

Atodiad C – Fframwaith Amlinellol Perfformiad a Rheoli



Blaenoriaeth Strategol 1 – Cyflwyno'r Digwyddiadau Cywir – ar gyfer Dinas a Sir Abertawe		
Dimensiwn	Allbynnau	Canlyniadau – Sut olwg sydd ar Lwyddiant
Economi Ymwelwyr / Effaith Economaidd	- Nifer flynyddol o arosiadau dros nos sy'n gysylltiedig â digwyddiadau (nosweithiau gwely) - Gwariant ymwelwyr cyfartalog a chyfanswm fesul digwyddiad ac yn flynyddol (llety, bwyd a diod, manwerthu, trafnidiaeth, gwasanaethau lleol) - Ymestyn y tymor twristiaeth: nifer / % y digwyddiadau y tu allan i'r tymor brig; nifer ymwelwyr / gwariant yn ystod y tymor tawel - Cyfraddau llenwi gwestai/llety lleol yn ystod cyfnodau digwyddiadau o gymharu â chyfnodau heb ddigwyddiadau - Cysylltiad â "Chynllun Cychfan Digwyddiadau Abertawe" a dangosyddion perfformiad blynyddol	Economi ymwelwyr gryfach, wedi'i ddangos gan fwy o arosiadau dros nos, gwariant ymwelwyr uwch, tymhorau estynedig a thwristiaeth drwy'r flwyddyn

Portffolio Digwyddiadau a Brandio Cyrchfan	• Nifer a math o “ddigwyddiadau cyrchfan” o fewn y portffolio blynyddol – wedi’u rhannu yn ôl categori (e.e. sioe awyr, gwyliau diwylliannol, digwyddiadau dygnwch, cyn-Nadolig, treftadaeth, cymunedol) • Presenoldeb / cyrhaeddiad digwyddiadau allweddol (cyfanswm, tarddiad y gynulleidfa – lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol) • Sylw yn y cyfryngau, crybwylladau yn y wasg, cyrhaeddiad/ymgysylltiad cyfryngau cymdeithasol • Dosbarthiad digwyddiadau ar draws y tymhorau	• Portffolio adnabyddus a nodedig o ddigwyddiadau cyrchfan sy’n denu cynulleidfaoedd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol • Calendr blynyddol cytbwys sy’n cefnogi llety, lletygarwch a busnesau lleol trwy gydol y flwyddyn
--	---	--

Creu Lleoedd ac Actifadu Mannau	• Mesur canfyddiad/hunaniaeth brand ymhlith ymwelwyr a thrigolion • Nifer y digwyddiadau mewn mannau cyhoeddus • Flow ymwelwyr mewn mannau cyhoeddus yn ystod digwyddiadau • Amrywiaeth o fathau o ddigwyddiadau yn ôl lleoliad (canol dinas, arfordir, gwledig ac ati)	• Mannau cyhoeddus bywiog ac wedi'u hadfywio ar draws y ddinas, y glannau a'r ardaloedd ehangach, yn cynnal gweithgareddau diwylliannol croesawgar yn rheolaidd
Cynhwysiant Cymdeithasol a Chymunedol	• Y digwyddiadau gyda rhaglenni ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol • Demograffeg cyfranogiad y gynulleidfa • Bodlonrwydd trigolion a theimlad o berthyn / balchder • Mesurau hygyrchedd (cyfleusterau, prisiau, mynediad)	• Abertawe'n cael ei chydabod yn genedlaethol fel cyrchfan digwyddiadau hygyrch, cynhwysol, gwydn ac o ansawdd uchel, gyda chymeriad diwylliannol unigryw wedi'i wreiddio yn ei straeon, ei hiaith, ei thirwedd a'i hunaniaeth ar lan y dŵr • Mynediad ehangach a mwy teg i ddigwyddiadau ar gyfer cymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws cymdogaethau, maestrefi, cyn ardaloedd diwydiannol, pentrefi gwledig a Gŵyr, gan gyfrannu at well lles cymdeithasol a meddyliol

Diwylliant a Datblygiad ar gyfer Digwyddiadau	• Nifer yr artistiaid / perfformwyr / sefydliadau creadigol lleol sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau bob blwyddyn • Nifer y cyfleoedd a greir: gweithdai, arddangosfeydd, rhaglenni sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, interniaethau, hyfforddiant sy'n gysylltiedig â digwyddiadau • Ymgysylltiad ailadroddus / datblygiad gyrfa: olrhain unigolion (artistiaid, gwirfoddolwyr, criw) sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau lluosog neu'n symud ymlaen i rolau proffesiynol	• Cydlyniant cymunedol a balchder mewn lle yn gryfach, wedi'i adlewyrchu mewn cynnydd mewn cyfranogiad, ymddiriedaeth, ymdeimlad o berthyn a hyder diwylliannol ymhlith trigolion • Hunaniaeth ddiwylliannol glir i Abertawe, gyda naratif sy'n weladwy drwy ddigwyddiadau ac sy'n siapiaio canfyddiadau cadarnhaol o'r ddinas a'r sir • Ecosystem greadigol ffyniannus gyda mwy o gyfleoedd i artistiaid lleol, perfformwyr, sefydliadau diwylliannol a phobl ifanc ddatblygu sgiliau, arddangos talent a symud ymlaen i yrfaeodd creadigol
Local Economy and Local Procurement	• % y caffaeliadau digwyddiadau (nwyddau a gwasanaethau) a gontractir i gyflenwyr lleol / BBaChau / mentrau cymdeithasol / cynhyrchwyr Cymreig • Gwerth (£) neu % y caffaeliadau sy'n mynd at gyflenwyr lleol o'i gymharu â chyflenwyr allanol • Nifer y digwyddiadau sy'n defnyddio seilwaith / gwasanaethau lleol ar y cyd (lleoliadau a rennir, arlwyio lleol, cadwyn gyflenwi leol)	• Economi gylchol gryfach, gyda chaffael lleol cynyddol, cadwyni cyflenwi lleol, ail-fuddsoddi refeniw, a gwerth economaidd a chymdeithasol cliriach i gymunedau

Evidence	• Tystiolaeth o ystyriaethau amgylcheddol ar draws pob digwyddiad (e.e. rheoli gwastraff, trafnidiaeth a chynllunio teithio effaith isel, diogelu asedau naturiol yn enwedig Gŵyr / yr arfordir) • Adroddiadau monitro a gwerthuso rheolaidd: nifer y digwyddiadau a werthusir (% o'r cyfanswm), cyfradd cydymffurfio archwiliadau, cyhoeddi crynodebau yn amserol • Ymgysylltu rhanddeiliaid a phartneriaid: nifer y partneriaid (busnes, lletygarwch, cymuned, celfyddydau) sy'n cymryd rhan, nifer y partneriaethau / cydweithrediadau ffurfiol newydd bob blwyddyn • System ddata / dangosfwrdd ar waith i gasglu data'r portffolio digwyddiadau (presenoldeb, economaidd, gofodol, cymunedol, amgylcheddol) ar gyfer dadansoddi a chynllunio • Baich ar y seilwaith a'r amgylchedd o'i gymharu â'r capasiti: nifer y digwyddiadau effaith uchel o'i gymharu â digwyddiadau llai effaith; monitro gorlenwi posibl, straen amgylcheddol ac aflonyddwch i gymunedau	• Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, gyda monitro a gwerthuso yn llywio buddsoddiad, partneriaethau a chynllunio hirdymor
------------------------	---	---



Blaenoriaeth Strategol 2 – Cychfan Gyfeillgar i Bartneriaid... Hawdd Cynnal Digwyddiadau Yma!		
Dimensiwn	Allbynnau	Canlyniadau – Sut olwg sydd ar Lwyddiant
Llywodraethu a Chydweddiad Strategol	- Bodolaeth SEPB ac SEV sydd wedi'u halinio â'r Strategaeth Ddiwylliannol / Digwyddiadau gyffredinol - Graddau o gydweddiad strategol: % y digwyddiadau / penderfyniadau sy'n cael eu cymeradwyo drwy'r corff llywodraethu ar y cyd o'i gymharu â phenderfyniadau ad hoc unigol - Mesurau tryloywder ac atebolrwydd: adrodd cyhoeddus ar benderfyniadau, cofnodion hygyrch i'r cyhoedd, meini prawf a blaenoriaethau buddsoddi clir ar gyfer SEPB ac SEV	Strwythur llywodraethu cryf a thryloyw sydd wedi'i alinio â'r Strategaeth Ddiwylliant, gan alluogi gwneud penderfyniadau strategol a pherchnogaeth a rennir
Cydweithio ac Integreiddio	- Nifer y partneriaid gweithredol sy'n cymryd rhan yn ecosystem digwyddiadau (busnesau, sefydliadau cymunedol, sefydliadau diwylliannol, prifysgolion, cyllidwyr, contractwyr) - Nifer (a %) y digwyddiadau aml-bartner / cyd-gynhyrchiedig bob blwyddyn (e.e. Cyngor + grŵp cymunedol, neu fusnes + sefydliad celfyddydol)	Ecosystem digwyddiadau unedig lle mae'r Cyngor, partneriaid, cymunedau a'r diwydiant yn cydweithio'n effeithiol

Capasiti a Chydlynu	• Bodlonrwydd / hyder rhanddeiliaid mewn llywodraethu a chydweithio (arolwg ymhlith partneriaid, cyllidwyr, cymunedau a'r diwydiant) • Adnoddau swyddogaeth digwyddiadau wedi'u cydgrynhoi: cyllideb staffio, seilwaith, capasiti ar gyfer cydlynu, caffael adnoddau • % y digwyddiadau / prosiectau lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel cydlynnydd arweiniol neu alluogwr strategol o'i gymharu â phartner neu ddarparwr	• Swyddogaeth digwyddiadau'r Cyngor fedrus ac wedi'i hariannu'n dda, yn gweithredu fel arweinydd strategol a chydlynnydd effeithlon ar draws adrannau a threfnwyr a phartneriaid digwyddiadau allanol • Blaenoriaethau buddsoddi clir a llai o ddyblygu ar draws adrannau a sefydliadau partner
Cydbwysedd y Portffolio Digwyddiadau ac Allbwn Strategol	• Metrigau portffolio digwyddiadau blynnyddol: nifer y digwyddiadau, amrywiaeth yn ôl math (graddfa, pwrpas, cynulleidfa, tymor), dosbarthiad daearyddol • Cyfran y digwyddiadau sy'n bodloni meini prawf strategol (e.e. hunaniaeth ddiwylliannol, ymgysylltiad cymunedol, gwerth economaidd, cynaliadwyedd) — h.y. "digwyddiadau strategol" o'i gymharu â rhai ad hoc / untro	• Portffolio digwyddiadau cytbwys drwy'r flwyddyn sy'n adlewyrchu hunaniaeth Abertawe ac yn gwneud y mwyaf o werth economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol
Efficient and Effective Investment	• Nifer / % y dyraniadau cyllid neu adnoddau sydd wedi'u halinio â'r strategaeth ac wedi'u cymeradwyo drwy lywodraethu yn hytrach na'n ad hoc	• Hyder gwell gan gyllidwyr, wedi'i gryfhau gan benderfyniadau buddsoddi tryloyw sy'n gysylltiedig â chanlyniadau strategol

Datblygu Partneriaethau a Hyder	• Cyllid / buddsoddiad allanol a sicrhawyd (swm, amrywiaeth o ffynonellau cyllido) ar gyfer ecosystem digwyddiadau bob blwyddyn • Nifer (a %) y digwyddiadau neu raglenni a gyd-gynhyrchir gyda grwpiau cymunedol / sefydliadau lleol	• Partneriaethau aml-flwyddyn gyda busnesau, prifysgolion, cyrff rhanbarthol a sefydliadau cyllido cenedlaethol • Gwelliant parhaus drwy werthuso cyson, dysgu a rennir ac adborth ar drawstoriadol ar draws y sector
Ymgysylltu Cymunedol	• Bodlonrwydd cymunedol / adborth ar gyfranogiad, mynediad a chynrychiolaeth — drwy arolygon ymhlith trigolion / partneriaid cymunedol	• Sector digwyddiadau ffyniannus gyda gwell capasiti, partneriaethau cryfach, a digwyddiadau a gyd-gynhyrchir ar draws y ddinas a'r sir • Ymgysylltu cymunedol gwell, gyda digwyddiadau sy'n adlewyrchu anghenion lleol, yn cynyddu cyfranogiad ac yn ehangu mynediad



Blaenoriaeth Strategol – Cynaliadwyedd Nawr... Etifeddiaeth Yfory		
Dimensiwn	Allbynnau	Canlyniadau – Sut olwg sydd ar Lwyddiant
Ecological	• Ôl troed carbon cyffredinol (cyfanswm ac fesul ymwelydd/diwrnod ymweliad) • % gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr (blwyddyn ar ôl blwyddyn) • Gwastraff a ddargyfeiriwyd o safleoedd tirlenwi • % y cyflenwyr/contractwyr sy'n defnyddio arferion cynaliadwy neu'n ffynonellu'n lleol (Cymreig/lleol) • % y cyfranogwyr sy'n nodi cynnydd mewn ymddygiadau cynaliadwy (e.e. defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ailgylchu, lleihau gwastraff) • Nifer y digwyddiadau sy'n defnyddio seilwaith cynaliadwy ar y cyd (e.e. trafnidiaeth werdd ar y cyd, cyfleusterau gwastraff/trydan/dŵr a rennir)	• Safon Digwyddiadau Gwyrdd Abertawe a gydnabyddir, gyda phob trefnydd digwyddiadau mawr wedi ymrwymo iddi ac yn dangos lleihad mesuradwy yn eu heffeithiau amgylcheddol • Cyfrifoldeb amgylcheddol wedi'i wreiddio mewn cynllunio a chyflwyno digwyddiadau, gan sicrhau diogelu Gŵyr, yr arfordir, asedau naturiol a lles cymunedau • Gwell diogelu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) Gŵyr a thirweddau sensitif eraill, gyda llai o wrthdaro, cynllunio gwell a llai o ddifrod, tagfeydd ac aflonyddwch • Gwelliannau blwyddyn ar ôl blwyddyn mewn cynaliadwyedd digwyddiadau, gan gynnwys lleihau carbon, dargyfeirio gwastraff a chadwyni cyflenwi lleol cryfach • Hyder uchel ymhlith y cyhoedd bod digwyddiadau Abertawe'n gyfrifol yn amgylcheddol, yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cymdeithasol / Cymunedol	• % y mynychwyr o gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol (yn ôl ardal, demograffeg, statws economaidd-gymdeithasol) • % y grwpiau cymunedol targed sy'n adrodd am gynnydd mewn cyfranogiad mewn digwyddiadau diwylliannol/chwaraeon/busnes • Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan; cyfradd cadw gwirfoddolwyr • Nifer y digwyddiadau a arweinir gan y gymuned neu gan wirfoddolwyr sy'n cael eu cefnogi neu'u hehangu	• Digwyddiadau a gwyliau "cartrefol" nodedig sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol Abertawe ac yn denu cynulleidfaoedd allanol • Trefnwyr cymunedol ac wedi'u harwain gan wirfoddolwyr yn dangos mwy o wydnwch, gwell cydymffurfiaeth, cynllunio gwell a gallu digidol cryfach • Gwelliant amlwg yn y broses o recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, gan gyfrannu at gydlyniant cymunedol a diwylliant sifig cryfach
Capasiti'r Economi Leol	• Nifer (a % o'r gwerth) y contractau a ddyfernir i gyflenwyr lleol / BBaChau / mentrau cymdeithasol / cynhyrchwyr Cymreig • Nifer y swyddi a gefnogir neu a grëir (dros dro a pharhaol) sy'n gysylltiedig â digwyddiadau	• Economi werdd leol ffyniannus, gyda defnydd cynyddol o gyflenwyr Cymreig, cynhyrchwyr bwyd lleol a chontractwyr sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd • Seilwaith cynaliadwy a rennir sy'n lleihau dyblygu, yn gostwng costau ac yn cryfhau perfformiad amgylcheddol
Datblygu Capasiti ac Addysg	• Nifer y bobl sy'n cael eu hyfforddi — sgiliau newydd, interniaethau, llwybrau gyrfa, hyfforddiant gwirfoddolwyr — drwy ecosystem digwyddiadau/gwyliau	• Cydnabyddiaeth o Abertawe fel dinas sy'n meithrin creadigrwydd, yn buddsoddi yn ei threfnwyr digwyddiadau ac yn arwain ar arferion digwyddiadau arloesol a chynaliadwy yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol

	• Cyfradd defnyddio seilwaith/adnoddau a rennir (e.e. lleoliadau gwyrdd, trafnidiaeth a rennir, offer a rennir) ar draws digwyddiadau • Arbedion cost a gyflawnir drwy seilwaith a rennir, llai o ddyblygu, a chyrchu lleol • % y digwyddiadau a archwilir o ran cynaliadwyedd (amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd) ar ôl y digwyddiad • Nifer yr offerynnau, canllawiau, adnoddau a rennir, sesiynau hyfforddi a gweithdai a ddarperir i drefnwyr/gwirfoddolwyr • Metrigau ymgysylltu digidol: e.e. cyrhaeddiad cynulleidfa ar-lein, cyfraddau cyfranogiad hybrid, ymgysylltiad drwy'r flwyddyn drwy lwyfannau digidol •	• Partneriaethau cryf a chyson rhwng trefnwyr digwyddiadau, sefydliadau addysgol, diwydiannau creadigol a rhwydweithiau busnes • Llif cyson o dalent greadigol a thechnegol leol yn cael ei chadw yn Abertawe drwy hyfforddiant gwell, interniaethau a llwybrau gyrfa • Dysgu a rennir, pecynnau cymorth a hwbiau sy'n lleihau dyblygu, yn torri costau ac yn ysgogi arloesedd cydweithredol • Sector digwyddiadau medrus, hyderus ac arloesol sy'n gallu cyflwyno digwyddiadau cynhwysol, cynaliadwy o ansawdd uchel drwy'r flwyddyn
--	--	--

Atodiad D

Sleidiau Adborth Gweithdy Strategaeth Digwyddiadau Abertawe

- Isod ceir rhai o'r sleidiau allweddol o'r gweithdai a gynhaliwyd yr wythnos hon.
- Mae'r casgliadau sy'n deillio o'r Heriau, Cryfderau a Chyfleoedd, y Weledigaeth a'r Blaenoriaethau yn ganlyniad i'r ymchwil desg a'r arolygon a gynhaliwyd gan Alpha-1.
- Os hoffech ddarparu adborth ar y casgliadau hynny neu wneud unrhyw sylwadau pellach, byddem yn falch iawn o'u derbyn a byddwn yn eu cynnwys ynghyd â'r sylwadau a'r trafodaethau o'r gweithdai.

Arolwg ac Ymchwil Desg hyd yma....

Polisiau a Strategaethua

- Llyowdratath Genedlaetothol
 - Llesiant a Nodau Cenedlaethau'r Dyfodolirh 7
 - Croeso Cymru
- Cyngor
 - Cynhlun Corfforaethol
 - Strategaeth Ddiwylliamol
 - Cynllniiau Adfywio
 - Cynllun Twristiaeth
- Partneriaethau
 - Cynhlun Rheoli Cyrchfan

Arolygon a Gwybodaeth Gynulleidfa

- Arolygg Strategaeth Digwyddiadaur Rhanddeiliaid a'r Cyhobdd
- Sesiynau Galw Heibio
- Cynulleidfa – Ymglynidau Ymwelwyr, Cyfrifiad, data diggwddiadau penodol, astudiaeth gwesty
- Archwiliad Rhaglen Digwyddiadau
- Rhanddeiliaid
- Trafodaethau un-i-un
- Rhaglen diggwddiadau a gwyliau presennol – Abertawe a'r ardal gyf agos

Heriau

- Beth yw'r heriau sy'n cael eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol?
- Beth yw eich ffyrdd o'u goresgyn / "dulliau osgoi"?
- Beth sy'n eich ysgogi i ffynnu a goroesi?

Pethau i'w hystyried...

Trefnwyr Digwyddiadau

- Beth sydd wedi eich helpu'n ddiweddar i ddatblygu digwyddiadau?
- Pwy yw'r prif bartneriaid rydych yn gweithio / cydweithredu â nhw i oresgyn heriau?
- Pwy yw'r prif fathau o bobl sy'n mynychu eich digwyddiadau, a pha heriau ydych yn eu hwynebu wrth eu denu i ddychwelyd?
- Beth sy'n ei gwneud yn anodd trefnu a datblygu digwyddiadau?

Busnesau, Sefydliadau, Grwpiau, Cymunedau

- Sut mae digwyddiadau awyr agored yn Abertawe yn effeithio ar eich busnes, y gyrchfan neu nodau cymunedol?
- Pa fathau o ddigwyddiadau sy'n ysgogi'r traffig cerdded/gwariant neu gydlyniant cymunedol fwyaf – a pha rai nad ydynt?
- Pa mor dda mae digwyddiadau a gwyliau awyr agored a drefnir yn Abertawe yn cydfynd â'ch rhaglenni eich hun a'r hyn rydych yn ei wneud?

Heriau

- **Costau cynyddol** yn cynyddu pwysau ariannol gyda chostau uwch ar gyfer trefnu digwyddiadau.
- **Cyfyngiadau cyllideb y Cyngor** gyda chyllid cyfyngedig i gynnal neu ehangu cefnogaeth i ddigwyddiadau.
- **Dirwyiad economaidd** yn effeithio ar wariant defnyddwyr a chyfleoedd nawdd.
- **Cydymffurfiaeth amgylcheddol** gyda gofynion deddfwriaethol cynyddol sy'n effeithio ar gyflwyno digwyddiadau.
- **Diffyg gwerthuso strategol o ddigwyddiadau** a dadansoddi risg, gan danbrizio effaith gymdeithasol ac economaidd digwyddiadau.
- **Bylchau yn rhaglen digwyddiadau** gyda diffyg digwyddiadau cyrchfan amlwg sy'n dathlu diwylliant a threftadaeth leol.
- **Cystadleuaeth gynyddol gryf** gan ddinasoedd cyfagos fel Caerdydd a Bryste.
- **Rheolaeth digwyddiadau dygnwch gwledig ac awyr agored** angen gwell cydlyn.
- **Sensitifrwydd cymunedol cynyddol** gyda phryderon cynyddol gan drigolion a busnesau ynghylch effaith digwyddiadau (traffig, sŵn, sbwriel).
- **Gofynion rheoleiddiol cynyddol** gyda gofynion mwy cymhleth ar gyfer trefnwyr digwyddiadau bach a chymunedol.
- **Heriau tywydd anrhagweladwy** yn effeithio ar gynllunio awyr agored a phresenoldeb.
- **Cysylltedd trafnidiaeth ar raddfa fawr cyfyngedig** a chyfyngiadau seilwaith sy'n effeithio ar fynediad ymwelwyr.

Cryfderau, Cyfleoedd a Photensial Twf

- Adnabod digwyddiadau presennol a digwyddiadau posibl yn y dyfodol sydd wedi'u gwreiddio yn niwylliant a threftadaeth y Ddinas a'r Sir, ynghyd â'i thirwedd naturiol ac adeiladol.
- Edrych ar ddigwyddiadau sy'n bodloni chwaeth a gofynion newidiol y gynulleidfa bosibl, y gymuned a busnesau

Pethau i'w hystyried...

Trefnwyr Digwyddiadau

- Beth yw'r cyfleoedd i ddatblygu eich cynulleidfa bresennol a denu cynulleidfaoedd newydd, a datblygu neu amrywio eich rhaglen?
- Pwy allai fod yn bartneriaid allweddol a chydweithredwyr i weithio gyda nhw?

Busnesau, Sefydliadau, Grwpiau, Cymunedau

- Pa ddigwyddiadau newydd hoffech eu gweld sy'n cyd-fynd â'ch nodau – gan gynnwys amser y flwyddyn ar gyfer cynulleidfaoedd?
- Pwy allai fod yn bartneriaid allweddol a chydweithredwyr i weithio gyda nhw / sut gall digwyddiadau integreiddio'n well â busnesau lleol a chymunedau?
- Sut gallai digwyddiadau fod yn fwy cynhwysol i'ch aelodau?

Cryfderau, Cyfleoedd a Photensial Twf

- **Calendr digwyddiadau drwy'r flwyddyn** gyda phrofiadau amrywiol o safon uchel sy'n cefnogi economi dwristiaeth gwerth £600m+.
- **Cefnogaeth gref gan y Cyngor** yn darparu cefnogaeth weithredol i dyfu'r portffolio digwyddiadau, codi proffily ddinas a chynorthwyo busnesau lleol.
- **Lleoliad eithriadol** gyda thraethau, parciau, Gŵyr a chanol dinas fywiog yn cynnig lleoliadau delfrydol ar gyfer digwyddiadau o bob maint.
- **Cyfle i fywioli mannau newydd** a dod â bywyd newydd i ardaloedd datblygedig fel Promenâd y Mwmbwls.
- **Hunaniaeth diwylliannol a hanesyddol gref** gyda sylfeini cadarn ar gyfer digwyddiadau a gwyliau awyr agored unigryw.
- **Cronfa gyfoethog o dalent greadigol** o artistiaid, cerddorion a pherfformwyr lleol yn barod i ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol.
- **Cymuned fyfyrwyr fywiog** sy'n cryfhau'r sylfaen gynulleidfa, cyfranogiad ac egni.
- **Diddordeb cynyddol mewn gweithgareddau awyr agored a llesiant** sy'n alinio digwyddiadau â thueddiadau ffordd o fyw egniol.
- **Enw da cryf am ddigwyddiadau dygnwch awyr agored** i adeiladu arnynt, gan gynnwys profiadau hybrid.
- **Datblygu digwyddiadau tymhorol** yn hybu twristiaeth y tu allan i'r tymor brig gyda digwyddiadau diwylliannol yn yr hydref, cyn y Nadolig, ac yn y gwanwyn (e.e. Croeso, Diaspora).
- **Cyfleoedd hybrid a ffin** yn ymestyn digwyddiadau dan do i'r awyr agored neu'n ychwanegu profiadau ategol (e.e. ymyl (fringe) y Sioe Awyr).
- **Cyd-alignio polisi gwell** i fanteisio ar raglenni adfywio a chyllid diwylliannol (e.e. "Balchder yn y Lle", Cyngor y Celfyddydau).
- **Hyrwyddo cynhyrchwyr lleol** i arddangos bwyd, diod a chreffft rhanbarthol er mwyn creu digwyddiadau cyrchfan thematig.
- **Twf ar lawr gwlad** yn cefnogi gwyliau dilys, dan arweiniad y gymuned sy'n dathlu'r celfyddydau, llenyddiaeth a diwylliant lleol.

Dyheadau a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Darlun Byw!



Beth fydd golwg, teimlad a sain Abertawe yn debyg iddynt fel cyrchfan fywiog, gynhwysol, ddiogel ac sydd â dylanwad economaidd cryf ar gyfer digwyddiadau a gwyliau

Y rôl y bydd digwyddiadau a gwyliau yn ei chwarae wrth wella atyniad Dinas a Sir Abertawe fel lle i fyw, gweithio ac ymweld

Datganiadau Gweledigaeth

- a) *“Creu rhaglen gynhwysol o ddigwyddiadau awyr agored drwy’r flwyddyn yn Abertawe sy’n dathlu diwylliant lleol, yn gwella’r amgylchedd naturiol ac sy’n cyflwyno buddion economaidd a chymdeithasol parhaol i gymunedau.”*
- b) *“Lleoli Abertawe fel cyrchfan arweiniol ar gyfer digwyddiadau awyr agored nodedig, cynaliadwy a hygyrch, gan fanteisio ar ein mannau unigryw a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol a rhanddeiliaid.”*
- c) *“Cyflwyno profiadau awyr agored o ansawdd uchel a chofiadwyledled Abertawe sy’n cryfhau’r ymdeimlad o le, yn rhoi hwb i adfywio, yn hyrwyddo lles ac yn parchu natur.”*
- d) *“Dod yn fan cyfeirio ar gyfer digwyddiadau awyr agored cynaliadwy sy’n uno cymunedau, yn amlygu ein treftadaeth naturiol a diwylliannol, ac yn hyrwyddo mynediad cynhwysol, gan gyfrannu’n gadarnhaol at adferiad natur a lleihau carbon.”*
- e) *“Meithrin cymuned digwyddiadau awyr agored wydn, dan arweiniad rhanddeiliaid, wedi’i wreiddio mewn hunaniaeth leol ac wedi’i chefnogi gan bartneriaethau cryf sy’n addasu i heriau, yn defnyddio asedau lleol yn gynaliadwy ac yn sicrhau bod y buddion yn cael eu rhannu’n eang ymhlith trigolion, artistiaid, busnesau a’r amgylchedd naturiol.”*

Blaenoriaethau ac Ysgogwyr ar gyfer Newid

Beth yw'r ffactorau sy'n gyrru i gyflawni effaith economaidd a chymdeithasol a hunaniaeth gymunedol?

Pa weithredoedd fydd yn cyflawni'r newid?

- a. Mwyhau'r Effaith Economaidd
- b. Gwella Proffil a Hunaniaeth Ddiwylliannol Abertawe
- c. Hyrwyddo Twristiaeth a Chreu Lleoedd
- d. Cefnogi Cymunedau a Lles
- e. Cyflwyno Digwyddiadau Cynaliadwy a Chyfrifol
- f. Meithrin Arloesedd a Datblygu Sgiliau
- g. Cryfhau Llywodraethu, Partneriaethau a Buddsoddiad